Utrecht University Library
Partner in Science
Universiteit Utrecht

# Llyfr y tri aderyn neu arwydd i annerch y Cymru

https://hdl.handle.net/1874/380391

# LLYFR Y TRI ADERYN

Bangor
Jarvis a Foster
*Pris 2/6 net, gyda'r post 2/9.*

EL

VAN HAMEL
520

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS
ORDINARII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946

LLYFR Y TRI ADERYN

Van Hamel 520

# LLYFR Y TRI ADERYN

NEU

## ARWYDD I ANNERCH Y CYMRU

GAN
MORGAN LLWYD O WYNEDD

*Ad-argraffiad Llythrenol o'r Argraffiad cyntaf.*

LLUNDAIN : J. M. DENT & CO.
BANGOR : JARVIS & FOSTER.
MCM.

# DIRGELWCH

Rhai-iw

# DDEALL

Ac i eraill iw

## WATWAR,

SEF

## Tri aderyn yn ymddiddan

yr ERYR, a'r GOLOMEN, a'r GIGFRAN.

## Neu ARWYDD I ANNERCH Y CYMRU.

Yn y flwyddyn mil a chwechant a thair ar ddêc a deugain, *CYN DYFOD*, 666.

Printiedig yn *Llundain* gan *James Flesher*, ac à werthir gan *Thomas Brewster* tan lûn y ui Bibl yn ymmyl *Pauls*.

UNIVERSITEITS BIBLIOTHEEK
UTRECHT

Mor. Lloyd

*Arwydd i-annerch y cymru* yn y flwyddyn mil a chwechant a thair ar ddêc a deugain, *cyn dyfod*, 666.

*Eryr.* O Ba le'r wyti (y *Gigfran* ddû) yn ehedeg?

Cigfran. O dramwy'r ddayar ac o amgylchu 'r gweirgloddiau i ynnill fy mywyd.

*Eryr.* Onid tydi yw 'r aderyn a ddanfonodd Noah allan o'i long na ddaeth yn ôl fyth atto drachefn?

Cigfran. Myfi yn wir yw 'r aderyn hwnnw, ac mae arnaf dy ofn di brenin yr Adar.

*Eryr.* Pam na ddoit ti yn ôl at yr hwn a'th ddanfonodd?

Cigfran. Am fôd yn well gennif fwytta cyrph y meirwon na bôd dan law Noah ai feibion.

*Eryr.* Di wyddost (ô *Gigfran.*) i'r golomen ddychwelyd yn ôl. ai deilien wyrdd yn ei phîg.

Cigfran. Beth er hynny? nid yw hi ond aderyn gwan ymysg Chediaid y ffurfafen; Rwi fy hun yn gryfach, ac yn gyfrwysach o lawer.

*Eryr.* Ond yr wyti yn bwytta cîg y meirwon, ac yn ymborth ar y budreddi annaturiol.

Cigfran. Felly yr wyt tithau (O Eryr) weithiau, er dy fod yn falch, ac meais yn frenin.

*Eryr.* Gwîr yw hynny: Ond galwn am y golomen i wrando beth a ddywed hi am dani ei hun, ac am denem ninnau.

Cigfran. Hi ddaw hi i'n cymmydl ni rhag ofn.

*Arwydd* i *annerch* y *cymru* yn y flwyddyn
mil a chwechant a thair ar ddêc
a deugain, *cyn dyfod*, *666*.

*Eryr.* O Ba le'r wyti (y *Gigfran* ddû) yn ehedeg?

Cigfran. O dramwy 'r ddayar ac o amgylchu 'r gweirgloddiau i ynnill fy mywyd.

*Eryr.* Onid tydi yw'r aderyn a ddanfonodd Noah allan o'i long na ddaeth yn ôl fyth atto drachefn?

Cigfran. Myfi yn wîr yw 'r aderyn hwnnw, ac mae arnai dy ofn di brenin yr Adar.

*Eryr.* Pam na ddoit ti yn ôl at yr hwn a'th ddanfonodd?

Cigfran. Am fôd yn well gennif fwytta cyrph y meirwon na bôd dan law Noah ai feibion.

*Eryr.* Di wyddoſt (ô *Gigfran.*) i'r golomen ddychwelyd yn ôl, ai deilien wyrdd yn ei phîg.

Cigfran. Beth er hynny? nid yw hi ond aderyn gwan ymysg Ehediaid y ffurfafen; Rwi fy hun yn gryfach, ac yn gyfrwysach o lawer.

*Eryr.* Ond yr wyti yn bwytta cîg y meirwon, ac yn ymborth ar y budreddi annaturiol.

Cigfran. Felly yr wyt tithau (O Eryr) weithiau, er dy fôd yn falch, ac megis yn frenin.

*Eryr.* Gwîr yw hynny: Ond galwn am y golomen i wrando beth a ddywed hi am dani ei hun, ac am danom ninnau.

Cigfran. **Ni ddaw hi i'n cwmnhi ni rhag ofn, ac ni feiddia hi ddywedyd ei meddwl lle bwyfi.**

*Eryr.* Nage. Rhaid wrth gyngor y golomen. Gwrandawn ar bawb, a dewiſwn y gorau. Pale yr wyti (o golomen ?) yn lloches y grifiau ? Gâd i ni glywed dy lais dithau.

Colomen. *Os cair Cennad (ac onide) mae Ewyllys i ddangos dirgelwch y dwfr diluw a'r hèn fŷd a'r newydd; da gennif ddwyn y ddeilien lâs a newydd da i'r rhai a achubir. Ac mi ddylwn gael cennad i ddywedyd y gwîr yn llonydd am danaf fy hunan, ac am bôb aderyn arall.*

*Eryr.* Dôs rhagot. Ni rwyſtra nêb di: Di gei gennad i fynd ymlaen.

Colomen. *Mae gennifi etto lawer ynghylch yſcrythurau ac eneidiau dynion, ynghylch teyrnaſoedd a rhyfeloedd, Arch y dyſtiolaeth, a chodiad y ſeren ddydd, Haul y cyfiawnder, a dydd y farn, Diwedd y bŷd hwn, a dechrau'r bŷd arall, naturiaeth Duw, a natur dyn, nêf ac vffern, a llawer o fatterion eraill, Ond mae'r gigfran yn anhywaith, ni chair ſôn am ddim daioni o'i bodd hi.*

*Eryr.* Ond mae Noah wedi peri i mi 'r *Eryr* lonyddu'r *Gigfran* a chadw heddwch ymyſg Adar: Ac fel yr ydym ni 'r Eryrod yn gryfach na'r cigfrain, felly mae 'r da yn gryfach na 'r drwg.

Colomen. *Beth a fyn yr* Eryr *i wybod? ac am ba'r y newydd y mae yn ei feddwl ymofyn?*

*Eryr.* Mi fynnwn wybod genniti pa beth yw dirgelwch Arch Noah, A chan fôd y dychryn, a'r

diluw, a'r rhyfel, a'r rhwyftrau, a'r gwae, a'r gwag-edd, a'r camwedd wedi parhau cyd ar y ddayar; Pa brŷd y ceir diwedd?

Colomen. *Cyfrinach yw Arch Noah iw ddangos i rai, canys nid yw'r adar drwg, nag yn deilwng nag yn ewyllyſgar iw glywed: Ond am y ddeilien wyrdd, a'r newydd da, fe baid y dwfr diluw pan bregether yr efengyl dragwyddol drwy'r holl ddayar.*

*Eryr.* Onid yw 'r pregethwyr yn i phregethu hi ymhôb plwyf yn barod ar i rhedeg, ac yn parablu, ac yn darllain yr efengyl i ni yn ein ſefyll?

Colomen. *Nag ydynt gan mwyaf: Nid adwaen-ant Dduw, Mwy nag y mae'r twrch dayar yn adna-bod yr haul, neu blant Eli yr hwn ai Gwnaeth.*

*Eryr.* Ond mae nhwy yn dywedyd mai pregethu, 'r efengil y maent i gyd.

Colom. *Ie os yr un llais ſydd gan y gigfran, a'r golomen, neu os yr un fâth yw cyfarthiad cŵn a lleferydd angelion. Ac nid un o ddefaid yr Oen nefol yw'r hwn ni ŵyr nad blaidd yw bugail, ac nad bugail yw'r blaidd.*

*Eryr.* Ond Beth (meddi di) yw 'r ddeilien lâs a'r efengil dragwyddol?

Colom. *Arwydd fôd digofaint wedi myned heibio, a'r chwe mîl yn paſsio, a'r Sabbaoth mawr ar fynydd Ararat yn agos.*

*Eryr.* A geir heddwch drwy 'r bŷd, a goleuni yn lle 'r tymheſtloedd, a'r tywyllwch gwyntog ymma?

Colomen. *Cair dros lawer o flynyddoedd.*

*Eryr.* Pa fodd y profi di hynny? Onis gwnei ni byddaf bodlon i ti, mwy nag i'r gigfran, neu aderyn arall.

Colomen. *Gwrando* (*O* Eryr) *a deall; Mi ddywedaf y Gwîr. Mewn Chwech diwrnod y*
Gen. 2. *gwnaed y bŷd, ac ar y seithfed y gorphwysswyd medd Moesen; Ac mae vn dydd gyda phreswyli-wr tra-*
2 Pet. 3. *gwyddoldeb fel mîl o flynyddoedd, a mîl o flynyddoedd fel vn dydd, medd Pedr. Deall hyn meddaf* (Eryr) *canys ychydig ai cenfydd nes iddo ddyfod.*

Cigfran. Crawcc. Beth a wna'r golomen ffôl ymma yn siarad ni ŵyr hi beth, o'th flaen di O Eryr bonheddigaidd?

*Eryr.* Heddwch: Hi wnaeth wasanaeth i'r bŷd yn yr Arch. Rhaid i bôb aderyn arfer ei lais.

Colomen. *Nid da gan y gigfran monofi, er na wneuthum erioed niwed iddi.*

*Eryr.* Felly nid da gan y drwg y da un amser, ond i hymlid y maent o goed i gastell.

Cigfran. Ai aderyn drwg y gelwi di fi? ai hawdd yw i mi gael cynghyrcic yn ddrwg?

*Eryr.* Fe a'th anwyd yn uffern, ac yno y mynni drigo. Ond ni fynnit mo'th alw wrth henw dy wlâd, na'th farnu yn ôl dy waith.

Cigfran. Ni fynnai o'm bodd mo'm galw felly.

*Eryr.* Gwêl, ac edrych ar y golomen ymma, nid gwaeth ganthi hi pa fodd y gelwir hi, canys mwyn, ac arafaidd yw.

Cigfran. Nid colomen wyfi, ond Cigfran. Ac fe ordeiniwyd i bôb aderyn ei liw, ai lûn, ai lais ei hun; Ac os gofynni di i mi Pam? Minnau a ofynnaf i tithau, O Eryr, Pam nad wyti cyn lleied ar dryw bâch, neu'r wenfol?

*Eryr.* Ond Gwrando (Gigfran) pa newydd yr wyti yn i ddwyn ar ôl dy holl hedeg dros y gwledydd?

Cigfran. Rwi'n gweled mai gwych yw bôd yn gyfrwys pa le bynnag y bwyf.

Colomen. *Nid yw dy gyfrwyſtra di ond ffolineb canys ni fedri ac ni fynni ddyfod yn ôl at Noah.*

Cigfran. Gwêl ô Eryr frenin fel y mae'r golomen o'th flaen di yn fy marnu i.

Colomen. *Nid wyfi ond dywedyd y gwir am danat ti, ac fe fyn y gwîr o'r diwedd ei le.*

*Eryr.* Ond dangos di (o aderyn dû) i'th gyfiawnhau dy hun, Pa gyfrwyſtra ſydd ynoti mwy nag mewn aderyn arall?

Cigfran. Mi fedraf droi gyda phôb gwynt, ac arogli fy mwyd o bell, a gochelyd y ſaethyddion. Ni ddeſcynnaf yn agos i nêb heb fy llygad yn fy mhen. Pa opiniwn bynnag a fo gan yr uchelwyr, mi fedraf i lyngcu, am y caffwyf lonyddwch yn fy nŷth.

*Eryr.* Oni fedr y golomen hynny hefyd?

Cigfran. Crawcc. Mae rhai o'r proffeſwyr newyddion ymma mor wangcus a minnau, ac mor gyfrwys am y bŷd ar gigfran dduaf. Ond os troi'r ddalen a darllain y tu arall i'r gwîr, mae llawer o'r dynion newyddion ymma heb ganddynt brîs am y bŷd nag am danynt ei hunain, nag am ddim am y caffont fôd gyda Noah yn yr Arch, mewn cymdeithas yn yſbryd yr ail Adda; Ac ni adwaen ni

yr un o honom ni y Cigfrain o'r meddwl hwnnw.

Colomen. *Gwir y mae'r gigfran yn i ddywedyd yn*
Tit. 1. 16. *hyn, canys mae llawer a lliw colomennod arnynt, a naturiaeth y gigfran ormod ynddynt.*

*Eryr.* Ond gwrando di (Gigfran gyfrwys) onid oes ewyllys rhydd gennit? Oni elli os mynni beidio a llâdd *yr ŵyn bâch*, a chymmeryd rhyw ffordd arall i fyw?

Cigfran. Pes fai ewyllys fe fyddai allu. Pes fai'r gwaethaf yn gallel iawn ewyllysio bôd yn orau, fe fynnai fôd felly: Ond mae ewyllys pawb wedi i garcharu yn ei naturiaeth ei hun.

*Eryr.* Ond oni elli di ddyfod allan o'th ewyllys, a'th wadu dy hun?

Cigfran. Na allaf. Trêch yw naturiaeth na dim, ac ni welaf fi fawr yn nofio yn erbyn y ffrŵd honno. Ie, ni all nêb i gwrthwynebu yn hîr ond y fawl fydd a naturiaeth newydd ganddo.

*Eryr.* Ond Beth yw'r ewyllys i'r naturiaeth?

Cigfran. Mae'r ewyllys yn y creadur fel y ffrwyn i'r march, neu lŷw i'r llong, neu Arglwydd mewn gwlâd. Ac os bydd yr ewyllys yn ddrwg, mae pôb pluen o'r aderyn hwnnw yn ddrwg hefyd.

*Eryr.* Da yr wyti yn dywedyd dy refwm, ond drwg yr wyti yn gwneuthur. Pa le y cefaifti y fynwyr ymma i ymrefymmu fel hyn?

Cigfran. Ymha le y cawn i hi, ond yn

yscolion y deyrnas? Ond yn aderyn dû yr aethym i i'r yscol, ac yn gigfran ddû fel y gweli y daethym i adref.

*Eryr.* Wrth hynny. Ni buase waeth i ti aros gartref.

Cigfran. O ni fynnaswn i er dim aros gartref: Canys mi a ynillais gallineb i dwyllo'r adar, a phei rhoiti gennad (O Eryr) mi a'th dwyllwn dithau fel y siommodd y phariseaid Bontius Pilat. Ond craff yw dy lygad ti, a rhaid tewi.

*Eryr.* Ond a welaisti mor colomennod yn yr yscolion llei buost di?

Cigfran. Yr oedd ymbell un. Ond ni fedrwn i ddarllain mo'i hiaith nhwy, na nhwythau ddeall mo'm meddyliau innau. Ond Pam yr wyt, O Eryr yn taro gyda'r golomen o'm blaen i?

*Eryr.* Mae Noah yn i hoffi hi yn fwy na'th di.

Cigfran. Er hynny Cofia mai er i'r golomen gyntaf, a'r ail ddyfod i'r Arch eilwaith ni ddaeth y drydedd i ymorol am dano mwy.

*Eryr.* Fe alle mai Anghrist oedd honno yn rhith colomen: neu fe alle fôd y bŷd yn rhydd iddo ar ôl darfod cyfryngdod a gweinidogaeth yr Arch.

Cigfran. Ond fel y waethaf y mae nhwy i gyd bes gwyddit.

*Eryr.* Nage. Onid y nhwy yw'r adar gwirion, hawddgar, cyflym, cwynfannus, diniwed; ac mae yn y gwledydd bobl o'r fâth honno, er dy fôd ti yn crowccian yn i herbyn: Gwell a fyddai i ti aros

gyda ni yn ddiniwed. Fe wyr Noah mai aderyn drwg wyti; Ac mae ei fwa ef yn cyrhaeddyd o entrych y ffurfafen, i waelod y ddayar, a'i ſaeth ar y llinyn yn erbyn pôb aderyn drwg, ſydd wedi i adel ef heb ddychwelyd atto.

Cigfran. Mi ddywedais ddwy waith o'r blaen i ti, na allai newid mo'm naturiaeth mwy na'm lliw; mae gennif lawer chwedl iw ddywedyd, bei cawn i gennad, a chroeſo.

*Eryr*. Pam na ddywedi di dy feddwl yn hŷf, a minnau yn rhoi cennad i ti?

Cigfran. Ond ſynhwyrol yw'r nêb a ddywedo mewn damhegion; A brenin wyti yr awron. Ac os dywedaf ddim yn erbyn dy feddwl di, di am anrheithi.

*Eryr*. Na wnaf ddim. Fe ddyle rheolwyr roi cennad i bawb i ddywedyd i meddwl: Dywaid yn hŷf, ac mi a'th wrandawaf.

Cigfran. Ond mae'n beryglus dywedyd y gwîr yr awron: mae milwyr a chynghorwyr yn ſpio am danom, i'n dal, ac i'n difetha.

*Eryr*. Nage. Drwy na ddywedych ond y gwîr ſydd ynot mewn heddwch, di gei dy wrando.

Cigfran. Na wrando ar y golomen, ni fedr hi ond rhyw duchan oferedd: wedi'r cwbl (meddaf fi) melys yw bwytta o chwant y cnawd tra barhatho. A Gwych gennif (bes gallwn) ddifa yr holl rai bâch wedi i newydd aileni, a dychrynnu y lleill am llais garw gwrol.

*Eryr*. Drwg yw creulondeb y llais garw. Oni

wyddoſt ti mai gwell bôdd pawb, nai anfodd? Dyſg Rhuf. 12. 18.
y gwirionedd gan y colomennod, a bydd ddiddig ynot dy hunan.

Cigfran. **Ni chlywa i well llais pregethau gan y naill na'r llall.**

*Eryr.* Fe fedr y golomen atteb nad oedd St. *Paul* ond gŵr gwael yngolwg y Corinthiaid, ond tuedd, a 2 Cor. 10. 10.
dyfnder y meddwl mewn pregethwr iw'r cwbl.

Cigfran. **Ond pwy ſydd yr awron fel yr Apoſtolion?**

*Eryr.* Er hynny. Mae'n hawdd i lygad *Eryr* ganfod fôd yr un môr yn torri allan yr awron ac oedd y prŷd hynny; ond nad yw'r ffynnonau ymma o ddwfr etto yn troi yn llynniau fel cynt, eiſiau calonnau iſel iw derbyn.

Cigfran. O Eryr, **na chrêd mor gau brophwydi, ond coſpa nhwy mewn prŷd.**

*Eryr.* Nid ffals brophwydi yw y rhai ſy'n traethu yr efengyl, ac yn byw ar ei hôl: drwg yw cenfigen. ſôn yr oedditi am dy sîr dda ar y cyrph meirwon, os cefaiſt, cadw os gelli. Minnau a gefais lawer o'r ſeigiau hynny; Ond mae nhwy wedi darfod.

Cigfran. **Oni weli di gywion y colomennod yn ehedeg i'r pulpud i bregethu, ai pliſg geni am ei pennau; Pa fodd y gall ifiengtid ddyſcu henaint?**

*Eryr.* Fe ddywaid y golomen i ti, fôd y llangc
*Joſeph* (ac *Elihu* hefyd) yn fwy ei ddyſg nâ'r hen- Pſal. 105. 22.
afgwyr. A bôd rhai yn ddyſcedig yn ei hifiengtid, Job 32. 9, 10.
a llawer yn ynfydion yn ei henaint. Ac nad
dyfnderoedd ffynnonau naturiaeth ſy'n dyfrhau Zach. 10. 1.
enaid dŷn, ond y cawodydd oddifry; ac na wydde

*Nicodemus* ddyſcedig beth oedd yr ailenedigaeth
Joan 3. mwy na phlentyn cyn i eni, a llai na phlentyn bâch
wedi i eni. Di weli langc bychan yn deall mwy
nag anifail mawr, ac fel y bo'r dydd yn gwawrio, y
mae dŷn yn gweled. Canys fe welai Joan efangylwr
lawer mwy ganol dydd, nag a welai Joan fedyddiwr
ar y wawr: am hynny y lleiaf yn nheyrnas nêf
oedd fwy nag ef.

Cigfran. **Ond mae'r genhedlaeth ragrithiol yma yn barnu ei henafiaid, i bôd nhwy yn nhân uffern, ac er hynny ſôn a wnânt am gariad perffaith.**

*Eryr.* Mi wn amcan beth y mae nhwy yn ei
ddywedyd, Rwyti yn cam gymmeryd ei geiriau:
vchel yw paradwys, a dwfn yw uffern, nid oes fawr
etto yn y bŷd canol ymma yn canfod yn eglur pa
rai ſydd yn y ddau fŷd eraill. Ac am ei henafiaid,
gobeithio maent fôd cynnifer o honynt ac a wnaeth-
ant yn ôl yr hyn a wyddent wedi dychwelyd i
Zech. 1. 4. locheſau'r Arch, Ond nad digon i'r oes ymma fôd
Luk. 12. 48. fel y nhwy. Canys fe edrychir am lawer oddiwrth
y rhai a dderbyniaſant lawer.

Cigfran. **Ond mae llawer o opiniwnau newyddion, ac o hereſiau diniſtriol, ymyſg yr adar anyſcedig ymma.**

Eſay 11. 3. *Eryr.* Pa bethau yw rheini? Ni chredai mo
Matth. 15. 14. bôb chwedl; Gâd i mi weled am llygad fy hunan,
ac yna mi a farnaf.

Cigfran. **Ond ſiwrach i ti gredu y Doctor-iaid dyſcedig? ac os parant i ti ddial, gwna heb ruſo.**

*Eryr.* Nid felly. Mi welais yn amſer Mary,
Elizabeth, Jago a Charles olaf, ac er hynny hyd yn

hyn, nad oedd ond y trecha treiſied, a llawer o waed gwirion a dywalltwyd i geiſio yſtwytho cydwybodau y rhain. Ond mae'n rhaid i ebill athrawiaeth fynd o flaen morthwyl rheolaeth, rhag hollti'r pren, neu blygu'r hoel.

Cigfran. Gwrando dithau (ô Eryr tywyſogaidd) Pam yr wyti yn gwarafun i'r cigfrain fyned ar ôl ei meddyliau, ai cydwybodau? yr wyti yn dwyn ein llyfr gwaſanaeth oddiarnom, ac yn ein llwytho ni a threthi trymion yn ôl dy ewyllys dy hun, ac yn gwneuthur gwaeth na'n bygwth, onis talwn hyd adref.

*Eryr.* Am y trethi. Er na ŵyr y gigfran cyſtal ar *Eryr* beth ſydd iw wneuthur i fantumio arfau, a llongau i gadw heddwch, etto rhaid i ti dalu teyrnged, ac ymoſtwng i'r awdurdod ſydd arnat, ac oni bai fôd y cigfrain hyd yn hyn yn yſcymun, ni bydde raid wrth filwyr, na threthi iw mantumio. Pan ddyſcech di fôd yn llonydd fe yſcafnheir y trethi. Ond am lyfr dy waſanaeth, mi chwedleuaf yn y fan a'r golomen, i weled beth a ddywaid hi yn hynny.

Cigfran. Cigfran anhappus wyfi: Roedd fy henafiaid i yn cael llonydd, a'r erydod a'r rheolwyr gynt yn cymmeryd ei hefmwythdra, ac yr awron yr wyti yn fwy dy refwm, ac yn llai dy nerth na'r tywyſogion o'r blaen.

*Eryr.* Digon yw hynny o weiniaeth a chyfrwyſtra; yr oedditi gynne yn ſôn am hereſiau diniſtriol ſydd ymhlith y colomennod. Henwa un o'r hereſiau hynny, ac mi ai hyſtyriaf, ac onide mi & &.

Cigfran. Mae nhwy yn dal nad oes ond un brenin, ac yn dywedyd i fôd ef ymhôb lle ac heb i gynnwys yn unlle. Nid adwaen i mor brenin hwnnw. Ac mae nhwy a'r fedr dy wrthod tithau O Eryr i fôd yn ſwyddog arnynt ac am hynny fynghyngor i yw i ti mewn pryd edrych yn dy gylch.

*Eryr.* Nid rhaid i mi ofni mor colomennod gwirion, ni wna nhwy ddim ond a fynno Noah, yr hwn er ei fôd ef yn aros yn gorphorol yn yr Arch, mae ei Arglwyddiaeth ef dros yr holl fŷd.

Cigfran. Ond mae nhwy yn dal mae nhwy yw'r bobl buraf. Oni chlywaiſti'r golomen gynneu yn i chanmol ei hunan?

*Eryr.* Mae hi yn llawer hawddgarach na'th di.
Ac rwi'n cofio i'r dynion diniwed gynt ddywedyd
i bôd nhwy yn blant yr Arch, a bôd yr holl fŷd yn
1 Joan 5. 19. gorwedd mewn drygioni, a bôd ganddynt hwy ſêl
Dat. 2. 17. ddirgel, nad edwyn nêb ond nhwy i hunain.

Cigfran. Ond nid opiniwn dŷn am dano ei hun a all ei achub heb weithredoedd da.

*Eryr.* Mi wn nad yw'r golomen yn barnu mor yſcuthanod, a llawer mâth arall o adar, ond am yr adar drwg, mae ei gweithredoedd ei hunain yn i barnu.

Cigfran. Ond pa le y mae ei gweithredoedd da nhwy, ar ôl ei holl duchan, ai trydar?

*Eryr.* Oni allant wneuthur y daioni a fynnent, ni wnânt niwed i nêb. Ond dydi, gan na fynni wneuthur da, Di a fedri ac a fynni wneuthur drwg.

Cigfran. Ond niwed iddynt hwy hedeg i

gaeau ei cymydogion a difetha ei hadyd, wrth i barnu i uffern, fel pe baent oll yn golledig.

*Eryr.* Yn yr hyn y mae nhwy ar fai nid wyfi yn dadleu droſtynt; Ac ni all nêb ond Noah farnu calonnau yr holl adar: Ond yr wyti yn barnu calon y golomen, i bôd hi yn ddrwg; a phawb yn gweled wrth dy liw, a'th lais, a'th weithredoedd di, dy fôd ti yn ddrwg dy hunan.

Cigfran. Ni allai aros clywed y gerdd ymma. Attolwg gâd lonydd i mi i ehedeg llei mynnwyf:

*Eryr.* O aderyn cyfrwyſddrwg, Gwell gwrando na chael dy lâdd. Ond fe lâs a gafas rybudd. Mae arnai fy hun eiſiau cael fy nyſgu, Ond er na wn i fawr; Rwi yn rhwymedig i roi i ti gyngor, a thithau yn rhwym i wrando ar fy llais.

Cigfran. Na feia ormod arnafi, Pa war-rant oedd gennit ti, os gwiw gofyn, i dorri pen y Brenin, ac i symmud Parliamentau wrth dy bleser dy hun, fel na wŷr fawr yr awron i bwy yr ymostwng i dalu teyrnged. Ac mi welaf fôd teyrnas heb reolwyr (fel corph heb ben) a phawb yn gwneuthur a fynno ef ei hunan.

*Eryr.* Geirwon yw geiriau'r Gigfran. Ond gwrando er hynny ar reſwm. Mae yſpryd rheolaeth fyth yn parhau, a'r ſawl na phlycco iddo, a ddryllir. Mae Noah yn rhoi rheolaeth i'r ſawl a
fynno. Yn goſtwng y naill, ac yn codi'r llall o'r Dan. 4.
dommen i reoli. Nid oedd *Gideon*, a *Saul*, a *Dafydd* ond gwŷr gwael ar y cyntaf yn y bŷd. Ac o'r tu arall, mae efe yn chwythu ymmaith bennaethiaid y
bŷd fel llŵch y llawr dyrnu i'r dommen. Canys Dan. 2. 35.

nid yw efe yn derbyn wynebau dynion. Nid yw'r
Eſay 40. holl ddayar ond ſtôl draed iddo. Mae efe yn rhychwantu y ffurfafen, ac yn dal y môr mawr ar gledr ei law, ac yn pwyſo y mynyddoedd mewn clorian-
Dan. 5. 27. nau; ac os bydd un gŵr mawr yn rhy yſcafn, mae efe yn i roddi heibio; ond mae efe yn edrych ar yr iſel, ac yn cynnal y galon dorredig.

Cigfran. Mi welaf y teyrnaſoedd yn berwi fel ped faent grochanau ar y tân. Ond beth a ddaw dybygi di O Eryr ar ôl hyn?

*Eryr.* Ni wn i fy hun, mi gaf wybod gan y golomen. Ond rwi'n tybied y ceir etto fŷd gwell nag a gaed erioed, canys yn y nêf a'r ddayar newydd fe erys cyfiawnder.

Cigfran. Ond oni weli dy hunan fôd y bŷd yn myned waethwaeth, a chariad perffaith yn treio?

*Eryr.* Na ſonnia di am gariad perffaith (O Gigfran amherffaith). Beia arnat dy hun yn gyntaf,
Rhuf. 2. 21. ac yna mae gobaith o honot. Oni weli di fôd yr haul yn cledu'r clai? a pha dwymna y tywynno ar y dommen brynta fydd: Mae'r da yn mynd well-well ymhôb oes erioed, a'r drwg yn mynnu mynd waethwaeth.

Cigfran. Mi welaf dy fôd ti fyth yn ffafrio'r colomennod: Oni wyddoſti i bôd nhwy yn ymluſgo i deiau, ac yn gwneuthur drygioni gyda'i gilydd?

*Eryr.* A fuoſt ti erioed yn i myſg nhwy i weled beth y mae nhwy yn i wneuthur?

Cigfran. Na fûm. Ac nid wyſi ar fedr bôd mor ffôl a myned yn agos attynt iw cyfarfodau hwynt.

*Eryr.* Oni buoſt; Pa ham yr wyti yn i cyhuddo?

Cigfran. Mi glywais lawer yn dywedyd, nad oes dim daioni iw gael wrth fôd yn ei mysg nhwy.

*Eryr.* Mi wrantaf mai rhyw gigfrain eraill a ddywad y chwedl ymma i ti am danynt hwy.

Cigfran. Beth os ê? Mi gredaf i synwyr un gigfran o flaen cant o golomennod. Ond mae nhwy yn gwadu'r yscrythurau, a phôb daioni.

*Eryr.* Pam y maent hwy (wrth hynny) yn i darllain mor fynych? Ond odid di dy hun ſy'n gwadu'r ſcrythurau. Ac heb edrych arnynt unwaith yn y pedwar amſer, nag heb i darllain o'r tu fewn chwaith, iw dangos mewn gweithred oddiallan.

Cigfran. Ond pobl dwyllodrus ydynt hwy? nhwy a ddywedant yn dêg, ac a weddiant weddiau hirion, na thalant ddim wedi'r cwbl.

*Eryr.* Ni ofynnwn i'r golomen Beth a atteb hi droſti i hun. Beth a ddywedi di wrth hyn?

Colomen. *Gwell yw na ddyweder dim wrth rai direſwm. Ond gwîr yw, yr ydym ni yn ymgyfarfod yn fynych, yn dywedyd yn dêg, yn ceiſio gwneuthur y daioni i bawb, ag nyni a ewyllyſiem bei gallem wneuthur yn well. Ac os gellir profi yn bôd ni o'n bodd yn* Act. 25. 11.
*niweidio nêb, Cymmer di* (O Eryr) *ddial arnom. Ond ni ddyle'r gigfran gael ei hewyllys. Nid oes chwaith goel ar i gair nai llŵ hi, mwy nag ar fytheiriad ci. Hi fedr dyngu cant o lŵon, am y gallo hi lyngcu eraill. Ac am y gweddiau hirion, y rhai'n ſy'n*

*pwyso ar ei chylla hi: Mae'n rhaid i ni barhau nes y caffom gan Noah wrando. Je di weli dy hunan ein*
1 Joan 3. 22. *bôd ni yn cael agos bôb peth ar yr ydym ni yn i ofyn, yr ydym ni yn curo wrth ystlysau yr Arch, ac yntau yn agor i ni.*

*Eryr*. Henwa un peth a gafodd y colomennod?

Colomen. *Ni a weddiasom ar i ni y colomennod gael y llaw uchaf yn y rhyfel, ac am lawer peth arall, ac fe ai rhoddwyd i ni.*

Cigfran. **Ai colomennod oeddychwi yn amser y rhyfel? tebyccach i gythreuliaid o lawer.**

Colomen. *Gwîr yw fôd rhai adar afreolus wedi taro ar ein plaid, ar rheini a wnaethant gammau drwy blundrio'r gwledydd.*

Cigfran. **Crawcc. Mi glywn ar fynghalon lâdd y golomen wenhieithus ymma.**

*Eryr*. Digon. Mi welaf y mynnit ti ddechrau rhyfel arall o newydd bes gellit. Digon yw hynny o ymladd, Di gefaist dy guro yn fynych.

Cigfran. **Gâd iddo. Mi gaf ddiwrnod etto.**

*Eryr*. Etto fyth? Di soniaist lawer gwaith am gael y llaw vchaf. Bydd gall o'r diwedd; A
Dih. 1. chofia mai esmwythdra'r ynfyd ai llâdd. Canys ni chlyw esmwyth fôd yn esmwyth.

Cigfran. **Esmwyth meddi di? mi fynnwn bei gwyddit ti mor anesmwyth ydwi etto.**

*Eryr*. Os byddi esmwyth ynot dy hunan di gei bôb peth yn dda. Gochel fôd fel *Cain* filain, neu fel *Balaam* ddichellgar, neu fel *Achitophel* gyfrwys, neu fel *Absolon* aflonydd, neu fel Suddas fradwr, neu ryw anifail drwg; neu yn afreolus fel y môr. Oni

phrynaiſt ti ſynwyr etto? Gochel neidio o'r badell ffrio i'r tân: Mi ddywedais o'r blaen i ti, Mai y rhwyd a weûodd dy falais dy hun ſydd yn dy ſaglu.

Cigfran. Ond Pam yr ydychwi yn ſyngalw i yn Gigfrân?

*Eryr.* Tra foch di *Cigfran*, Rhaid yw dy alw di felly?

Colomen. *Os paid y gigfran ai chreulondeb. Fe ai hoffir hi fel aderyn arall: Nid oes ynoſi na chwerwedd buſtl na malais yn ei herbyn. Ond mae yn ddrwg gennif droſti.*

*Eryr.* Fe allai y gellir i newid hi er hyn i gyd.

Cigfran. Mae Noah wedi ſyngwrthod i, ac nid gwaeth i mi beth a wnelwyf os gwrthodedig ydwyf.

*Eryr.* Nid efe a'th wrthododd di. Ond dydi ai gwrthodaiſt ef, ac a aethoſt ymmaith. Cariad ac Ezek. 33. 11.
ewyllys da yw efe, ac nid oes dywyllwch ynddo. Hawdd ganddo faddeu i'r gwaethaf; Anhawdd ganddo ddigio, a gwych ganddo hîr-ymaros.

Cigfran. Ond mae llawer yn dywedyd i ſôd ef wedi gwrthod llawer, a dewis rhai cyn i geni.

*Eryr.* Mae hyn tû hwnt i'm dyſg i: fe alle y gŵyr y golomen y dirgelwch hwn. Beth a ddywedi di?

Colomen. *Anhawdd dywedyd, ac anhawdd deall pa fodd y mae'r dyfnder hwn yn* Noah. *Ond mi ddarllennaf i chwi yr* A. B. C. *cyntaf fel hyn. Mae ynhragwyddoldeb dri yn vn, ſef ewyllys, cariad, a nerth, a'r naill yn ymgyrhaeddyd erioed a'r llall, ac*

Dih. *yn ymborthi, ac yn ymgenhedlu yn i gilydd byth. Oni*
*bai fôd pleſer cariad tragwyddol i borthi'r ewyllys*
*anfeidrol ni byddai nêb yn gadwedig. Ac oni bai fôd*
*cynhyrfiad yr ewyllys cyntaf yn dân lloſcadwy, ni byddai*
*nêb yn golledig. Ac oni bai fôd y tri, fel hyn yn cyd-*
*weithio, ni buaſai na dŷn, nag angel, nag anifail, na*
*dim arall wedi i wneuthur. Mae rhai wedi ymeſcor*
*erioed yn y cariad drwy yſcogiad yr ewyllys, yr hwn*
*ſydd yn i gwaſcaru fel gwreichion allan o hono ei hun,*
*ac yn i tymheru yn nŵfr y difyrrwch (yr hwn yw'r*
*Arch) nid yw gwreiddyn y tri ond cariad ynddo ei*
1 Joan 4. 8. *hun, heb gaſhau nêb. Ond yn yr ewyllys gweithgar*
*hwnnw mae'r yſgogiad yn tewŷchu y peth ſydd ynddo,*
*ac yn gadel heibio (fel pren ei ddail, neu ddŷn ei*
*boeryn) y peth nad yw vn ag yſbryd y galon. Wele,*
*nid yw'r cigfrain yn adnabod tarawiad y tant ymma*
*yn y delyn nefol. Ond deall di* (O Eryr) *ac fe a*
*ddeall y colomennod hyn fwyfwy. Canys fel dymma*
*wreiddyn y matter, a ffynnon pôb peth. Dymma fôn der-*
*wen yr holl fŷd gweledig hwn: Dymma y cynhyrfiad*
*tragwyddol ſydd yn achoſi pôb ſymmudiad ymyſg yr*
*holl greaduriaid. Ond nid yw'r adar ar ganghennau'r*
*pren yn meddwl pa fodd y mae'r gwreiddyn yn cynnal*
*ei naturiaeth, a nhwythau ynddi. Yr ewyllys cyntaf*
*yw gwreiddyn pôb vn (fel y mae'r wreichionen yn dyfod*
*o'r garreg) ac mae efe ei hun yn ymgyrchu yn waſtad*
Mat. 3. 17. *i fonwes y mâb, ac yn ymlonyddu yno yn y cariad;*
*Ond mae llawer o'r gwreichion heb fynnu ymoeri*
*felly, Ond yn ehedeg gyda Luciffer yn erbyn y goleuni*
*a'r tawelwch tragwyddol, ac yn aros yn yr yſcogiad*
*tanllyd, heb gael eſmwythdra byth, eiſiau dyfod iw*
*geiſio allan o'i naturiaeth ei hunain. Mae gallu yn*
*yr ewyllys i yſgog, ond nid oes mor ewyllys gyda gallu i*
*ddychwelyd (fel y dywad y gigfran o'r blaen ran o'r*
*gwîr). Am hynny mae llawer yn i gwrthod ei hunain,*
*ac yn achwyn ar* Noah. *Ac er bôd ei fonwes ef yn i*

*chwennych, mae ei monwes danllyd hwynt yn i dal yn ei teyrnas ei hunain.* *Ond* (O Eryr) *os cofi di ofyn ymhellach am hyn, pan fôm ni wrthym ein hunain yn y diſtawrwydd, mi ddangoſaf yn helaethach wreiddyn pôb dirgelwch. Ond yr awron dôs ymlaen i chwedleua ar gigfran.*

*Eryr.* Beth a ddywedi (o hên gigfran) wrth hyn i gyd ?

Cigfran. Dwfn yr awron yw rheſwm y golomen. Ac mae'ch geiriau chwi weithiau agos a'm gorchfygu i. Ond (myn rhyw-beth) ni byddafi un o honochi byth. Er hynny, Rwi'n tybied be clywai y cigfrain eraill gymmaint ac a glywais i, nhwy ddoent i fôd o'r un grefydd a chwithau.

*Eryr.* Galw di arnynt i wrando arnom ni.

Cigfran. Na wnaf (dybygwn i:) Galwed y ſawl a fynno arnynt: Galw dy hunan os mynni.

*Eryr.* Wrth hynny nid wyti yn chwennych daioni i ti dy hun, nag i nêb arall ?

Colomen. *Gad iddi* (O Eryr) *y rhai a achubir a elwir. Ac dymma newydd da i rai o'r cigfrain, ſef bôd gan* Noah *gelſyddyd ryfedd i droi cigfrain yn golomennod. Ac yn ddiammau fe ai gwna. Ac yno* Act. 9. 1, 2, 6,
*ni elwir mwy monynt yn gigfrain ymyſg adar. Mae* 11.
*efe yn gwneuthur y gwaethaf yn orau, ac yn gadel y* Mat. 19. 30.
*blaenaf i fôd yn olaf.*

*Eryr.* Ond gâd i mi chwedleua ychydig a'r gigfran. Pa newydd ſydd genniti o'r tû hwnt i'r môr ?

Cigfran. Mae'r colomennod ymma yn hedeg

ym mhôb teyrnas, ac arwydd drwg yw hynny na ſaif y brenhinoedd. Mae llawer o honynt hwy yn Holand, a rhai yn Frainc, ac ymbell un yn Hiſpaen, ac nid yw dda gennif i gweled nhwy ymhôb mann yn hedeg iw ffeneſtri. Mae nhwy hefyd mor gyflym, nad oes vn gwalch yn abl iw dal nhwy.

*Eryr*. Ond beth y mae'r cigfrain eraill yn i ddywedyd yn y gwledydd rheini ?

Cigfran. Mae'r hên rai yn gweled fôd trô mawr ar fŷd yn agos, a'r cigfrain ifaingc yn dwndrio ac yn cymmeryd ei pleſer. Mi fûm yn Rhufain y dydd arall, ac yno mi welwn y Pâb yn crynnu yn ei gadair, mae hi yn llawn brŷd i mi i edrych yn fynghylch.

*Eryr*. A ydyw efe ymmyſg y crynwyr ? Pam y mae efe yn crynnu ?

Cigfran. Mae rhyw brophwydoliaethau yn i ddychrynnu ef. Ond mae efe yn danfon ar hŷd ac ar lêd i geiſio cadw ei blâs i fynu, ac er hynny ſyrthio y mae: mae ganddo yn ei nŷth y cigfrain cyfrwyſaf yn y bŷd, ac mae rhaio'r tywyſogion (fel pilerau) yn ceiſio i gynnal, ond mae y rhan fwyaf yn bwdr yn y gwreiddyn, ai grefydd yn drom ar ei hyſcwyddau hwynt.

*Eryr*. A oes genniti ddim newydd am y Twrk, ac am yr Iddewon ?

Cigfran. Oes ; mae'r Twrk yntau yn rhythu llygaid, ac mae nhwy yn ofni, mai'r Twrk ſydd yr awron a fydd yr olaf. Mewn

gwledydd eraill mae afonydd a llynniau yn troi yn waed, ac mae rhyfeddodau ofnadwy yn yr wybren, fel pe dai diwedd pôb peth yn agos. Beth a ddaw o honom ni pan loscer y bŷd? Ond am yr Iddewon, mae nhwy yn edrych am seren forau, ac ar fedr codi etto bwchlaw'r holl frynniau, ac eistedd yngha-dair y bŷd. Ac rwi'n tybied fy hun y cânt hwy godiad rhyfedd.

*Eryr.* Pam yr wyti yn meddwl felly ?

Cigfran. Am y caiff yr isaf fôd yn uchaf, canys mae'r bŷd yn troi fel olwyn certwyn.

*Eryr.* A oes dim newydd o'r werddon ac o Scotland ?

Cigfran. Nag oes ond bôd cŵn mawr yn ei mysg, a'r colomennod ar yr aden ymhôb mann etto. Ond mi ddywedais ormod o newydd i ti yn barod, a gwrach a fuasai i mi dewi.

*Eryr.* Mae gennif ddiolch am dy newydd. Dôs rhagot. Gwŷch yw clywed beth a ddywetto pôb aderyn.

Cigfran. Nid oes ond hynny. Ond bôd pilerau'r bŷd yn siglo, a'r tân, a'r Rhyfelthwy ymhôb gwlâd o amgylch (oni bai hynny mi a gawswn help rhyw rai yn lloegr cyn hyn). Ond os dywedaf wrthyt gyfrinach, fe a glyw'r golomen.

*Eryr.* Mi wrantaf y gŵyr hi fwy na hyn : ond a oes obaith o fŷd da yn dy dŷb di ?

Cigfran. Mi ddywedais o'r blaen fy meddwl,

nad oes ymhôb man ond y trechaf treiſied, a'r gwannaf gwichied. Nid fyngwaith i yw ymreſymmu fel hyn, ond dangos i ti mor felldigedig yw'r genhedlaeth ymma o golomennod ſydd yn codi ei pigau, ac rwi'n tybied y dylit ti a nhwythau gwympo allan ai gilydd, a Dyna fy holl neges i. Mi ddywedwn air wrth y golomen (oni bai fôd yn ſcorn gennif) y dylai hithau edrych am ei bywyd, a ſefyll ymhell oddiwrthir, ac nid wrth dy glûn di yn y modd yna. Eryr wyti, ac nid oes i'r adar mor ymgellwair a'th ewinedd llymion di.

*Eryr.* Mi wn i lawer o'm henafiaid lâdd llawer o golomennod; ond nid wyfi ar fedr neidio cyn edrych, na phigo ni wn i pwy, nag am ba beth.

Cigfran. Ped fawn i yma gyda'th di lawer mîs, mi fedrwn ddangos newydd bôb awr. Ond mae arnai chwant burgunnod, ac fe alle fôd rhyw rai yn lloſgi fy nŷth i. Gâd i mi fyned bellach.

*Eryr.* Nage, nid ei di oddi yna nes dywedyd mwy o'th feddwl.

Cigfran. Beth a fynni di gyd a'm fi ond hynny?

*Eryr.* Oni buoſt di y dydd arall yn Llundain yn cluſtfeinio beth a glywit ti ?

Cigfran. Do ; Mae yn Llundain bôb mâth o adar, fel mewn coed tew (pôb aderyn a'i lais). Mae yno lawer o golomennod cyflym, ac hefyd o gigfrain duon, heb ddim newid

lliw arnynt. Yr oeddynt yn ſôn y lloſgid Llundain; ond er maint y ſôn, mae hi etto yn ſefyll, fel y mae pethau eraill: llawer darogan a dwyllodd ddynion, ac er hynny nid ydym ni yn i alw yn ffals brophwyd. Canys nid ffals nêb a'n bodlono ni.

*Eryr.* Beth a ddyſcaiſt di yn Llundain?

Cigfran. Yr oeddwn i wrth fôd allan yn yr hêol yn clywed y dwndrwŷr yn ſiarad, ond ni ddyſcais i fawr, am nad oedd reſwm yn ei chwedlau: yr oeddynt hwy yn rhuo bwchben ei pottiau, fel ſŵn tonnau'r môr, neu ddaiar-gŵn yn cyfarth: yr oedd trŵſt gwragedd yn ymgennio yn ei myſg, a rhyferthwy fawr o eiriau, fel llîf mewn afon, yr oedd gan bôb un ddwy glûſt, ac un tafod, a hwnnw ei hun yn dywedyd mwy nag a glywſe y ddwy glûſt, a mwy nag a welſe y ddau lygad. A phan welais i hwynt yn ſeler dywyll ei hynfydrwydd, mi aethym heibio iddynt yn llawen ei gweled felly. Ac ni wyddent hwy mwy nag anifeiliaid. A phed fai y dynion hyn yn cerdded ar ei pedwar-aelod, a'r blew yn tyfu drwyddynt, ac heb fedru dywedyd dim mwy nag aſſyn Balaam, fe dybygai ddynion rheſymol mai anifeiliaid direſwm ydynt, y rhai a wnaed iw dal, ac iw difetha.

*Eryr.* Mi wn fy hun, fôd llawer o lwynogod cyfrwys, ac o gathod gwylltion, ac o anifeiliaid peryglus rhyd y gwledydd, ac yn Llundain hefyd.

Ond rwi'n gofyn i ti Beth yr oedd gwŷr doethion Llundain yn ei ddywedyd ?

Cigfran. Yr oeddent hwy yn dywedyd yn iſel. Ac er bôd gennif glûſt fel aderyn arall ni wyddwn i beth a ddywedent. Er i mi ddeſcyn ar grîb, neu ar fargod y tŷ, ni chawn i glywed fawr.

*Eryr.* Ond beth yw'r ychydig a glywaiſti ?

Cigfran. Dwfn a dirgel yw cynghorion ſtâd. Nid yw'r gwerin gwirion ymyſg yr adar yn deall monynt.

*Eryr.* Ond a wyti dy hun yn ei deall ?

Cigfran. Nag ydwyf yn iawn. Nid oes chwaith nêb yn nheyrnas loegr, nag yn ninas Lundain yn ei ddeall ei hunan. Y peth a wnelont heddyw mae rhyw ysbryd yn ei ddad-wneuthur y foru. Ni wela i ddim yn dyfod i ben yn ôl meddyliau dynion, ond mae rhyw droell arall yn troi bwchlaw Synwyr pawb. Mae'r ûs yn ymgaſglu, a chorwynt diſymmwth yn i chwalu ; Mae'r prŷf copyn yn hîr yn gwêu ei rwyd, a rhyw blantos yn yſcubo'r cwbl i lawr, a hynny mewn munud awr. Mae'r bobl (ar a wela i) mewn odyn galch, neu fel plant yn gwneuthur tai bâch ym mîn afon, a'r llifeiriant yn ddiſymmwth yn codi, ac yn yſcubo'r cwbl. Mae rhyw nerth ym myſg dynion yr awron nad oedd o'r blaen. Mae rhyw ysbryd rhyfedd yn gweithio, er nad yw'r bobl yn gweled. Rwi'n dywedyd hyn

wrthyt ti yn erbyn fy ewyllys, ac yn ol fyngbydwybod.

*Eryr.* Pa fôdd y gelli di wneuthur felly?

Cigfran. Mae llawer yn dywedyd yn erbyn ei cydwybod, ac yn ôl ei hewyllys, a rhai yn llefaru yn erbyn ei hewyllys, ac yn ôl eu cyd-wybod; felly yr wyf finnau yr awron, er nad wyf yn arfer hynny.

*Eryr.* Pa ymryson sydd rhwng y gydwybod a'r ewyllys?

Cigfran. Mae'r gydwybod yn llefaru, Di a ddylit wneuthur fel hyn, a'r ewyllys yn dy-wedyd mi fynnaf wneuthur hyn accw. Ond yr ydym ni yn rhy fynych yn dilyn ein he-wyllys, ac yn gadel ein cydwybod.

*Eryr.* Ond beth (meddi di) yw'r Gydwybod.

Cigfran. Tŷst oddifewn, Goleuni'r adar, Canwyll dynion, llais yn ein holrhain, Gwalch Noah, Scrifennydd buan, Cyng-horwr dirgel, Cyfaill tragywyddol, Gwledd wastadol i rai, a phrŷf anfarwol mewn eraill. Ond nid da gennif chwedleua gormod am y gydwybod ymma.

*Eryr.* Pam hynny?

Cigfran. Am nad gwiw i mi geisio i dilyn. Ped fawn i yn dilyn fyngbydwybod, mi geisiwn fôd fel y golomen, ond ni allai aros hynny.

*Eryr.* Wele. Di ddywedaist ddigon, a gormod yn dy erbyn dy hunan. Mi welaf fôd y brain yn

myned yn erbyn ei cydwybodau ei hunain, cyſtal ac yn erbyn y colomennod.

Cigfran. **A wyti ar fedr fy rhannu i ynof fy hun, a gofod fyngydwybod yn erbyn fy ewyllys?**

*Eryr.* Rwyti felly yn barod (meddi di:) ond dywaid i mi pa'r vn ai dy gydwybod, ai dy ewyllys a beru hwyaf?

Cigfran. **O'ch fynghydwybod: Canys nid wyfi'n barod yn cael mo'm hewyllys. Ac mae arnai ofn y cai lai o hono, pan goder i'm barnu.**

*Eryr.* Fynghynghor i, fydde i ti edrych am y peth a barhatho yn hwyaf, a gochel y peth a dderfydd. Canys er melyſed fo ni thal ef ddim, oni pheru fo ond munud awr.

Cigfran. **Bei gallwn i hynny, mae fy ewyllys yn i erbyn.**

*Eryr.* Blîn yw dy gyflwr, a blîn wyt tithau yn dy gyflwr; ni allafi, ond fe all vn dy helpu. Er hynny, dywaid y gwîr, nid yw hynny ddim ar fai.

Cigfran. **Bei dywedwn i yr holl wîr, Gwîr yw y dywedwn i lawer yn fy erbyn fy hunan.**

*Eryr.* Gwyn ei fŷd ai gwnelo, ac a blycco i ddaioni. Di wyddoſt mai gwell yw'r wialen a blycco, na'r hon a dorro o eiſiau îrder a rhywiogrwydd. Mae cyfraith naturiaeth yn dyſcu dynion i fyned ar ôl ei goleuni ei hunain. Rheſwm a chydwybod yw dau lygad dyn naturiol, a'r dyn a dynno ei lygaid ei hun allan o'i enaid fe ddyle'r barnwr i goſpi, nid am nad yw fo yn mynd ar ôl

opiniwn crefyddol y llywodraethwr, ond am i fôd ef yn mynd yn erbyn ei reſwm ei hun. Ac os gwnei di yn erbyn dy oleuni, rwyti yn dy gosbi dy hun oddifewn, ac yn peri i'r ſwyddogion oddiallan dy gosbi hefyd.

Cigfran. **Ni allai wrtho. Gwnewch a fynnoch, chwi yw'r Arglwyddi dros amſer gosodedig. Ond os daw fyth ar fy llaw i, mi ai talaf i'r colomennod.**

*Eryr.* Drwg yw hynny. Gâd i vn ddial, ac na fydd fel y mae llawer dyn; fel tarw gwyllt mewn rhwyd, neu gî cynddeiriog mewn cadwyn. Maddeu di i bawb, Canys mae Noah yn barod i faddeu i ti os doi di yn ôl. Ond nid gwiw (medd rhai) ganu i'r byddar, na rhoi cynghorion i'r cyndyn. Rhaid yw cael gwialen i gefn y ffyliaid. Ond mi Dih. 26. 3.
dybygwn y dylit ti ŵybod pwy a'th wnaeth.

Cigfran. **Nid wyfi yn ymofyn fawr am hynny, ond mi wn i mi ddyfod allan o'r arch. Ac ymma yr wyfi yr awron, pa le bynnag y bwyf ar ôl hyn. Pwy a wŷr hynny.**

*Eryr.* Di dy hunan a ddylit fynnu gwybod; canys hîr yw byth, Gwerthfawr yw dy fywyd; fe wnaed yr Arch i'th gadw di yn fyw. Na chymmer mo'th wenwyno gan y cigfrain eraill, na'th dwyllo gan y ſarph gnawdol.

Cigfran. **Fy nhwyllo meddi di. Os oes nêb o honom yn twyllo ei gilydd, Myfi ſydd yn i twyllo nhwy, Canys myfi yw vn o'r rhai hynaf yn y bŷd. Ond gâd i mi fyned o'r diwedd. Pa hŷd y pery y burdwn ymma?**

*Eryr.* Aros ychydig. Gorau canwyll pwyll. Gorau ſynwyr athrawiaeth. Gorau cyfrwyſtra

i ddyn i wadu ei hun. Gorau meddyg meddyg enaid. Gorau defod daioni, ac hefyd, Mae yn boſſibl i'r gwaethaf ddyſcu bôd yn orau (fel y dywedodd y golomen o'r blaen). Onid wyti yn cofio y diharebion gynt. Ardd cyd bych, Ardd cyn ni bych. Deu-parth y gwaith yw dechrau: Ond na âd i'r nôs waethaf fôd yn ddiwaethaf. ni thawdd dlêd er ei haros. na chais elw o eſceuluſtra. Na chais fynd i'r nêf wrth fôd yn chwerw. Na chais fwrw coel ar dy gelwydd. Na chais ddim lle nis dylech. Gwae oferwr y cynhayaf. Oni heuir ni fedir, oni fedir ni fwytteir. Ceiſied Pawb ddŵfr iw long. Ac yr awron (ô hên gigfran) onid wyti yn cofio y diharebion hyn.

Cigfran. Aros dippyn. Mi welaf mai diharebwr wyti: Mi dygaswn ddarfod i chwi a'r colomennod anghofio diharebion y doethion, a'r henafiaid. Ond mi glywaf rai ar flaen eich tafodau, Mi henwaf finnau hênrai eraill. Lledled rydau waethwaeth ddeddfau. Na choll dy hên ffordd er y newydd. Y nesaf i'r eglwys pellaf oddiwrth y baradwys. Llawer têg drwg ei ddefnydd. Angel pen ffordd, diawl pen tân. Addaw mawr a rhodd fechan. Pen punt, a llosgwrn dimme. Da yw'r maen gyda'r efengil. Drych i bawb ei gymydog. Pôb cyffelyb a ymgais. Digrif gan bôb aderyn ei lais. Hawdd cynneu tân yn lle tanllwyth. Ac ni chêl drygtir ei egin. A drwg un, drwg arall. Drwg pawb oi wybod. Mal y dyn y bydd ei lwdn. Natur yr hŵch yn y porchell. Rhydynn a dyrr. Rhy uchel a Syrth. Gwnaed

aelwyd ddiffydd yn ddiffaith. O chaiff yr afr fynd i'r eglwys, hi â i'r allor. Dymma rai o'r diharebion dyſcedig ſydd yn rhedeg yn fy meddwl innau.

*Eryr.* Ni fedri di dy hunan ddeongli dy ddihareb-ion. Nid yw dy galon di yn deall mor peth y mae dy dafod di yn i ddywedyd. Mi fedrwn atteb i bôb dihareb ar a henwaiſt, ond mi a'th attebaf mewn hên ddiharebion eraill. Mae gwe-hilion i'r gwenith. Nid gwradwydd gwellhau. Ymryſſon a'r ffôl, di a fyddi ffolach. Gwell tewi na drwg ddywedyd. Gwell pren na dyn cyhudd-gar. Gwell cî da na dŷn drwg. Hwyr (er hynny) y gellir dyn o'r dyniawed dû. Ond dewis ai'r iau ai'r fwyall. Dyſg hyd angau, ac angau i'r ſawl ni ddyſgo. Ni wyr ni ddyſg. Ni ddyſg ni wrendu. Ni wrendu ond y doeth tawedog. Camwrando a wna cam ddywedyd. A hîr y cnoir tammed chwerw. Er heddwch nag er rhyfel, gwenynen farw ni chaſgl fêl. A'r mûd a ddywaid y gwîr. A llawer o ddoethineb a fu gynt ymmyſg y Bruttaniaid.

Cigfran. Doeth y dywedaiſt. Ond beth yw'r Bruttaniaid mwy nag eraill?

*Eryr.* Os drwg, gwaethaf. Os da, ffyddlon. Dyma'r ynys a dderbyniodd yr efengil gyntaf yn amſer lles fâb Coel. Ymma (medd rhai) y gan-wyd Helen, a'i mab Conſtantin. Cymru medd eraill a ganfu America gyntaf. Bryttaniaid a Saſaſant hyd angau dros y ffydd gywir. Y nhwy y mae *Eſay* yn i galw aſcell y ddayar Eſay 24. 16. (medd yr hên Iſraeliaid) ac o ynys Brydain yr â (medd llawer) allan, dân a chyfraith, a lluoedd drwy'r hollfyd.

Cigfran. **Och ffolineb yr** Eryr **yn hyn. Roedditi o'r blaen yn canlyn yn wŷch dy ddihârebion, Ond nid oes vn o'r pregethwyr newyddion yn canlyn ei Text. Mae nhwy fel gwiwerod yn neidio o'r naill gaingc i'r llall, Heb ŵr doeth yn ei mysg.**

*Eryr*. Am hyn. Cofia di mai mynych y pregethodd Jachawdwr y bŷd ar y ddayar, weithiau ym mhen mynydd, weithiau mewn llong, weithiau mewn tŷ, ac weithiau mewn Synagog. Ond nid ydym ni yn darllain iddo gymmeryd erioed vn text o'r bibl, ond vnwaith allan o *Esay*. A thrwy na bo y rhain yn pregethu ond y gwîr, nid oes fatter am ddilyn llythyren vn text. Text pregethwr yw gwirionedd. Testyn gŵr Duw yw'r holl sibl. Ac mae llyfr ymhôb dyn, er na fedr fawr i ddarllain. Ond na phregethed, ac na ddyweded nêb ond y peth y mae efe yn barod iw selio â'i waed.

Cigfran. **Gâd iddo. Ni sonniai ond hynny am iddynt ganlyn ei Text. Ond mae nhwy'n dyscu yn erbyn y gwirionedd. Ac mae vn peth a ddyle beri i'th glustiau di fer-wino. Mae nhwy yn dywedyd yn hŷf fod y Drindod yn aros, ac yn cartrefu yn sylweddol ymhôb dyn da. Ac onid yw hyn vn o'r heresiau dinistriol, ni wn i beth sydd.**

*Eryr*. Beth a ddywaid y Golomen. A wyti yn tybied fôd hyn felly.

Colomen. *Dymma vn o'r pethau dysnaf. Dymma gwlwm caled, a drŵs wedi i gloi ai farrio oddi wrth*

*oesoedd. Ond fel dymma'r gwir, Mae vn yſcrythur* Eph. 4. 6.
*lân yn dywedyd fôd y Tâd ynom ; a'r llall fôd y mâb,* 2 Cor. 13. 5.
*a'r drydydd fôd yr yſbryd glân ymhôb calon bûr, oleu,* Rhuf. 8. 9.
*iſel, nefol. Ac mae'r holl yſcrythurau ynghŷd yn dangos (a minnau a feiddiaf ddywedyd) fôd y Drindod dragwyddol ynom ni, ac yn ein gwneuthur ni yn dragwyddol, ie hefyd oni bai fôd Duw drwy yſbrydoedd eraill ni allent barhau byth. Ond er i fôd ef drwyddynt ni chaiff ef ganddynt mor aros ynddynt. Ond mae Trindod ddrygionus arall yn rheoli y bŷd.*

*Eryr.* Pa beth yw Trindod y bŷd ymma ?

Colomen. *Chwant y cnawd, Chwant y llygad, a balchder y bywyd. Neu ewyllys creulon, a difyrrwch* 1 Joan 2. 16.
*brwnt, a gallu drygionus.*

*Eryr.* Beth a ddywaid y frân wrth hyn ?

Cigfran. Gâd hyn heibio. Nid wyfi yn clywed yn iawn beth y mae hi yn i ddywedyd. Ond hyn a wn i, nad ydynt hwy i gyd ond y bobl gyfyngaf ei deall yn y bŷd. Rhyw vn gaingc ſydd yn eu pennau, ond nid oes moi calonnau hwy yn helaeth.

*Eryr.* Beth er hynny ? Os ydynt hwy yn
deall yr vn peth anghenrheidiol tragwyddol, nid Luk. 10. 42.
oes ormod matter er i bôd nhwy megis ffyliaid ynghylch y matterion a loſcir ar fyrder gyda'r bŷd. Ond Dyſced pôb aderyn y gaingc ſydd iw chanu fyth yn y bŷd arall, pan fo'r bŷd, a'r cyfrwyſtra, a ſŵn pôb hwſmonaeth wedi paſſio byth.

Cigfran. Mi welaf, dy fôd ti yn dioddef iddynt ddywedyd fôd y drindod ynddynt.

*Eryr.* Atteb di O Golomen. Pa fodd y mae hyn ? Ai trwy ysbrydoliaeth neu ſylwedd ?

Colomen. *O* Eryr *Deall, mai ſylwedd yw pôb*
2 Cor. 4. 18. *yſbryd, ac nad yw'r bŷd a welir ond cyſcod o'r bŷd nis gwelir, yr hwn ſydd drwy'r bŷd ymma : ac nid yw'r corph ond cyſgod, ac megis march lliain yr ysbryd, neu wain i'r enaid a bery byth. Ond mae'r Drindod yn*
Col. 1. 27. *aros ynom yr un fath ag y mae'r mŵn aur yn y ddayar,*
Hebr. 3. 6. *neu ŵr yn ei dŷ, neu blentyn yn y grôth, neu dân mewn*
Gal. 4. 19. *ffwrn, neu'r môr mewn ffynnon, neu fel y mae'r enaid yn y llygad y mae'r Drindod yn y Duwiol. Am hynny mae'r hên ddihareb yn cynghori, na chais ymweled a'r drindod onis ceiſi yn yr vndod. A gwirionedd yw mai ymha le bynnag, (ymmhwy bynnag,) y bo goleuni, a chariad, a heddwch, a phurdeb ac vndeb, a nerth nefol, yno y mae'r tri yn vn yn aros.*

*Eryr.* Ni ddown at y pethau hyn etto. Chwedleuwn ychydig â'r gigfran, mi ai gwelaf hi yn aneſmwyth, ac yn barod i ehedeg. Gwrando di, frân, ni fynnem bei allem dy ynnill di i ddychwelyd gyda ni i'r Arch.

Cigfran. **Beth ſydd gennych i'm hynnill?**

*Eryr.* Mi wn fi mai gwell gan Noah faddeu i vn a edifarhao na difa cant. Cofia Rahab o Jericho, a Saul o Tharſus, a'r lleidr ar y groes, a'r mâb afradlon.

Cigfran. **Gobeithio'r gorau oni bai obaith fe a dorre'r galon. Gobaith ni chywilyddia.**

1 Joa. 3. 3. Colomen. *Y Sawl ſydd ar iawn obaith ynddo,*
Job 11. 20. *mae efe yn i buro ei hun : a'r gobaith ffals arall ſydd, fel anadl dŷn yn marw, yn diangc ymmaith.*

Cigfran. **O Eryr. Dymma 'r golomen yn ceiſio rhwyſtro i mi obeithio, ac os derfydd am fy ffydd am gobaith, fe ddarfu am danaf finnau byth.**

*Eryr.* Nid felly. Ond dangos y mae hi fôd gobaith rhai fel llaw wywedig, na all helpu pan fo rheittia, neu fel angor llong heb gael gafael yn y gwaelod.

Colomen. *I ynnill y frân yn ôl, mi allwn roi fy mywyd drosti. Ac rwi'n tystiolaethu fôd gogoniant yn* Luc. 2. 14.
*yr vchelder, ac ewyllys da i ddynion. Fe fu yr Jachawdwr ar y ddaiar yn ynnill Publicanod mewn cariad, ac yn dioddef gloes angau dros ei elynion. A glywodd nêb erioed sôn am y fâth gariad? ddarfod i vn dynnu ei galon o'i fonwes, a'i llâdd hi, a'i rhoi hi iw wrthwynebwŷr iw bwytta, iw cadw nhwy yn fyw? Dymma fel y gwnaeth y Goruchaf i achub y dynion bryntaf rhag y gwae tragwyddol. Mawr yw, os gall dyn dynnu ei lygad ai roi i gadw yn llaw ei gyfaill. Ond ô beth a ddywedwn i am hŷd, a llêd, ac vwchder, a dyfnder cariad y nefoedd? Mae llawer yn gorchfygu cariad ei cymydogion drwy ei drygioni ei hunain. Ond mae hwn o'i ewyllys da yn talu holl ddlêd ei elyn a'i fywyd ei hun, ac yn i dynnu o'r carchar, ac yn i wisgo yn nillad ei fâb ei hunan. Mae efe yn rhedeg ar ôl y rhai sy'n diangc oddiwrtho, ac yn cusanu y rhai sydd yn poeri yn ei wyneb, ac yn cynnal yn gynnes y rhai sydd yn ceisio neidio o'i fonwes, ac yn cyd-ddwyn a'r rhai na erys wrtho. Fe ddaeth o'r nefoedd vchaf* Eph. 4. 9.
*i'r bêdd isaf, i godi y pechadur drewllyd o'r dommen ddaiarol i'r faingc nefol. Fe gymmerodd afael ar naturiaeth dyn, ac a adawodd angelion i fyned gyda'r dwfr. Ond mae vn peth yn rhwystro yr aderyn dû ymma i ddyfod adref er a ddyweder wrthi.*

*Eryr.* Beth a all hwnnw fôd?

Colomen. *Y peth gorau ar a fedd hi, Synwyr y bŷd, a doethineb y cnawd, a rheswm naturiol yr hwn* Rhuf. 8. 7.
*(fel sarph dorchog) sy'n chwythu allan wenwyn yn wyneb y gwirionedd, Dysg lygredig sydd raid i dad-*

Act. 13. 10. *ddysgu, a'i dattod oll cyn cael cwlwm y gwîr ddis-cyblion. lleidr o'r tu fewn yw synwyr dyn, yn cloi drŵs pôb meddwl yn erbyn awel yr ysbryd glân. Dymma'r Achitophel a'r Juddas sy'n bradychu dyn i ddwylaw*
Ier. 17. 9. *diafol. Mae gan bôb dyn ddigon o gyfrwystra iw dwyllo ei hunan. Dymma fwa Luciffer a Gelyn Noah, Mam rhyfeloedd, Mammaeth oferedd, Plentyn vffern, Diana'r bŷd, Castell y pechod, Mŵg y pwll, Dadleuwr dros ddrygioni, a ffynnon pôb aflwydd ar anifail mawr. Canys doethineb y byd, Rheswm dyn, cyfrwystra'r henddyn, yw'r cilwg dirgel, blodeuyn y cnawd, Cares anghrediniaeth, a gwaed pwdr. Dymma deyrnwialen Beelzebub, Dymma ffals ddrych y ddaiar, Dymma eulyn Babel, a brenhines y nefoedd, a chwedl meddwl cnawdol, neu ddwys feddylfryd y galon, Gwad-wr gwirionedd, Pensaer Anghrist, Afon dyn, llyw natur, a chertwyn yn dwyn dyn ar y goriwared.*
Dat. 17. 5. *Dymma fambuttain pôb crefydd fastardaidd. Am hon yr wyfi yn sôn cymaint, am iddi wneuthur cym-maint o ddrŵg yn y bŷd dan rîth synwyr a deall-dwriaeth. Ac nid malis ond y cyfrwystra diffaeth ymma sy'n llâdd y gigfran. Hwn yw'r gwynt sy'n troi melin yr ewyllys oddifewn.*

*Eryr.* Beth yr wyti yn i ddywedyd yn erbyn doethineb. Mae arnai ofn dy fôd di yn amhwyllo.

Colomen. *Geiriau sobrwydd yr wyfi yn i traethu. Nid magl i'r cyffylog yw synwyr y cnawd, ond i'r aderyn doethaf dayarol. Y dynion naturiol gorau a gollir. Am hynny Gocheled pawb ei synwyr ei hun. Ni fedr anifail hoyw ehedeg, ag nid ysbrydol yw'r naturiol, er gwyched fo yngolwg dynion. Mae llawer*
1 Cor. 9. 27. *o bregethwŷr yn anghymmeradwy ac yn golledig. Ei hathro yw synwyr y cnawd. Maent yn scrifennu eu pregethau, ond oni bai gyflog dynion, ni wnaent bwyth o waith, ac er hynny fel gweinidogion yr efengil y*

*mynnent ei hanrhydeddu. Ac heb law y dyſcawdwyr deillion nid oes mewn tref na gwlâd ddyn llwyd llwm anllythrennog nad oes ſarph yn ei fonwes, a ſynwyr y cnawd yn ei galon.*

*Eryr.* Nid rhyfedd wrth hyn fôd llawer yn golledig os yw pôb dyn fel nythed o nadroedd yn llawn o feddyliau cnawdol. Ond beth a ddywaid y frân wrth hyn ?

Cigfran. Dymma daro at y gwreiddyn. Os drŵg gynghorwr, drŵg ganlynwr. Os tywyll goleuni rheſwm mae'r holl gorph yn dywyll, a phôb gair ar a ddywedais i erioed yn ofer. Ond (om rhan i) rwi'n tybied fôd rheſwm ymhôb peth, ac mai rheſwm naturiol yw'r goleuni gorau. Dymma wreiddyn y pren a blannwyd yn ddwfn. Diwreiddied y golomen ef os gall.

Colomen. *Mi wn mai dymma Salomon y bŷd, ond mae ysbryd gwirion y golomen yn fwy na Salomon yn ei holl ogoniant ai ddoethineb. Ond i ddangos i ti ddoethineb ddayarol y frân. Ei ſynwyr hi yw hyn. Dalied pawb ei eiddo, cippied pawb a allo. Safed pôb dŷn ar ei waelod ei hun. Na ddyweded mor gwîr mewn cariad, ond mewn creulondeb. Na ddringed vwchlaw rheſwm dŷn. Canlyned y bŷd ai arfer. Maged ei naturiaeth ai gnawd ai waed, a gwaried ei amſer mewn trythyllwch. Bwyttaed ac yfed a bydded lawen. Bodloned bawb er i fwyn ei hun. Bydded ganddo ddau wyneb yn barod, ai galon yn ddauddyblyg. Bydded gall droſto ei hunan. Onid e marw a wna. Ond dymma ffolineb y bŷd. Dymma ynfydrwydd pen agored, canys nid call y dyn ai ceiſio ei hun. Y Sawl ſydd a dau wyneb gantho, mae vn o'r ddau yn gythreulig : y nèb a wenhieithio ddynion*

*ſydd bwdr yn ei galon. Hawdd yw bwytta, yfed, a chwarae gormod, a dawnſio yn y cnawd ar ôl pibell yr ysbryd drŵg. Ysbryd y gwaed yw cwmmwl y meddwl. Arfer y bŷd yw'r porth llydan i ddeſtryw. A'r Sawl na ddringo vwch ei law ei hun, ni eiſtedd fyth yn y nefoedd. Mae'r dyn difyr chwerthinog allan o'i gôf ei hun, ac o'r tu fewn i gôf y ſarph. Amſer dyn yw ei gynnyſcaeth, a gwae ai gwario yn ofer. Rhaid yw dofi ysbryd y cnawd, a magu bywyd ysbryd yr vchaf. Boddi a wna'r dyn na nofia yn erbyn ffrŵd y wlâd. Y rheſwm vchaf yw'r afreſwm iſaf. Ni ſaif nêb ond vn arno ei hun. Nid eiddo nêb ei hunan. Cadwed pawb ei galon at Dduw. Adrodded pôb vn ei gydwybod yn ddoeth. Cladded dŷn ei reſwm ei hun. Ond dymma iaith nad oes nemmor yn ei deall. Nag ofned nêb arall cymmaint ac ef ei hun. Oni fedri roi taw ar eraill, diſtawa dy hun. Pan fo mwyaf ſŵn yn y bŷd bydded lleiaf yn dy galon. Nag ofna ddiafol, na châr y pechod, ac na chynnwys dy hun. Na ddalied ysbryd y creadur di, ond nofia i ysbryd y creawdr. Cyfrif y da o'th flaen yn berl, a'th waith o'th ôl yn dom. Melys i'r cnawd yw ſiwgwr diafol, ond bwytta di y manna dirgel. Mochyn yw Luciffer yn ymdreiglo ynghnawd dyn. Crochan hwn yw calon fudr yn berwi ar dân vffern. Gwŷniau'r cnawd ŷnt feirch o ryfel; deſcyn oddi arnynt, ac nag oeda. Perthen o ddrain yw rheſymmau dŷn, ai gwado ei hun a ddiangc o honi. Portha dy chwant, ac fe a'th lâdd. Llei mae dynion mae angelion, llei mae angelion y bydd dynion. Y Sawl ſy'n byw ynddo ei hun ſy'n byw allan o fonwes y tâd. Oni elli achub eraill, diangc dy hun oddiwrthit di hun. Gwell yw adnabod y galon yn y bŷd ymma, nai bôd hi yn adnabod digofaint byth. Pa fodd y gelli fôd yn llonydd oni byddi ar y graig? Nid gwaeth beth a ddywedo ffyliaid, nid ei gair nhwy y ſaif.*

*Eryr.* O Golomen. Dymma ddiharebion newydd-

ion. Yr oedditi gynne yn fôn am ynnill y frân, ond fe alle fôd hyn yn i gwylltio hi ymhellach.

Colomen. *Ni ellir wrth hynny. Oni ynnill y gwîr hi, nid oes dim ai hynnill. Llawer ſy'n croeni briw pwdr, ond fe a dyr allan gwedi. Mae llyngêr ymmonweſau dynion, onis lleddir, hwy a laddant.*

*Eryr.* Helpa'r frân, fel y gallo hi ŵybod hyn ynddi ei hun.

Colomen. *Nid wyfi yn gwthio ar arall y peth yr wyfi yn ei ganfod. Oni bŷdd tŷſt oddi fewn nid yw rheſymau genau ond rhaffau gwêllt. Er hynny mae rhyw dorriad anrhaethadwy yn fynghalon i wrth feddwl am golledigaeth dyn, ac wrth edrych arno yn ddall, yn fûd, yn fyddar, yn dlawd, yn noeth, yn glwyfus, yn* Dat. 3. 17.
*glôff, yn glâf, ie yn farw. och och a dyfna och yw tewi.*

*Eryr.* Onid oes help i'r frân er hyn i gyd?

Colomen. *O na wele hi y goleuni mewn cariad! Ond mae ef etto yn guddiedig oddiwrthi. Er hynny* Luk. 19. 42.
*mae golwg i'r dall, a iechyd i'r difeddyginiaethol.* Jer. 30. 15, 17.
*Mae'r porth cyfyng etto heb i gau, ac mae yn boſſibl myned i mewn. Dymma'r amſer. Dymma'r dydd. Mae fe yn paſſio fel breuddwyd nôs, neu ſaeth o'r llinyn, a phan dorrer llinyn y bywyd ni ellir moi glymmu eilwaith byth.*

*Eryr.* Ond beth os pechodd hi y pechod na faddeuir mono yn y bŷd ymma, nag yn y bŷd a ddaw?

Colomen. *Nid oes nêb yn pechu felly, ond y rhai maleiſus ſydd yn rhyfela yn erbyn ei goleuni ei hun, ac* Iob 24. 13.
*yn ffieiddio daioni mewn eraill, ac yn gwybod mai daioni yw, ac hefyd yn parhau fel hyn yn gynddeiriog* Heb. 10. 27, 29.
*hyd ddiwedd ei heinioes. Am hynny Rwi'n rhybuddio pawb, ac yn gweiddi ar bawb. Na thybygwch fôd drŵs y drugaredd wedi ei gau yn eich erbyn tra fo*

*anadl ynoch, ac ewyllys i ddychwelyd. Ond yr ydych etto yn dilyn y cnawd, yn canu carolau i gyffroi eich chwantau, yn darllain llyfrau bydron anllad, ac yn gwenwyno y gwreiddyn pûr, yn dilyn tafarnau, a thablerau, a llwon, a melldith, a gwawd, a gwatwar, yn caru chwarwyddfa diafol (fel eidionnau uffern) yn dibrisio'r tlawd, yn byw yn hoyw, yn nhommen masweidd-dra, yn gwatwar sobrwydd, ac yn y tân dû anweledig, yngwely'r buttain, mewn gwleddau a glothineb, mewn meddwdod, a chwerthin, mewn cydorwedd a chywilydd, mewn cenfigen ac anfodlonrwydd, mewn rhyfig a chyfrwystra, mewn gwae a gwaelod erchyll. Deffro. Cyfod. Mae etto i ti groeso, Mae gwledd nefol yn aros am danat. Mae bara ddigon yn nhŷ dy dâd. Pa ham y byddwch feirw (o blant dynion?) Pa ham y collwch chwi eich eneidiau yn yr o'ch tragywyddol?*

*Eryr.* Yr ydym ni yn gwrando ar hyn i gyd, ac nid yw hyn ond sŵn geiriau ynghlustiau llawer.

Colomen. *Sŵn yw hwn a berŷ byth, fel twrwf taranau tragwyddol mewn llawer cydwybod sydd yr awron yn gwrando ar y pethau hyn yn ddifyr, ai calonnau yn esmwyth, ac yn chwerthinog. fe gyfyd hyn yn eich erbyn ddydd a ddaw. Chwi wrandawyr diofal. Rhaid oedd i mi i ddywedyd er i hyn fôd yn dŷst yn eich erbyn. A phwy bynnag wyti sydd a'r pethau hyn gennit yn dy law, neu yn dy glûst, Rwi yn rhoi Siars arnati erbyn y dydd mawr sydd yn agos, ar i ti ddangos, a danfon y pethau hyn ar hŷd, ac ar lêd ymysg y cymru a'th holl gymydogion, ac na chuddia, na chela (dan dy berigl) mo hyn oddiwrth eraill.*

Cigfran. **Ha. Nid yw hyn i gyd ond bygythion a breuddwyd y golomen. Ni a fyddwn**

**llawen tra côm. Ac ymmaith a'r meddyliau ymma i ffwrdd allan o'r meddwl.**

Colomen. *Nhwy a ddeuant i mewn eilwaith, er i ti wneuthur dy waethaf iw cadw allan. Nid ydis nes er anghofio'r gwir. Oni wrandewi di, fe a wrendu eraill, ac a edifarhant, ac fe ai cedwir hwynt, ac a'th losgir di.*

*Eryr.* Gwrando (o Gigfran) Rhaid i mi o'r diwedd dy holi di yn ddwysach. Pam na ddoi yn ôl at dy Arglwydd?

Cigfran. **Mi welaf dy fôd ti yn fy erbyn i yn hollawl, ond cymmer Noah, a'i Arch rhyngoti a'r golomen. Minneu a wn p'le cai fy swpper. Mi glywaf lawyr burgunnod ar y ddaiar.**

*Eryr.* Fe dderfydd y rheini o'r diwedd, ac yno fe dderfydd am danat tithau.

Cigfran. **Nid oes fatter. Mi ai cymmeraf tra i caffwyf. Ffarwel i** Noah, **ac iw Arch, ac i tithau, ac i'th golomen. Ni ddoi attoch mwyach. Crawcc, Crawcc. Ymaith, ymaith. Ymhell ddigon.**

*Eryr.* Wele, mae'r gigfran wedi hedeg a myned ymaith oddiwrthym ni yn ddigon pell. Ni gawn lonydd i ymddiddan wrthym ein hunain am y pethau a ddechreuaist. Mi welaf na ellir dywedyd pôb peth ymhôb cwmnhi, am nad yw'r pethau dyfnion ond damhegion i'r *bŷd* byddar. Rwi'n Mat. 13. 35.
gobeithio gan fôd y frân wedi ein gadel yr agori di i mi ddirgelwch dy deyrnas di.

Colomen. *Ni feiddiaf fi ddywedyd fyngeirau fy* Joan 5. 30.
*hunan, ond oddiwrth vn, i ddangos y dwfn, ac ni*

*fedri di moi ddeall er i ddywedyd. Nid oes na dy-wedyd na gwrando yn iawn onis gwneir yn ysbryd y*
Joan 16. 14. *Goruchaf. Arno fo rwi'n edrych, ynddo fo rwi'n credu, y dengys ef i ddiſcleirdeb. Am hynny dôs rhagot.*

*Eryr.* Pam mai deilien olewydd a ddygi di yn dy bîg, ac nid deilien oddiar bren arall?

Zach. 4. 12. Colomen. *Yr olew nefol a'r ennaint tragwyddol*
1 Joan 2. 20, 27. *yw fynglybwr i: Rwi'n gadel dail mawr-dderw* Baſhan *ar fy ôl. Canys nid y dail mwyaf oddiar rai*
1 Cor. 1. 26. *vchaf y mae* Noah *yn i hoffi.*

*Eryr.* Pam yr wyti yn dyfod brydnhawn yn yr hwyr, ac nid yn y borau a'th newydd gennit?

Colomen. *Am mai tua diwedd y bŷd y pregethir yr*
Dat. 14. 6. *efengil dragwyddol, yr hon a guddiwyd rhag oeſoedd a*
1 Tim. 6. 15. *rhag Patrieirch a phrophwydi yn y dechreuad.*

*Eryr.* Roedd y gigfran (di glywaiſt) yn cyhuddo y golomen ddiwaethaf na ddaeth hi fyth at *Noah:*

Colomen. *Gwîr yw. Yr eglwys ddiwaethaf yw*
Dat. 3. Laodicea. *A gwir hefyd yw (fel y dywedaiſt di) nad rhaid wrth bregethwŷr wedi darfod dwfr diluw digo-faint. A'r dyddiau diwaethaf yw'r dyddiau gorau*
2 Tim. 3. 1. *i rai, a gwaethaf i eraill. Canys ynddynt y bydd rhai gwell, a rhai gwaeth nag a fu o'i blaen hwynt erioed.*

*Eryr.* A wyddoſti pa fodd y bydd dydd y farn?

Colomen. *Nid diwrnod fydd o bedair awr ar hugain mwy na'r diluw. Ond fe ddaw i loſci y bŷd*
2 Pet. 3. 6, 7. *crîn ymma fel y darfu golchi y bŷd brwnt o'r blaen.*

*Eryr.* A loſgir y nêf ar ddayar yn lludw ar y cyntaf yn nechreuad dydd y farn?

Colomen. *Na wneir mwy nag y troes y diluw y bŷd yn ddim, Canys rhaid yw bôd adferiad (cyn bôd*

*dinistriad) pôb beth. A rhaid i'r greadwriaeth gael Sabbaoth o orphwysdra cystal a dŷn, a hyn y mae'r holl brophwydi er dechreuad y bŷd yn sôn am* Act. 3. 21.
*dano, a hyn y mae pôb creadur yn ochneidio ar i ôl.* Rhuf. 8. 19, 22

*Eryr.* Pa arwyddion a fydd cyn dechrau dydd y farn?

Colomen. *Fe ddigwydd rhagarwyddion y dwfr diluw. Fe fydd y bŷd yn llawn bryntni cnawdol, a* Mat. 24. 37, 38,
*ffolineb naturiol, a chammau anesgorol. Pawb yn* 39.
*erthwch dan ei faich, a llawer yn dilyn trindod y bŷd tywyll ymma.*

*Eryr.* Oni loscir ar y cyntaf yr holl anifeiliaid.

Colomen. *Na wneir mwy nag yn y diluw y boddwyd. Ac ychydig ddynion a achubir. Ie ni achubir nêb i gyd am fod cnawd iw losgi gan bawb, Pan* 1 Cor. 3.
*oleuo'r dydd y ceir gweled hyn yn eglurach, a deall yn well pa fath ddiwrnod fydd dydd y farn olaf. Gwell yw selio y genau na dywedyd geiriau ofer iw llosci, neu iw llyngcu; os disgwili am y diwrnod yn iawn, di gei i weled yn ei wawr.*

*Eryr.* Ond pa fodd yr achubir y gweddillion o'r dynion?

Colomen. *Wrth i codi i'r awyr vwchlaw'r tân (fel* Noah *i'r Arch vwchlaw'r dwfr) sef wrth i* 1 Thes. 4. 14,
*hadgyfodi a'i hescyn oddiwrth yr ysbrydoedd meirw i* 17.
*gyfarfod a'r Arglwydd.*

*Eryr.* A ymladd dynion ar ôl gweled y tân cyntaf?

Colomen. *Ymladd a Duw (mewn meddwl) a wna'r colledig byth, Buan yr anghofiwyd y diluw, ac yr aethont i adeiladu Babel, ac i foelystotta ar ôl* Gen. 11.
*Nimrod. Ac er bôd angelion Duw yn nhŷ Lott, fe fynnai gwŷr* Sodom *(bes gallasent) i mochi. Da yw* Gen. 19.

*côf Duw yr hwn ſy'n yn canfod, ac yn cynnwys pôb peth ar vnwaith hyd y diwedd, a thu hwnt i'r diwedd.*
Pſal. 106. 13. *Ond drwg yw côf dyn yr hwn mewn munud awr*
Dat. 20. 7, 8. *ſydd wedi gwerthu mawr waith Duw, allan o'i law ai goffadwriaeth ei hunan.*

*Eryr.* Ond, a wyddost ti Pa brŷd y dechrau dydd y farn?

Colomen. *Nid yw* Noah *yn rhoi cennad i weled*
Dat. 6 & 16. *yr awr a'r dydd dan y chweched sêl. Ond o ddechreuad y bŷd hyd y diluw yr oedd mil a chwechant ac vn mlynedd, ar bymtheg a deugain: felly mi a'th gynghoraf* (O Eryr) *i ddiſgwil canys mae fo yn agos. Mae Sion yn eſcor hefyd yn ei mynydd, a'r droell fawr ddiwaethaf wedi dechrau troi, yn barod yn y bŷd.*

*Eryr.* Beth a ddaw ar ôl y tân cyntaf?

Colomen. *Fel ar ôl y dwfr diluw yn gyntaf fe*
Gen. 9. *wnaed cyfammod arall a'r holl greaduriaid, yn ail fe*
Heb. 2. *roed cyfraith newydd i warafun tywallt gwaed, yn*
Eſai 11. 9. *drydydd fe wiſcwyd dyn a mawrhydri, ag arglwyddiaeth i ddechrau bŷd newydd. Mi ddangoſwn i ti* (O Eryr) *lawer mwy yn hyn, ond dymma ddigon i'r call dros yr awron.*

*Eryr.* Ond. Pam yr wyti yn dywedyd mai cyffelybiaeth o Dduw oedd Noah.

Colomen. *Vn yw ef yn ymgenhedlu yn dri. Efe*
Gen. 6. *yn vnig oedd berffaith, a'r holl fyd yn ymdrolio mewn celwydd, ac oi gariad at ei blant yn bennaf, ac at bawb, fe baratôdd Arch i gadw cynnifer ac a ddoent*
Joan 3. 16. *iddi, a'r rhai a appwyntiwyd a ddaethant i mewn,*
Act. 13. 48. *ac a gadwyd.*

*Eryr.* Ond er hynny Gŵr pechadurus oedd *Noah.* Pa fôdd y gallei efe fôd yn arwydd o'r hwn sydd ddibechod?

Colomen. *Fel yr oedd* Salomon *yn arwydd o'r mâb. Nid yn ei bechod yr oedd efe yn arwydd, ond yn ei berffeiddrwydd.* Pſal. 45.

*Eryr.* Tri yn vn (meddi di) oedd ef. Ond a oes dim drwg yn dyfod oddiwrth y rheolwr cyntaf fel oddiwrth *Noah* ?

Colomen. *Nag oes. Nid oes* (*fel y dywedais i o'r blaen*) *ond cariad a goleuni ynddo. Er bôd digter ac* 1 Joan 1. 5.
*arglwyddiaeth gydag ef pa le bynnag y mae. Ac y* Eſay 27. 4.
*mae ef ymmhôb man yn llenwi'r nefoedd a'r ddayar.* Job 25. 1, 2.
*Gochel feddwl fôd dim drwg ynddo, er i fôd efe yn hîr* Rhuf. 11. 36.
*yn cyd-ddwyn ar drygioni ſydd yn y bŷd. O* Eryr *deall hyn. Canys Dymma wreiddyn ymranniad holl ganghennau gwybodaeth a naturiaeth. Canys y naturiaeth dragwyddol yw ffynnon y naturiaeth amſerol. Di wyddoſt nad yw'r gair da ynddo i hunan yn ddrwg, a ddêl allan o enau vn a meddwl da, ond er cynted y dyweder ef, mae'r glûſt ddrwg yn ei ŵyro. Felly mae yſbryd y bŷd wedi cippio a chammu enaid dyn, er iddo ddyfod yn bûr ac yn berffaith allan o'r vn daionus.*

*Eryr.* Oni anwyd pôb peth allan o hono ef cyſtal a dyn ?

Colomen. *Na ddo. Ond y Gair* (*yr hwn oedd yn* Gen. 1. 9,20,24.
*y dechreuad*) *a barodd i'r ddaiar eſcor ar anifeiliaid, ac i'r môr ddwyn allan byſcod, ac i naturiaeth ddwyn allan bôb peth ar a oedd ynddi, ar ôl ei ryw ei hun. Ond pan aeth ef i wneuthur dyn, ni pharodd ef i ddim ar a greaſid mor eſcor. Ond, efe i hunan a*
*ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein llûn an delw ein* Gen. 1. 26.
*hun. Am hynny mae enaid dyn wedi dyfod o'r anfarwoldeb, ac yn myned i'r tragywyddoldeb.*

*Eryr.* Ond pa fodd y daeth yr Adar, a'r pyſcod,

a'r anifeiliaid, a'r dynion i ymladd, ac i ymrafaelio ai gilydd, na fedr nêb gytuno yn yr vn bŷd ?

Colomen. *Fy Arglwydd* Eryr. *Nid oedd a'r y cyntaf ond vn natur yn Adda, ond hi a ymrannodd*
Gen. 11. 1. *yn bedair caingc : nid oedd chwaith vnwaith ond vn iaith, ond hi a dyfodd yn y ddayar yn dafodau lawer. Nid oedd ond vn grefydd gynt, ond hi a rwyſtrwyd, ac a aeth yn opiniwnau lawer i amryw Dduwiau, Ac am fôd Duwiau lawer mae rhyfel ymmhyrth yr holl*
Eſay 11. *greaduriaid, Ac ni allant gytuno ai gilydd nes iddynt gymmodi yn gyntaf a'r hwn ai gwnaeth, a dychwelyd at* Noah *i'r Arch gyntaf.*

*Eryr.* Ond pa beth yw'r Arch (meddi di) yn y dirgelwch ?

Colomen. *Immanuel. Yr Achubwr. Yn yr arch ymma yr oedd tair cell (ſef Swm pôb naturiaeth ;) fel y mae ysbryd, ac enaid a chorph. Ymma yr oedd llettŷ i bôb creadur o bôb rhyw, canys y cyntafanedig o bôb creadur yw, Oni bai iddo ymadeiladu*
Col. 1. *ynghnawd dyn, a dioddef diluw digofaint, ni buaſe vn cnawd cadwedig, na dyn nag anifail yn cael ei anadl dros awr. Allan o Arch y wirionedd ymma y mae'r holl adar drwg yn ehedeg, fel y cwympodd yr angelion gynt i'r môr mawr, (ſef ysbryd naturiaeth) i ymborthi ar y burgunnod meirw y rhai yw eneidieu pechaduriaid truain.*

*Eryr.* Pa beth yw'r drws a egorwyd yn yſtlys yr Arch ?

Colomen. *Y briw ynghalon yr Oen ar y groes, o'r*
Joan 19. 34. *hwn y daeth allan ddwfr a gwaed, i lonni ac i lanhau dyn, ac mae'r briw hwnnw etto yn agored i'r dynion bryntaf.*

*Eryr.* Ond yn yr Arch yr oedd caſglfa o ymborth i gadw yn fyw bôb anifail.

Colomen. *Felly y mae yn* Immanuel, *nid yn vnig ymborth i bechaduriaid, ac i Seinctiau, ond hefyd i'r angelion nefol, ie mae ynddo ef fwyd i fywyd yr holl greaduriaid, Oni bai hynny, ni byddai vn byw. Canys ynddo ef medd* Paul *y mae pôb peth yn cydymgynnal fel yr oedd pôb byw yn yr Arch.* Coloss. 1. 17.

*Eryr.* Pa fodd y mae bôd yn gadwedig drwyddo ef?

Colomen. *Wrth adgyfodi gydag ef, vwchlaw tonnau chwantau a rhesymmau y cnawd.*

*Eryr.* Ond mae llawer yn dywedyd mai trwy fedydd y mae i ddyn fôd yn gadwedig. Ac mae llawer o sôn yr awron am y bedydd.

Colomen. *Mae bedydd adfyd (hwnnw yw erlidigaeth) mae hefyd fedydd dyfrllyd, hwnnw yw bedydd y bedyddiwr gynt, (yr hwn a bassiodd fel y seren forau). Gyd a hynny mae bedydd tanllŷd ysbryd y gwrthiau, Ond bedydd Christ yw'r vn bedydd mawr, a hwnnw* Eph. 4. 5.
*yw'r dwfr nefol yn yr ailenedigaeth. Heb hwn gwae ddyn. Arwydd o hwn oedd yr Arch yn y dwfr* 1 Pet. 3. 21.
*diluw. Ac fel yr oedd rhan o honi vwchlaw'r dwfr a rhan îs i law, felly fe ddioddefodd y Messiah yn y* 1 Pet. 3. 18.
*cnawd, ac fe a gyfiawnhawyd yn yr ysbryd, a'i hiliogaeth ynddo. Ac fel y codwyd yr Arch vwchlaw brynniau, a'r anifeiliaid a'r dynion colledig, felly y mae'r Seinctiau ar y ddayar yn eistedd ym mharadwys yn y nefolion. Fel yr oedd yr Ephesiaid ysbrydol.* Ephes. 2. 6.

*Eryr.* Ond dywaid i mi pa fodd y gostegodd Gwynt y dwfr diluw, Canys mae gwynt fynychaf yn codi tonnau.

Colomen. *Gwaith oedd hwn yn erbyn rheswm llawer: Ac am hynny, na roed nêb le i'r meddyliau dûon, Canys pan ddelo ysbryd y nêf i mewn, efe a ostega (drwy o twng) y dwfr diluw sydd yn dy galon di, ac*

*yno di gei weled pennau y brynniau, a'r meddyliau tra-*
*gwyddol cariadus yn ymddangos o'r tu fewn. Gwîr*
Gen. 8. 1. *yw i'r gwynt lonyddu'r dwfr, ac i'r clai a'r poeryn roi*
Joan 9. 6. *golwg i'r dall, ac i* Iſaac *farw genhedlu miloedd, ac i'r*
Heb. 11. 12. *Oen o'r bêdd ffrwythloni drwy'r bŷd. Mae'r Gor-*
Joan 12. 24. *uchaf yn galw y goleuni allan o'r tywyllwch, yn troi*
Amos 5. 8. *cyſcod angau yn foreuddydd, yn peri i ganol nôs fôd*
*fel canol dydd, yn diwreiddio dyn allan o hono ei hun*
*iw blannu byth, yn gwneuthur y gwenwyn cryfaf yn*
*ymborth diogelaf, yn dwyn vwchder o'r dyfnder, a*
*dyfnder i'r vwchder, yn cadw y colledig, ac yn colli y*
*rhîth gadwedig. Mae efe yn gweithio tu hwnt i*
*feddyliau dynion, ac vwchlaw doethineb angelion,*
Eſay 30. 28. *Gogr yw cwrs natur yn ei law ef, a gwych ganddo*
*wneuthur gwrthiau.*

*Eryr.* O Golomen dirion. Mi welaf fôd *Noah*
wedi caniadhau i ti wybod mwy na myfi, er bôd fy
llygaid i wrth Naturiaeth, yn cyrhaedd hefyd, Ac
1 Cor. 3. 18. am hynny y ſawl a fynno fôd yn ſicr o'i iechyd-
wriaeth bydded fel baban bâch, allan o hono ei
hun, yn barod i ddyſcu y llythrennau cyntaf.
Canys y rhai y mae Duw yn i dyſgu, ac yn i dan-
fon; mae nhwy yn ehedeg dros bôb peth, ac yn
deall naturiaethau. Ac am hynny yr wyfi yn
gofyn i ti. A ydiw'r dwfr dros yr holl fŷd?
Oni welaiſti na choed, na chawr, na chaſtell, na
chraig ai pennau vwchlaw'r dwfr?

Colomen. *Na ddo vn, ymhedair rhan y bŷd.*
*Canys rhaid yw boddi pôb cnawd, ac nid oes dim a*
*all achub dyn ond yr Arch a wnaeth Noah, ſef yr*
Act. 4. 12. *Ieſu a'r Immanuel Duw gyda ni yn ein cnawd.*

*Eryr.* Beth yw hynny? a ydyw efe yn ein
cnawd ni.

Colomen. *Ydiw os ydym ni yn ei yſbryd ef.*

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

*Oblegid mae'r ewyllys yn y gair, a'r gair yn y nerth, a'r nerth, a'r gair a'r ewyllys nefol (fel y dywedais o'r blaen) yn aros ynghalon pôb dyn a'r a gedwir.* Rhuf. 10. 8.

*Eryr.* Ond nid oes fawr yn meddwl am hyn.

Colomen. *Ped faent yn gwybod pwy ſy'n aros ynddynt ni chae chwant a phechod mor dyfod i mewn* 1 Cor. 6. 19. *i blâs y galon, llei mae'r boneddigion nefol yn ſwpperu.*

*Eryr.* Ond pwy ſy'n aros yn y rhai drŵg?

Colomen. *Ysbryd anufudd-dod (Diafol a Luciffer) yn cadw llŷs agored i'r holl chwantau drŵg, a neuâdd* Eph. 2. 2. *gauad yn erbyn daioni ymhôb meddwl tywyll. Ac fel y mae pôb calon fudr yn grochan i'r cythrel ar dân* Jac. 3. 6. *vffern felly mae efe yn ofalus i gadw tânwydd dano.*

*Eryr.* Oni ŵyr y pechadur pwy ſydd yn aros ynddo?

Colomen. *Na ŵyr mwy nag y mae'r muriau* Pſal. 14. 1, 3. *meirwon yn adnabod y trigianydd. Canys ni fyn dyn weled y carnlladron o bechodau ſydd yn llechu ynddo,* Pſal. 82. 5. *fel y gweli di'r genegoegion, a'r pryfed mewn pwll drewllyd.*

*Eryr.* Gâd hyn heibio yr awron. O ba le y daeth yr holl ddwfr i foddi yr holl fŷd?

Colomen. *Allan o dryſorau y goruchaf. Efe a rwygodd y dyfnder mawr ynghalon y greadwriaeth* Gen. 7. 11. *oddi tanodd, ac a egorodd ffeneſtri element y dwfr oddiarnodd; a rhwng y ddau ddwfr yn vn fe orch-fygwyd pôb cnawd er dewred oedd. Ac ar ddydd y farn olaf fe ddaw tân ysbrydol, a thân naturiol i farnu ac* 1 Cor. 3. *i brofi'r bŷd oddiwrth y Goruchaf, yr hwn ſydd ganddo* 2 Theſſ. 1. 8. *yn ei dryſordŷ y tân, a'r gwres, a'r gwynt, a'r glaw,* Job 38. 25, 26. *a'r ôd, a'r rhew. Ac ni all vn cnawd aros na'i wres,* Pſal. 147. 17. *na'i oerni ef. Ac fel y gwnaed Corph dyn o bedwar* Eſay 33. 14.

*defnydd (ſef tân, awyr, dwfr, a dayar) felly ni all vn corph cnawdol ſpario yr vn o'r pedwar, na byw ar awyr heb ffrwyth y ddaiar, nag yn y gwrês heb ddwfr, nag yn y dwfr heb y tri eraill: Am hynny fe foddwyd pôb peth a'r yr oedd anadl y bywyd ynddo, ac fe ddygwyd ysbryd pôb cnawd nad oedd yn yr Arch dan gaethiwed y dwfr.*

*Eryr.* Pam y deuai y dwfr ymma i foddi dynion druain heb roi rhybudd i fôd yn dyfod ſel y gallent i ochel?

2 Pet. 2. 5. Colomen. *Nhwy gawſant rybydd i gyd gan Noah (pregethwr cyfiawnder:) ond roedd yr holl fŷd yn chwerthin am ei ben ef, er bôd pôb dyrnod morthwyı yn bregeth yn galw a'r y bŷd cyndyn i'r Arch.*

*Eryr.* Pa hŷd y parhaodd ei chwerthiniad hwynt?

Iob 22. 16. Colomen. *Nes gweled o honynt ffynnonau y dyfnder mawr wedi i torri, a ffeneſtri'r nefoedd wedi i hagori a'r Arch wedi i chodi allan o'i cyrhaedd hwynt, Ac yna y dychryn erchyll ai daliodd nhwy, fel gwewyr gwraig yn eſcor, ac am na fynnent moi helpu o'r blaen, ni ellid moi helpu yr awron.*

*Eryr.* Ond pa fôdd y gwariaſent hwy ei hamſer o'r blaen?

Mat. 24. 38. Colomen. *Yn bwytta, ac yn yfed, yn cyſgu, yn caru, ac yn ymbriodi, Nid yn ei gwadu ei hunain ond yn i gwychu ei hunain, ac yn chwerthin am ben Noah ai dylwyth.*

*Eryr.* Oni ellid i helpu er hyn i gyd?

Preg. 3. Colomen. *Na ellid o'r diwedd, am i bôd wedi gadael i'r amſer baſſio; ac mae amſer i bôb peth dan yr haul.*

*Eryr*. Onid oedd ei heneidieu nhwy yn gadwedig?

Colomen. *Nag oeddynt. Nhwy gollasont yr enaid gyda'r corph, y cleddyf gyda'r wain, Canys mae ysbryd y gwirionedd yn dywedyd mai bŷd o annuwiolion oeddynt.* Gen. 6. 11.

*Eryr*. Er hynny. Caled yw'r gair, a garw i ti (Golomen wirion) farnu fôd ei heneidieu hwynt yn golledig?

Colomen. *Mae ysbryd y gwîrionedd yn dywedyd yr hyn a wŷr, a hwnnw a scrifennodd drwy fŷs Pedr:* 2 Pet. 2. 5.

*Eryr*. Ond nid yw Pedr yn dywedyd i mynd nhwy i'r tân tragywyddol, na chadwyd enaid nêb ond yn yr Arch.

Colomen. *Er hynny, nid oes iechydwriaeth yn enw nêb arall ond yn enw yr vn heb yr hwn ni all nêb sefyll.* Act. 4. 12. *Ond nag ymofyn di gymmaint beth a ddaeth a honynt hwy, ond beth a ddaw o honot ti, mae i ti ddigon o waith dy gadw dy hunan.* Ioan 21. 22.

*Eryr*. Ond pa fôdd y ceiff vn ŵybod i fôd yn yr Arch wedi i blannu yn yr achubwr, gan fôd y rhan fwyaf allan o hono?

Colomen. *Os yw'r gwîr ysbryd yn rheoli ynot, fe ddengys i ti dy fôd yn gadwedig. Ac hebddo ef ni all nag addewid nag arwydd, nag ordinhâd, nag angel mo'th siccrhau di.* 1 Ioan 5. 10.

*Eryr*. Ond pa fôdd y ceir adnabod y gwîr ysbryd?

Colomen. *Wrth ei ffrwythau nefol yn y meddyliau, a'r geiriau, a'r gweithredoedd. Nid gwiw dywedyd geiriau yn y peth ymma; ond mae efe ei hunan yn selio gyda'r gydwybod. A'r Sawl sydd yn yr Arch a* Rhuf. 8. 16.

*ŵyr i fôd ynddi, ac mae'n hawdd iddo weled arall allan o honi.*

*Eryr.* Ond wrth ba henw y mae Moesen yn galw yr Arch?

Colomen. *Wrth y gair* Tebah, *ag felly y mae Moesen yn galw y llestr yr achubwyd ei fywyd ef ynddo ar y dwfr pan ddaeth merch Pharaoh yw dynnu allan. I achub Noah yr oedd Arch; i wared*
Exod. 2. *Moesen yr oedd llestr; ac mae gan Dduw lawer o foddion i achub ei waredigion, ond cofia fyth nad Tebah, na groeg, nag Ebrew yw gwreiddyn yr yscrythurau.*

*Eryr.* Ond mae rhai yn dywedyd mai'r Arch yw'r eglwys: Ac mae gwŷr duwiol dyscedig o'r meddwl hwnnw.

Colomen. *Yr vn yw'r pen a'r corph, yr vn yw'r*
1 Cor. 6. 17. *gwreiddyn a'r canghennau, yr vn yw'r gŵr a'r wraig,*
Eph. 5. 31, 32. Mat. 19. 6. *a'r ysbryd a'r enaid, a'r tân yn y tanwydd, yr vn yw*
Heb. 2. 11. *yr hwn a sancteiddir a'r hwn a sancteiddia; ac yr vn yw Christ ai eglwys, yr hon sydd gnawd o'i gnawd, ag ysbryd o'i ysbryd. Y Sawl sydd ynghrist mae efe yn y wîr Eglwys hefyd: fe a dynnwyd Efa allan o Adda, a'r Eglwys o Ghrist, a Christ o gnawd yr Eglwys, a'r Eglwys eilwaith o ysbryd Christ. Mae llawer yn sôn am lawer math ar Eglwys. Canys mae'r holl fyd yn dŷ i Dduw, ac vffern a lenwir hefyd, canys mae efe yn preswylio drwy bôb peth. Nid yw eglwysydd y plwyfolion ond yscuboriau gweigion, llawer eglwys blwyf sydd fel corlan geifr a buarth gwarchae defaid. Mae'r eglwysydd eraill o ddynion fel anifeiliaid brith-*
Gen. 30. *ion, cylchfrithion, mawrfrithion a mânfrithion Jacob, Nid oes fawr etto yn siarad iaith bûr Israel, ond mae*
Nehem. 13. 24. *tafodiaith y ddeubâr bobl yn ein mysg (fel y dywaid Nehemiah). Mae'r wefus vchaf yn Israel, a'r wefus*

*isaf o Ashdod, Mae'r bobl mewn Babel. Mae'r Eglwysydd yn gollwng defni, a'r distiau yn pydru, Mae rhai (yn siccr) fel y canhwyllbrenni aur, eraill o brês, eraill o blwm, ac er hynny canhwyllbrenni ydynt oll. Mae rhai o honynt yn frenhinesau, eraill* Can. 6. 8.
*yn ordderchwragedd, ond nid oes ond ymbell vn yn* Gal. 4. 30.
*aros yn y tŷ gydâ mâb Duw: ac am hynny, nid eglwys ond yr ysbrydol, nid ysbryd ond yr ail Adda, nid teml i Dduw ond meddwl pûr dyn, nid teml barhaus i ddyn ond yr Hollalluog, a'r Oen, nid vndeb ond vndeb yr ysbryd tragywyddol, nid canu, nid cymmun, nid vno, nid gweddio, nid ymaelodi mewn vn Eglwys oni bydd ysbryd y pen yu rheoli mewn nerth. Canys professu maent i bôd yn adnabod Duw ac yn ei gweithredoedd yn gwadu fôd Duw wedi* Tit. 1. 16.
*i caru, ac yn ei gweled, ac iw barnu. Am hynny diangc di allan o honot dy hunan, ac o'r hên balasau plwyfol, ac o'r hên eglwysydd pwdr, rhag iddynt* Dat. 18. 3, 4.
*gwympo arnat, ac i tithau gwympo danynt i'r bedd a'r pwll.*

*Eryr.* Fe barwyd pygu yr Arch, Beth yr oedd y pŷg hwnnw yn ei arwyddoccau i ni.

Colomen. *Fe ai gelwyd Copher (ond nad yw ieithoedd ond fel llais cogfrain, er bôd llawer yn dotio arnynt) y pŷg yw'r heddwch, a'r cytundeb rhwng dyn a'r hwn ai gwnaeth, sef drwy ffydd ynghyfiawnder vn arall. A'r hwn sydd yn iawn gredu, mae efe wedi i* Rhuf. 3.
*glymmu, a'i bygu i ddilyn y wîr eglwys, ac nid i adel i'r bŷd ddyfod i mewn iddo.* Iag. 1. 27

*Eryr.* Di ddywedaist o'r blaen beth oedd y drŵs oedd ar yr Arch, ond beth hefyd yr oedd ffenestr yr Arch yn i arwyddo?

Colomen. *Goleuni'r ysbryd glân. Heb yr hwn y mae dyn fel tŷ yn llawn mŵg, heb vn ffenestr arno i*

*ollwng goleuni i mewn, Ac ym mŵg, naturiaeth mae'r gwybed vffernol yn hedfan: Y golau ymma ſydd fel*
Eſay 54. 12. *ffeneſtr o riſial. Mae'r haul o'r nêf, yn diſcleirio drwyddi. Ond nid yw'r dall yn gweled mor ffeneſtr*
Mat. 11. *na goleuni'r bŷd. Ac ni all nêb ganfod y Duwdod ond drwy'r Tâd, na'r Tâd ond drwy'r mâb, na'r mâb ond drwy'r yſbryd, na'r yſbryd ond drwyddo ei hunan. Mae efe yn agoryd ffeneſtr yn y nêf fel y*
1 Cor. 2. 16. *gallo dyn weled y peth ſydd ym monwes, ac ym meddwl yr oen, Mae efe hefyd yn agoryd vn arall yn y galon*
Luc. 24. 32. *i ddyn i weled ei ſtafell ei hun, ac i hwnnw mae'r yſcrythurau yn agored hefyd.*

*Eryr.* Ond beth yr oedd y tair cell yn i ddangos?

Colomen. *Tair rhan dyn, ſef yſbryd, ac enaid, a chorph. Tair ſtâd yr Eglwys dan y gyfraith, dan yr efengil, ac hefyd dan y nefoedd newydd. Tair cell yn*
1 Joan 5. 8. *gwneuthur vn Arch, trindod yn vndod, fel y mae dwfr, a gwaed, ac yſbryd yn yr vn wŷthen. Ond mae dyn fel anifail nad yw yn i ddeall ei hunan, nag yn medru dychwel at Dduw.*

*Eryr.* Ond pa fôdd y gallai Noah gaſclu yr anifeiliaid a'r adar i'r Arch?

Colomen. *Mae'r anifail yn well na dyn, fe ddaeth yr anifail i'r Arch i gadw ei fywyd; ond dyn a foddodd yn y diluw. Er hynny Duw a heliodd yr anifeiliaid, a'r adar cadwedig i mewn drwy yſcogiad, ac wedi i cynhyrfu, nhwy a ddaethant o'i gwaith ei*
Joan 6. 45. *hun, a'r Sawl a dywyſo ef, a dywyſir, a'r Sawl a ddyſcer gan y Tâd a ddaw at y mâb. Ac mae yſbryd etto drwy'r bŷd yn cynnull y rhai cadwedig i mewn, ac o'r diwedd yn gadel y rhai cyndyn allan.*

*Eryr.* Ond yr oedd yn yr Arch anifeiliaid aflan cyſtal a'r rhai glân. Beth a ddywedir wrth hynny?

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

Colomen. *Pôb cangen (medd y winwydden) na* *ddygo ffrwyth ynofi a dorrir i lawr, a phôb dyn ar y fydd yn cael ei fywyd naturiol ynghrist, a'r na ddycco ffrwth i Dduw drwyddo, a fwrir fel ciw dierth allan o nŷth yr Eryr, hynny yw, allan o gynhesfa bywyd tragywyddol: A hyn a wneir yn y diwedd.* Joan 15. 2.

*Eryr.* Onid oedd yn hîr gennym am ddyfod allan o'r Arch ar ôl treio y dwfr.

Colomen. *Di wyddost i bôb vn ddyfod allan mewn trefn, y naill yn llonydd gyda'r llall, pôb vn gyda'i gymmar, i ddangos mai trefnus yw ymddygiad y rhai cadwedig. Ac fel y claddwyd felly y codwyd nhwy, fef nyni, gyda'r arch, A phan rodder y deyrnas i'r Tâd, ni bydd anhrefnufdra, ond pawb a eiff iw le, ac iw waith tragywyddol yn ôl ei naturiaeth a'i weithredoedd.* 1 Cor. 14.

*Eryr.* Ond wedi'r diluw, fe a ofodwyd Enfys wyrdd-felen yn y ffurfafen. Beth y mae honno yn i ysbyfu i ni?

Colomen. *Mae'r bwa yn y cwmmwl a'i ddaupen i wared, ac nid i fynu, i ddangos nad yw'r Tâd yn ewyllyfio faethu at ddynion mwyach, ond yn gollwng ei fwa i lawr yn ei law. Mae rhan o'r enfys yn wyrddlas i ddangos ddarfod boddi'r bŷd mewn dwfr, a rhan o honi yn gochfelen i ddangos y llofcir y bŷd a thân etto.* Gen. 9. 13.

*Eryr.* Ond pa fôdd wrth hynny y mae dial wedi darfod a'r bwa a i ddaupen tuag i wared?

Colomen. *Ewyllys y Goruchaf yw na phecho dyn yn i erbyn, ac na bo rhaid iddo yntau ddial. Ond tra parhatho pechod mewn dyn edryched ar yr enfys a dianged rhag y tân fydd yn dyfod.* Mat. 3.

*Eryr.* Ond fe fu agos i mi ac anghofio dywedyd

i ti fôd rhai yn ymofyn pa fodd y gwnaeth Noah yr Arch ;

Colomen. *Mae llawer o ſeiri a'r waith, ac ychydig o'r rheini i hunain yn gadwedig : llawer ſydd o filwyr, o lywodraethwyr, ac o bregethwyr fel ſeiri, y rhai yn y diwedd a fyddant anghymmeradwy. Am*
Phil. 2. 12. *hynny Gweithied dyn ei iechydwriaeth ei hun mewn ofn a dychryn. Ac am y peth a ddywedaiſt dy fôd ti a'r anghofio hyn, Mae llawer peth ynghylch yr Arch, nad wyti yn i gofyn na minnau yn i hatteb.*

*Eryr.* O golomen dirion, Dangos mewn ychydig eiriau beth yw dirgelwch yr Arch.

Colomen. *Yn ddiddadl Mawr yw dirgelwch yr Arch. Mawr yw cyfrinach Duwioldeb. Duw a ymddangoſodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr*
1 Tim. 3. 16. *yſbryd, a welwyd gan angelion, a bregethwyd i'r cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y bŷd, a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant, ac a ddaw eilwaith mewn anrhydedd mawr, ac am dano ef yr ydym ni yn diſgwil.*

*Eryr.* Wele, Da yr attebaiſt. A chan ein bôd ni ymma gydai gilydd, mewn llonyddwch, mi âf rhagof.

Colomen. *O Eryr, Gochel gythruddo pan chwilier gwaelod dy friw fel y gwna llawer, Cares cythryb-*
Pſal. 25. 9. *laeth yw anwybodaeth. A fo diddig fydd dyſcedig.*

*Eryr.* Mae hyn yn digio llawer, fôd y ffolaf yn barnu'r doethaf, ac yn dywedyd yn erbyn y peth ni ddeallant.

Colomen. *Gwae a alwo y goleuni yn dywyllwch. Ond mae rhai nefol yn canfod Ecclips (neu Drwnn) ar y*
Pſal. 104. *lleuad naturiol, heb yr vn ar yr haul yſbrydol. Mae'r creadur yn ymluſco ar ôl ei oleuni : Oni weli di y prenniau yn tyfu heb ymglywed a'r bywyd ſydd mewn*

*anifeiliaid? Mae'r anifeiliaid yn ſymmud heb adnabod y rheſwm ſydd mewn Dyn. Mae dynion yn ymgoethi heb ddeall y ffydd ſydd mewn ſeinctiau ar y ddaiar. Mae nhwythau hefyd heb ddeall fawr o fywyd angelion, a'r angelion ſanctaidd ei hunain heb allel cwbl weled pa fodd y mae'r vn mewn tri yn byw. Ac am hynny (fel y dywedais o'r blaen) Dôd i bôb peth ei lê ei hun, ac di elli weled yn hawdd nad yw ſynwyr naturiol yn medru nofio na hedeg i Arch* Noah. *Oni weli di y gwŷr duon dyſcedig yn ymdrabaeddu yn chwant y cnawd, ac yn boddi yn ysbryd y gwaed, a rhai o'r bobl anllythrennog yn hedeg ac yn cippio caſtell teyrnas nefoedd drwy drais, tra fo y rhan fwyaf yn* Mat. 11. 12.
*cippio drwy drais bethau'r bŷd ymma.*

*Eryr.* Ond er hynny, mi welaf yr vn diwedd yn digwydd i'r naill ac i'r llall. Marw y mae'r duwiol yn y diwedd, ac nid yw'r annuwiol ond marw hefyd.

Colomen. *Gwîr yw fôd corph y naill yn huno ynghriſt, ond mae corph y llall yn pydru gyda'i enaid, fel y mae'r naill long yn boddi yn nhonnau'r môr, a'r llall yn hwylio drwyddynt, Pan fo dyn duwiol yn ymadel a'r bŷd, nid yw fo ond gadel ei wiſg fel* Joſeph
*yn nwylaw gwraig Potiphar, honno yw'r ddayar.* Gen. 39.
*Ac mae haul y cyfiawnder yn ſugno gwrês yr enaid hwnnw allan o'r corph ac yn gadel y cnawd (fel gloûn dû) iw orchymyn i'r bedd. Ac fe a godir cyrph*
*(neu natur gorphorol) y rhai duwiol fel y cyfyd yr* 1 Cor. 15. 43.
*haul yn ei ogoniant a'i nerth. Ond am y lleill fe fydd*
*ei cyrph moethus hwynt fel tommen i'r cythreuliaid i* Esa. 66. 24.
*ymdrybaeddu ynddi yn dragywydd.*

*Eryr.* Er hynny onid oes adgyfodiad i gyrph y rhai gwaethaf?

Colomen. *Fe gynnhyrfir gwreiddyn pôb naturiaeth*

*vnwaith etto, ond ni thâl ei cyffrôad nhwy o'r bedd moi alw yn adgyfodiad. Canys er iddynt sefyll ar y ddayar, nhwy fynnent y prŷd hwnnw gael i cuddio*
Dat. 6. *dan y ddayar ac ynghromlechydd y creigiau. Ni chânt moi codi i'r awyr i gyfarfod yr vsdus mawr. Canys nid oedd ei heneidieu yn ei bywyd yn ymgodi i fynu, ond fel dwfr tywyll yn rhedeg ar i wared, ac yn pwyso tu a'r dyfnder.*

*Eryr.* Ond pa'r y ddyfnder yr wyti yn i feddwl? Pa beth yw'r dyfnder, a'r vwchder?

Colomen. *O* Eryr, *Os gwrandewi fel y dylit, di gei fwy O ddealldwriaeth. Y dyfnder ymma yw'r*
Dat. 21. 8. *pwll diwaelod, a hwnnw yw'r ail angau, a'r angau mawr hwnnw yw'r vffern, a'r llîd anrhaethadwy sy'n llosgi pechod a phechaduriaid cyndyn fel afon o*
Esai 30. 33. *frwmstan, Canys mae'r pechod lleiaf yn cynhyrfu y digofaint mwyaf: Ac am yr vwchder, hwnnw yw diwedd yr ailenedigaeth. Nid oes nêb ai hedwyn ond y rhai sy'n hedeg allan o honynt ei hunain iddo, ac yn byw ynddo.*

*Eryr.* Ond ai diogel i ddynion hedeg yn vchel? fe alle mai pa vchaf yr ymgodant isaf y cwympant.

Colomen. *Gwîr ddigon yw os bydd escyll o gŵyr naturiaeth ganddynt, Canys felly yr ehedodd Luciffer a'i lû i waelod vffern. Y balch a ostyngir, a'r isel o*
Luk 14. 8. *galon a dderchefir. Ond os calon ddrylliedig a gais*
Psal. 25. 9. *adnabod dwfn gariad Duw, hi gaiff i dysgu, ai chynnal, ai chodi i vchelderau'r Arglwydd, ai chyfarwyddo yn ysbryd y gwîr* Noah.

*Eryr.* Ond yr wyti yn fynych yn sôn am *Noah.* Pa beth yw yr ysbryd?

Colomen. *Ysbryd y Goruchaf yw'r awel dragwyddol, a'r seren forau, a goleuni'r bŷd, ffynnon yr oesoedd, sêl y testament, Anadl yr Oen, Rheolwr*

*angelion a bywyd dynion: a'r ysbryd hwnnw sy'n dwyn rhai i baradwys tra fo ei cyrph hwy ar y ddayar.* Phil. 3. 20.

*Eryr.* Paradwys: Pa le mae'r ardd honno? Mi glywais sôn llawer am dani.

Colomen. *Ni all nêb hedeg yno, Ond y sawl sydd yn rhedeg allan o hono ei hunan, sef allan o'i ewyllys, a'i gyfrwystra, a'i ddiweddion, a'i lwybrau ei hunan. Mae Paradwys nid ymmhell oddiwrthyt ond ymmhôb mann llei mae cariad Duw yn ymddangos. Ac mae'r holl golomennod cywir ynddi, yn clywed geiriau anrhaethadwy, ymmysg myrddiwnau o angelion, ac ysbrydoedd perffaith. Ac hefyd o'r tu arall, mae vffern a'r tân, a'r nâd, a'r tywyllwch ynghalonnau llawer tra font ymma yn rhodio ar y ddayar.* Phil. 3. 10. Heb. 12. 22.

*Eryr.* Ond gâd i mi ofyn i ti. Onid oes vn nêf, nag vffern ond sydd yn y byd ymma?

Colomen. *Och lawer. Mae nêf dragwyddol, ac vffern fel ffŵrn a bery bŷth. Ond er hynny mae naill, ai nêf ai vffern ymhôb dyn yn y bywyd hwn. Ond nid yw dyn yn gweled ymma pa le y mae, mwy na gŵr yn cyscu yn ei welŷ sydd a llenni tywyll y cnawd o'i gwmpas, a'i holl ffenestri wedi i cau. Ond mae'r amser i ddeffro yn agos pan gladder neu pan loscer y cnawd, ac yna mae pawb yn mynd iw gartref, ac yn canfod ei orweddfa.* Luk. 17. 21. Jac. 3. 6.

*Eryr.* Ond mae arnai ofn hyn; Pa le y byddai yn oes oesoedd?

Colomen. *Er bôd ffelix yn crynnu, nid oes fawr dan y diwedd yn ymofyn am hyn. Os dilyni naturiaeth di gei losci fŷth heb synd byth yn vlŵ. On os cei di naturiaeth arall a chalon newydd di fyddi gyda'r colomennod yn y llawenydd.* Act. 24. 25. Act. 26. 18.

*Eryr.* Ai sôn a wnei di wrthyf fi am galon

newydd? Parchedig oeddwn i erioed, am henafiaid hefyd (fel y mae'r Achau yn dangos:) Ac mae llawer a gawſant grêd a bedydd nad oes arnynt ofn vffern mwy na thithau.

Colomen. *Er hynny fe ddaw vffern heb i hofni. Ac nid yw Achau teuluoedd ond rhwyd a weuôdd naturiaeth yn yr hon y mae prŷſcoppyn balchder yn llechu. Nid wyti nês er dyfod o honot o dywyſogion Cymru, onid wyti yn vn o hâd Tywyſog brenhinoedd y*
Joan. 1. 13. *ddayar, wedi dy eni, nid o ewyllys gŵr, ond o'r Hâd anllygredig: Rhaid i ti er glaned wyt oddiallan gael*
Jag. 1. 18. *newid dy naturiaeth oddifewn, neu fe a'th loſgir di yn dy Blû, a'th foneddigeiddrwydd a'th ſynwyr dy hunan.*
Act. 8. 13, 23. *Ac am grêd a bedydd dyfrllyd, nid yw hyn fwy na gwelltyn yn y dommen, oni chei di gyda hyn yr ailenedigaeth.*

*Eryr.* Peth na wn i oddiwrthi ynof fy hunan yw'r ailenedigaeth, er i mi a'r glûſt glywed ſôn am dani.

Colomen. *Yr ailenedigaeth yw dyfodiad dyn allan o'r naill fŷd i'r llall yn y bywyd ymma. Pan fo'r*
Joan 3. 3. *enaid yn yr ysbryd (mewn poen dan weiddi) yn torri drwy gwrs naturiaeth oddifewn, heb fynnu moi ddal yn hwy ynghrôth y meddwl dayarol, ond er gwaethaf*
Act. 26. 18. *pôb creadur yn dyfod allan o dywyllwch i oleuni, allan o fryntni ysbrydol i burdeb, allan o gâs i gariad, allan o gaethiwed i rydd-did nefol, allan o'r carchar i reoli,*
Eph. 2. 1, 2. *allan o helynt y bŷd i gymdeithas Seinctiau, allan o fonwes cythreuliaid i gwmnhi angelion Duw, allan o ſŵn y cnawd i glywed llais Duw, allan o'r oferedd i ſobrwydd meddwl, allan o'r chwerthiniad i brudd-der paradwyſaidd, allan o'r cnawd drewllyd i'r ysbryd bywiol, ac allan o grôth naturiaeth i'r Gaerſalem nefol. Mae yn yr Ailenedigaeth ddwy ran. Vn i'r enaid, a'r ysbryd, am yr hon yr ydym ni yn ſôn, a'r llall i'r corph*

*yn y diwedd, yr hon a elwir, mabwysiad y corph.* Rhuf. 8.
*Ac fel y mae'r corph yn y bedd heb i eni hyd yr adgyfodiad, felly mae'r enaid yn pydru yn naturiaeth ne's iddo adgyfodi gyda Christ, Ac fe wna Duw i ddyn weled i fôd ef yn gorwedd yn vffern, ac yn llechu yn y ddayar, cyn iddo ddwyn y meddwl i baradwys.*

*Eryr.* Rwyti yn sôn yn fynych am baradwys. A wyddost di Pwy sydd yno?

Colomen. *Dôd gennad i mi i sôn yn ddifyr am fyngwlâd am brô fy hunan. Rhaid i bawb sôn am ei* Luk. 6. 45.
*gartref. Rwi (mewn rhan) ynddi yn barod, a'r Colomennod gyda'm fi fel y dywedais i ti.*

*Eryr.* Ond Beth ped fawn i yn dy lâdd di'r awron, i ba le yr ait ti?

Colomen. *I mewn ymhellach i'm gwlâd, canys ni ellir mo'm gwthio i allan o'm naturiaeth, a naturiaeth* Rhuf. 8. 38, 39.
*nefol yw paradwys.*

*Eryr.* A wyddosti beth yr wyti yn i ddywedyd?

Colomen. *Gwn, er na fedrai beri i ti ddeall.*

*Eryr.* Onid oes arnat ti ofn marw er hyn i gyd?

Colomen. *Nagoes, mwy nag ar vn sydd wedi blino, fynd iw welŷ i orphwys. Cennad yw angau* Phil. 1.
*oddi wrth fy nhâd i'm dwyn i adref allan o yscol y bŷd hwn fel allan o garchar y cnawd.*

*Eryr.* Ond mae ofn marw ar eraill?

Colomen. *Mae iddynt hwy achos, Canys pan fo angau yn marchogaeth attynt hwy, mae uffern wrth* Dat. 6.
*ei scîl ef.*

*Eryr.* Pam nad oes arnat tithau ofn marw?

Colomen. *Am fôd vn arall wedi marw drosofi, a*

*hwnnw yw fy meichiau i. A digon yw naill ai iddo*
Heb. 7. *ef, ai i minnau farw.*

*Eryr.* Oni bu efe farw dros bôb vn arall cyſtal a thithau?

Colomen. *Fe fu farw dros bawb, ac mae pawb yn*
Heb. 2. *cael llês oddiwrtho dros amſer. Ond nid ydynt hwy*
2 Cor. 5. *yn i garu ef, ond yn ymollwng oddiwrtho i fyw ac i farw fel* Balaam. *Ac oni bai iddo erioed ymroi a chytuno i farw, ni buaſe y bŷd ymma yn ſefyll munud awr ar ôl cwymp Adda.*

*Eryr.* Ond ni bu efe farw lawer blwyddyn ar ôl hynny.

Colomen. *Ond deall di* (O Eryr) *iddo addo a bwriadu marw er ſylfaeniad y bŷd, a'r peth a fwriado*
Dat. 13. 8. *efe, mae hynny fel ped fai wedi i wneuthur yn barod.*

*Eryr.* Ond a fwriadodd ef wrth farw gadw pawb?

Colomen. *Mae cariad y Tâd yn y mâb yn gwenu*
1 Tim. 2. 4. *a'r bawb, ond mae digofaint y Tâd, ai Arglwyddiaeth*
2 Pet. 3. 9. *ofnadwy yn gadel ac yn gwgu ar lawer. Felly y mae Trugaredd a chyfiawnder yn vn, ac yn mynnu ei*
Pſalm 101. *diweddion. Nid yw'r rhain yn Nuw yn ymryſon, Ond yn digoni y naill y llall, ac yn ymborth yn ei gilydd erioed. Fel llawenydd a thriſtwch yn yr vn galon. Ewyllys calon y Tâd* (*ſef yr Achubwr*) *yw achub y pechadur, ond mae'r cynhyrfiad tragwyddol*
Rhuf. 9. *fel tân, neu fel chrochenydd. Dwfn yw gwreiddyn y matter ymma* (*fel y dangoſwyd o'r blaen*) *a phôb Dyſcawdwr ai reſwm ganddo, mewn amryw opiniwnau, Hyn ſydd ddigon i'r call, o gormod i'r gwatwarwr. Ac am y gwan ei ddeall a'r ſychedig ei galon, diſgwilied yn ddiſtaw, mae'r dydd yn gwawrio, a'r dyfnder yn ymagoryd i dderbyn i'r fonwes olau y rhai iſel gofalus.*

## *Arwydd i annerch y cymru.*

*Eryr.* Nid yw hyn yn bodloni dim ar feddyliau rhai?

Colomen. *Ni fodlonir rhai byth, nag yn y bŷd* 1 Cor. 14. 38.
*ymma, nag yn yr hwn a ddaw. Ond bydd di fodlon yngh ariad Duw, fel y mynne efe i bawb fôd: Bwytta o bren y bywyd, er bôd llawer yn ymgipio am ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg ynghŷd. Digon yw i ddyn wybod hŷd, a llêd, ac vwchder a dyfnder cariad* Eph. 3. 18, 19.
*y Goruchaf tuag at ei enaid truan: a'r holl wybodaeth arall a dderfydd ac a ddiffydd fel canwyll pan godo y tymhestloedd olaf.*

*Eryr.* Ond (wrth hynny) i ba beth yr ydym ni yn ymddiddan? Onid gwiw cael gwybodaeth nid gwiw siarad nag ymofyn am dani?

Colomen. *Bywyd tragwyddol yw adnabod y Tâd yn y mâb, Ond angau yw i adnabod allan o hono, a* Joan. 17. 3.
*gorthrymder ysbryd. Nid yw'r Tâd yn i ganfod ei hun allan o'r mâb, ond ynddo, a'r mâb ynddo yntau, Ond fel yr oedd yr Iddewon yn edrych ar y mâb allan o'r Tâd, (heb adnabod yr vn o'r ddau) felly y mae llawer yn edrych am Dduw allan o'i ddifyrrwch ai anwyl fâb, ac yn i gael yn dân lloscadwy.*

*Eryr.* O Golomen. Rwyti yn rhy gyflym i mi. Ond oni fedri di fôd yn falch am hynny?

Colomen. *Ni fedrai, ac ni feiddiai fôd yn falch. Canys nid fyfi am gwnaeth fy hunan. A'r hwn am* Psal. 100. 3.
*gwnaeth i yn wirion ymhôb peth, iddo ef y byddo'r glôd bŷth. Nid oes gennif na llais, na lliw, na llûn na phluen o'm gwaith a'm gallu fy hun. Nag ymffrostied nêb ynddo ei hunan ond yr hwn sydd o hono* Jer. 9.
*ei hunan, yn fendigedig ymmysg pawb ar ai hedwyn mewn cariad.*

*Eryr.* Ond mae (er hynny) llawer yn hoyw-

feilchion, yn ymfronni, ac yn ymoſod allan, orau
y gallont.

Colomen. *Er hynny, nid yw dŷn o hono ei hun ond*
Gen. 3. 19. *ſwp o wenwyn, a thelpyn o brîdd, ac anifail brwnt,*
Preg. 3. 18. *cyſclyd aneallus, neu welltyn glâs yn gwywo, Twrr o*
Eſay 40. 7. *eſcyrn yn pydru. Gwâs i ddiafol ynnhommen y cnawd,*
Pſal. 138. 6. *Ac a ddyle hwn (dybygi di) fod yn falch? Ie er bôd*
*rhai yn Seinctiau ynghyfiawnder yr Arch, mae nhwy*
*yn gweled nad yw ei cnawd nhwy ond blodeuyn, ni all*
Dih. 16. 5. *y Goruchaf aros llygaid a meddyliau vchel. Ac fe a*
*oſtyngir y brynniau fel* Dagon *a* Jezabel. *Canys llei*
*bo balchder mae ynfydrwydd, ewyllyſgryfder, anghof-*
*uſdra, creulondeb, drwglygad, cenfigen, ymrafael, an-*
*fodlonrwydd, gwaed, cynnen, malais, ymladd, gwagfoſt,*
*dirmyg, anair, ymgyſtadlu, ac ymchwyddo ymhôb dry-*
*gioni.*

*Eryr.* Onid oes dim o'r pethau ymma yn eich
myſg chwi?

Colomen. *Fel y mae'r afiechyd yn yr iachaf, neu*
*ddraen yn y troed, neu wynt yn y cylla, neu aſcwrn o'i*
Rhuf. 7. *le. Mae pechod yn olrhain dŷn da, i geiſio i ddal.*
Gal. 6. 1. *Ond y mae meddwl dyn drwg yn dal, ac yn goddiwedd*
Rhuf. 8. 13. *ei bechod. Mae'r naill yn marwhau, a'r llall yn*
Pſal. 18. 23. *magu ei anwylchwant. Mae'r naill yn i ofni, ac yn*
*i gaſhau fel gelyn, a'r llall yn i groeſafu iw feddwl fel*
Job 20. 12. *ſiwgwr dan ei ddannedd. Y naill ſydd yn ei chwant*
*ai natur fel brithyll yn y dwfr, a'r llall yn nofio allan*
*o hono ei hunan am ei fywyd. Y naill fel yr hŵch a'r*
*afr, a'r llall fel y ddafad ddiniwed yn adnabod llais y*
*bugail.*

*Eryr.* Sôn am y bugail yr wyti. Ond mae
llawer llais yn y bŷd, a ſŵn rheſymmau lawer.
Pa fodd yr adwaenoſt di lais yr ysbryd glân ymyſg
y cwbl?

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

Colomen. *Oni wyddost ti y medr oen bâch adnabod llais ei fam ei hun ymmysg cant o ddefaid. Nid oes nêb a fedr ddirnad y gwîr ysbryd ond y sawl sydd* Joan 10.
*ai natur ynddo, am hynny ofer yw rhoi arwyddion a geiriau iw adnabod.*

*Eryr.* Wrth hynny. Rwyti yn gadel pawb iw feddwl ei hun.

Colomen. *Pan fo'r gwir fugail yn llefaru, a dŷn yn i glywed, mae'r galon yn llosci oddifewn, a'r cnawd yn crynnu, a'r meddwl yn goleuo fel canwyll, a'r gyd-* Luc. 24.
*wybod yn ymweithio fel gwîn mewn llestr, a'r ewyllys* Hab. 3. 2.
*yn plygu i'r gwirionedd: Ac mae'r llais main nefol* 1 Bren. 19.
*nerthol hwnnw yn codi y marw i fyw, oi fedd ei hunan, i wisgo'r goron, ac yn newid yn rhyfedd yr holl fywyd i fyw fel oen Duw.*

*Eryr.* Onid oes cnawd yn gorchfygu y gorau o honoch?

Colomen. *Nagoes. Y mae cnawd drosom ond nid yw fo yn gorchfygu monom. Ond fel tŷ Saul yn myned wannach wannach. Canys y nêb sydd yn yr Arch a groeshoeliasont y cnawd ai wyniau, ai chwantau.* Gal. 5. 24.
*Mae nhwy fel dynion wedi meirw i blesserau a chlôd a chyfoeth y bŷd, nid ŷnt fywiog iddynt, nag ynddynt.* Gal. 6. 14.
*Maent wedi gwywo yn ei synwyr, ai hewyllys ei hunain, ac yno mae'r blodeuyn tragywyddol trwyddynt, ynddynt, iddynt.*

*Eryr.* Pa beth (meddi di) yw'r cnawd yr ydym ni yn sôn am dano, gan fôd llawer heb ddeall ei geiriau ei hun?

Colomen. *Y cnawd yw pôb peth dan yr haul a'r sydd o'r tu allan i'r dyn oddifewn. Pa beth bynnag sydd ddarfodedig, ac nad yw dragywyddol cnawd yw. Cnawd yw synwyr dyn, a phleser y bŷd. Cnawd yw chwaryddiaeth hên ac ifangc. Cnawd yw ymborth a*

*hiliogaeth dŷn. Cnawd yw amser a phôb peth ar a derfynir ynddo. Cnawd yw ewyllys a dirgelwch dynion. Cnawd yw gweddiau a phregethau llawer. Cnawd yw anrhydedd gwŷr mawr ac vwchder gwŷr mân. Cnawd yw pôb peth ar a all dŷn naturiol i*
Rhuf. 8. *weled, ai glywed, ai gael, ai gynnwys. A gwellt yw pôb cnawd. Wele gwywo y mae. Nid yr vn yw*
Esay 40. *dros vn munud. Mae anadl Immanuel yn chwythu ar y blodeuyn ymma, fel ar llyssieuyn gardd, yr hwn a lychwina rhwng dy fyssedd: fe elwir y cnawd ymma*
Eph. 4. 22. *wrth henw Henddyn, am i fôd yn gyfrwys i dwyllo, yn hawdd i gofio, yn anhawdd i adnabod, yn gynnesin a dŷn, ac fel tâd iddo. Cnawd y gelwir ef, am i fôd ef am ddyn fel dilledyn, yn anwyl iddo, yn agos*
Gal. 5. *atto, yn rhan o hono, yn tyfu ynddo, ac yn pydru wrtho. Y cnawd ymma yw Gelyn Duw, Gwenwyn dŷn, lifrau vffern, Delw anifail, Anŵylyd pechadur, lloches rhagrithiwr, Rhwyd y prŷf coppyn, marsiandwr eneidieu, Cartref y colledigion, a thommen y cythreuliaid. Gwae, Gwae, Gwae y rhai sydd yn byw yn*
Rhuf. 8. 8 *y cnawd; ni all y rheini na bodloni Duw, na bôd yn gadwedig, oni ddychwelir hwynt.*

*Eryr.* Pwy yw y rheini sydd yn byw yn y cnawd yn ôl y cnawd?

Colomen. *Ped fawn i yn henwi'r cwbl, mi hennwn y rhan fwyaf o holl drigolion y ddaiar, y tywysogion beilchion, yr offeiriaid mudion, y llefarwyr myglyd, y gwrandawyr cysglyd, y proffeswyr gweigion, yr vchelwyr trawsion, y tenantiaid ffeilsion, y rhai ifaingc nwyfus, y rhai hên ofergoelus, yr usdusiaid anghyfion, yr ymofynwyr partîol, y cyfreithwyr cyfrwysddrŵg, y boneddigion briwsiongar, y tlodion rhagrithiol, y gwerin anwybodus, yr yscolheigion chwyddedig, y milwyr anrhesymmol, y trethwyr digydwybod, y tafarnwyr anifeiliaidd, y cynllyfanwyr segur-llyd, y gwyr chwerwon,*

*y gwragedd anufydd, y plant cyndyn, y maſweddwyr ſidanog, y lladron anweledig, y llofruddion maleiſus, y cynhennus direol, yr ymladdwyr gwaedwyllt, y godinebwyr anifeiliaidd, a holl addolwyr y llythyren, a'r cyffelyb i'r rhai hyn, am y rhai y dywedwyd o'r blaen,* 1 Cor. 6.
*ac yr wyfi etto yn tyſtiolaethu, nad y rhain yw etifeddion* Gal. 5.
*teyrnas Dduw. Mae rhain yn boddi yn y cnawd, ac heb adnabod rhodfeŷdd yſbryd y bywyd. Meirwon oeddynt, meirwon ydynt, a meirwon fyddant oll, oni eilw Duw rai o honynt.*

*Eryr.* Beth a wna dŷn i ddyfod allan o'r cnawd i'r ysbryd glân, ac allan o hono ei hun i fyw yn Nuw?

Colomen. *Mae llawer yn ymofyn ac yn ymbalfalu dros amſer, ac yn ceiſio vnioni cangen gam ei naturiaeth ei hunain, ond mae nerth natur fel llanw yn gorch-* Luc. 13. 23, 24.
*fygu yn y diwedd. Ac yn y diwedd y mae barnu. yn yr hwyr y bydd dydd y farn. Dyn a derwen a diwrnod ŷnt anhawdd i hadnabod, Ond os myn nêb i wadu ei hun a dilyn yr oen yn yr ailenedigaeth, a pharhau hyd y diwedd, a bôd yn gadwedig, Na* Mat. 19. 28.
*ddiffodded mor golau ſydd yn ei gydwybod, ond chwyth-* Mat. 24. 13.
*ed ef i oleuo, a dilyned oleuni Duw, a'r ſeren forau ynddo, ac fe a gyfyd yr haul yn ddiſclair arno.*

*Eryr.* Pa beth yw'r ſeren forau honno?

Colomen. *Sicrwydd gwybodaeth, Gwyſtl yr yſbryd, ſiŵr lygad ffydd, ernes perffeithrwydd, ſêl Jehovah, a thŷſt tri yn vn, angor yr enaid, a'r cwbl pan fo dŷn* Col. 2. 2.
*yn y goleuni yn adnabod cariad Duw atto, ynddo, a* 2 Pet. 1.
*thrwyddo, mewn nerth a heddwch ryfedd.*

*Eryr.* Oh. Beth a wna i gael hyn ynof fy hunan?

Colomen. *Rhaid yw curo yn galed wrth ddrŵs* Luc. 11. 13.
*Duw mewn gweddiau, fel cardottyn, ac nid tewi nes*

*cael. Mewn yſbryd a meddwl yn y porth bôb munud, Canys y Sawl ai gofynno ai caiff.*

*Eryr.* Ond mae llawer yn gweddio heb fôd nês. Pa brŷd y mae gweddi dŷn yn cyrhaeddyd monwes Duw?

Colomen. *Pan fo yſbryd Duw yn ochneidio (yn ddigymmyſg) mewn dyn, Pan fych di yn ymroi i Dduw, ac ewyllys i geiſio yſbryd Duw fel cynnyſcaeth i'r enaid; Ac hefyd yn ymgryſhau i barhau yn daer, ac yn wangcus nes i ti i gael. O blegid nid cnocc neu ddau ſydd ddigon wrth ddrŵs Duw. Mae llawer cythrel nad a allan drwy ympryd a gweddi heb ffydd, na thrwy ffydd heb ympryd a gweddi. Ac mae'n agos drô mawr ar dywydd: Mae taranau yſbrydol, Mae daiar-grynfâu yſbrydol, mae lleiſiau yſbrydol, Mae cenllyſg yſbrydol. Mae mellt yſbrydol, Mae dreigiau yſbrydol, a barn yſbrydol. Ac mae'r rhain i gŷd yn anweledig yn yſbryd dŷn, ymwrandawed dŷn ai galon, ac fe gaiff glywed y pethau hyn ynddo ei hunan, Mae llawer a fyddai wych ganddynt drafaelio yr holl fŷd droſto, ond nid adwaenant y bŷd mawr helaeth yn y galon, ond mae'r borau wedi gwawrio i ddyn yw adnabod ei hun, canys mae'r priodfab yn barod, ar brenin, ar barnwr, wrth y drŵs.*

*Eryr.* Ond mae llawer yn dywedyd er yſtalm fôd y barnŵr ar ddyfod, a bôd ei fŷs ef yn codi clicced y drŵs er-ys llawer blwyddyn. Er hynny ni wela i monofo etto yn ymddangos, na dydd y farn etto wedi dyfod.

Colomen. *Mae dydd barn wedi dechrau yn barod yn y gydwybod, ac fe ai datcuddir yn yr amlwg pan ymddangoſo y Duw mawr. Nid yw ef yn oedi dyfod fel y dywaid rhai ſydd heb i ganfod ef, nai gydnabod yn llenwi'r hollfyd, yn gweled pôb peth, yn barnu'r teyrn-*

*afoedd, yn cyffroi yr holl naturiaethau, yn ceryddu cydwybodau, yn cyflawni prophwydoliaethau, ac yn agoryd yſcrythurau. Er ir Iddewon ddiſgwil yn hîr am y Meſſiah, ni dderbynient mono pan ddaeth am na ddaeth ef yn y ffigûr yr oeddynt hwy yn diſgwil am dano, felly mae fo yr awron yn barod i ddyfod yw deml, ond pwy a all aros tân y toddudd a ſebon y* Mal. 3. 1, 2.
*golchyddion? fe ddaw, ac fe gaiff pawb i weled fel y dywedais i am y Diluw or blaen.*

*Eryr.* Rwyti yn myned oddi wrth y Queſtiwn a ofynnais i ti.

Colomen. *Felly yr oedd Iachawdwr y bŷd pan ofynnid iddo lawer peth drwy ſynwyr y ſarph. Ac ni thâl y cnawd moi atteb, Ar ſawl ſy'n ſiarad llawer ymyſg dynion nid yw fo yn clywed fawr o lais Duw a pharadwys. A gwell i mi dewi na dywedyd wrth vn byddar rhag dywedyd geiriau ſegur, Canys rhaid rhoi cyfrif am bôb gair diwaith.* Matth. 12. 37.

*Eryr.* Beth (wrth hynny) a ddaw o honom ni ſydd yn ſiarad rhyd y dydd am y peth cyntaf a ddêl i'n pennau?

Colomen. *Mae ysbryd dyn ſiaradus yn farch i ddiafol heb un ffrwyn yn ei Safn: ô pa ſawl mîl yn yr wythnos o eiriau ſegurllyd y mae pawb agos yn i* Pſal. 120. 3, 4.
*traethu? yr holl eiriau budron, anllad, diofn, digllon, afrywiog, anneallus, enllibiaidd, rhyddion, yr holl eiriau gwatwarus, meddwaedd, bloddeſtgar, ſarrig, cyfrwyſ-ddrwg, drygionus, pan ddelo'r rhain i gyd fel lluoedd mewn arfau i gyfarfod y pechadur Beth a ddaw oi obaith ef y dydd hwnnw? Am hynny gwaedda yn fuan am yr ysbryd glân i fôd yn borthor ar ddrws dy* Pſal. 141. 3.
*wefuſau, Cyn i ti ddywedyd gormod.*

*Eryr.* Ond beth os dywedais i ormod o eiriau yn barod na fedrai gofio vn o fil, (er bôd yr angelion

wedi i printio nhwy er cynted y daethant allan o'm genau?

Colomen. *Selia dy enau o hyn allan ac egor dy gydwybod o flaen Duw, a glŷn yn galed wrth yr Arglwydd Iesu ar iddo fôd yn feichiau drosot ar ddydd y farn, ac na chwsg ddydd na nôs nes cael sicrwydd oddiwrtho. mae ar y dledwr ofn cael i arrestio ai ddal ai garcharu nes iddo dalu yr hatling eithaf. Pan bechodd Adda fe ddywedodd wrth yr Arglwydd*
Gen. 3. *(Iehovah) mi a glywais dy lais di yn y gydwybod, ac a ofnais, ac a ymguddiais. Dymma fynydd* Sinai *a dirgelwch y daran, Dymma gydwybod ledradaidd yn*
Job 21. 15. *ceisio (pe bai bossibl) ddiangc o'r tu cefn i Dduw allan oi olwg. Ac am fôd y goleuni cyhuddgar ymma mewn dyn, mae arno gywilydd wneuthur o flaen pawb y peth naturiol nad yw'r anifail yn rhuso i wneuthur. Canys mae discleirdeb Delw Duw ar enaid dŷn, er na ŵyr yr enaid mo hynny yn eglur nes torri o'r gostrel bridd, a myned o'r meddwl allan o'r corph. Am hynny gochel di adel dim llwgr, ac euogrwydd ar dy gydwybod, na dim crawn yngwaelod y briw.*
Heb. 10. 22. *Canys os bydd llûn a delw y pechod (fel bŵbach*
Levit. 26. 36. *uffern) yn y gydwybod, pôb peth a'th gynhyrfa, a phôb digwydd a'th ddychrynna. Os gwnei di ddim (mewn meddwl gair neu weithred neu ymddygiad) yn erbyn dy gydwybod, mae taran yn nesha ynot yn dangos ei llef. Ac os pâr dy gydwybod i ti wneuthur y peth ar peth sydd dda (drwy estyn bŷs oddifewn ai*
Jag. 4. 17. *ddangos i ti) os ti ai hesceulusi, ac a droi heibio, mae Scrifen ar dy fûr di yn peri i'th gymmalau di oddifewn siglo. Ac heb law hynny (Deall hyn O* Eryr) *fôd*
Ezek. 14. 4. *delwau ym meddwl pôb dyn, a'r rheini yw lluniau pôb peth a welodd y llygad yn y byd, maent yn ymddangos oll megis mewn drych yn y meddwl, a'r lluniau ymma a barhant byth onis distrywir hwynt cyn i'r corph*

*farw. Nid oedd ond vn ffordd ar ran Duw iw difetha,*
*fe gymerodd ei anwyl ſâb ai ddelw ei hunan, ac ai*
*tarawodd yn erbyn dy ddelwau di, fe a dorrodd ei*
*ddelw ei hunan ac ai lladdodd ar y groes, fel y difethid*
*eulynnod dy galon dithau drwy nerth ysbryd y groes.* 1 Joan 3. 8.
*Ac os mynni di gael heddwch cydwybod, A heddwch a*
*barhatho byth, Gwybydd y gwneir i ti wybod, pa fodd*
*y bu (Chriſt ſef enneiniog Duw) farw droſott ti, a* Rhuf. 6.
*thithau ynddo yntau, ac yntau ynot tithau. A thrwy*
*gredu hyn i gyd ynghŷd, mae'r gydwybod yn cael i*
*hyſcubo yn lân drwy ffydd, a'i hyſcafnhau oddiwrth yr*
*holl hên feddyliau pechodol er brynted fuont. Gwaed* 1 Joan 5.
*yr Oen ſy'n golchi'r enaid, a'r dwfr gyd a'r gwaed.*
*Ac yn y dwfr a'r gwaed hwnnw oddifewn mae rhin-*
*wedd, a holl nerth ysbryd y Duw byw tragwyddol,* Heb. 9. 14.
*Dymma'r ffynnon agored ynghriſt i ti, ac ynot ti* Zach. 13. 1.
*iw ddiodi yntau, Pob peth ſydd o DDuw, ac nid o*
*ddyn, am hynny diſgwil di wrtho. Ac o achos dy fôd* 2 Cor. 5. 18.
*di yn ſôn am bechod y genau, ac am ddrygioni geiriau,* Pſal. 14. 1.
*Cofia byth fôd meddyliau'r galon yn eiriau ſylweddol*
*ynghluſtiau y Goruchaf; A thra fo meddyliau'r cnawd*
*ynot ti, mae nhwy fel bytheuaid yn dy ganlyn di ddydd*
*a nôs, ac yn gwneuthur ſŵn amherffaith ynghluſtiau'r*
*Barnwr. O i ba le y diangi di rhagddynt ond allan o*
*honot dy hunan? Mae vn meddwl ofer yn drymmach* Jer. 4. 14.
*na'r holl ddayar, canys nid yw'r ddayar ond amſerol,*
*ond mae'r meddwl yn dragwyddol. Ac hefyd nid yw'r*
*llais oddiallan ond adlais y ſŵn oddifewn. Ac mae*
*meddyliau pawb, agos yn rhedeg allan oddiwrth DDuw*
*drwy y llygaid a'r cluſtiau at bethau gweledig dar-*
*fodedig, heb fedru, nag heb gael aros i mewn i wrando*
*ar y llais anrhaethadwy yn yr ysbryd; Mae'r gelyn*
*wedi tynnu allan lygaid a chluſtiau pôb dyn agos at y*
*peth a wnaed oddiwrth yr hwn ni wnaed ond oedd*
*erioed.*

*Eryr*. Sôn yr wyti yr awron am ryw fŷd oddifewn, nid wi'n deall mor pethau hyn.

Colomen. *Mi soniais am hyn o'r blaen. Ond nid*
2 Tim. 3. 6, 7. *yw rhai yn deall er dywedyd deirgwaith yr un peth, am fôd y cnawd fel sachlen ddû ar ffenestri'r meddwl. Rwyti o ddŷn ynghanol pôb naturiaeth, er nad wyt yn gweled. Na wrando ar y mesurwŷr cnawdol, sy'n sôn gormod am yr vn mîl ar hugain a chwechant o filldyroedd sydd yn gwregysu yr holl fyd, ac yn bwrw fôd tairmil o ganol gwaelod y ddayar ir wynebion, a phedwar myrddiwn oddi ymma i'r haul, a phedwar vgain oddi wrtho ef i'r wybren, ac oddi yno i'r nêf*
Rhuf. 10. 7, 8. *gymmaint ac i'r ddayar. Ond mae gair y ffydd yn Swnio ynot ti. Mae'r Drindod gyda'th di. Mae paradwys ac vffern drwy bôb lle, fel y dywedais i o'r blaen.*

*Eryr. Er* a ddywettech di. Nid yw hyn yn mynd i'm pen i, nag im calon chwaith. Ar pen yw drws y galon. Pa fodd y mae i ddyn feddwl heb gamfeddwl am y pethau hyn?

Colomen. *Ni all fôd ond vn anfesurol, A hwnnw*
Jer. 23. 24. *am i fôd ef yn berffaith, rhaid iddo fôd ymhôb man ar vnwaith, ac yn llefaru wrth bawb yn wastad, yn clywed, ac yn cynnal pôb peth ar vnwaith, nid rhan o hono sydd ymma, a rhan accw, canys nid oes mor rhannau ynddo. Ond mae fe i gyd, ac yn gwbl, ac yn hollawl ymhôb man ar vnwaith. Am hynny y galle Moesen chwedleua ag ef wyneb yn wyneb. Canys yr oedd yr holl Dduwdod o flaen ei lygaid ef. Ond ni wêl nêb hyn*
Math. 11. 27. *ond y meddwl ysbrydol. Fel na ellir gweled yr haul ond yn ei oleuni ei hunan. Pwy sydd yn gweddio? neu pwy sydd yn pregethu? neu yn rhoi trô yn y bŷd, ac yn gweled fôd yr holl Dduwdod i gyd, sef y Duw mawr ai holl olwg arno? ac yn deall mai lle y mae ei gariad ef, yno y mae bywyd a pharadwys, ac lle mae ei ddîg*

*ef, yno y mae angau ac vffern. Hwn yw'r Duw anfeſurol bendigedig byth, yn ymlonyddu ynddo ei hunan, ac iddo fe bo'r glôd ym mhôb man yn dragywyddol. Ni ddyle ddyn ſôn am ei enw ef heb barch a chrynfa, canys ynddo y mae pawb yn ſôn am dano. Oi flaen ef y mae'r nefoedd yn diangc, a char ei fron ef y mae'r angelion ſanctaidd yn ymguddio, Ond mae dynion fel anifeiliaid direſwm vffernol, yn rhuo, yn anghofus yn cablu, yn camarfer y gair, yn tyngu, yn drwgfeddwl, yn melldithio, yn rhegi eraill ai heneidieu ei hunain, heb weled fôd y tân aniffoddadwy wrthynt ac ynddynt. Ac mae rhai eraill (Druain) yn edrych am Dduw o hirbell, ac hefyd yn gweiddi am dano oddiallan, heb weled fôd ffynnon a gwreiddyn ynddynt yn ceiſio tarddu a thyfu drwyddynt. Canys mae fe gyda phôb dŷn er cynddrwg yw, yn goleuo pôb dŷn ar ſydd yn dyfod i'r bŷd, ond er i fôd ef drwy bawb nid yw fe yn cael aros ond yn ymbell vn. Y Sawl ſydd gantho glûſt i wrando, gwrandawed.*

Rhuf. 11. 36. Deut. 28. 58. Dat. 6. Eſay 6. Rhuf. 3. 14, 18. Joan 1. 9. Eph. 4. 6.

*Eryr.* O Golomen. Onid wyti yn blino bellach a ſiarad am y pethau hyn? Ni fynnwn i mo'th flino di chwaith.

Colomen. *Edrych di ar dy ragrith, ond dydi dy hun ſydd yn ceiſio eſcus? Nid wyti nês er blino, nac er rhagrithio, ac ymeſcuſo. Nid oes dim blinder arnafi, Pethau nefol yw fy mywyd. Ac fe am gwnaed i o bwrpas i ddwyn tyſtiolaeth. A rhaid i bôb lleſtr waſanaethu yw ddiwedd ai ddefnydd. Nid yw'r angelion yn blino yn canu, ac yn canmol. Ac yr ydychwi yn gweddio. Gwneler dy ewyllys ar y ddaiar fel yn y nêf.* Job 23. 12.

*Eryr.* Onid oes (er hynny) rai o honochwi yn ſwrthdrymion?

Colomen. *Yr ewyllys ſydd barod ond y cnawd ſydd wan, Nid yw'r dyn gwan yn blino ar ei fywyd, ond ar* Mat. 26. 41.

*ei glefyd, ac eisiau bôd yn gryfach, ac mae nerth newydd*
Esay 40. 30, 31. *yn descyn ar y llescaf os disgwiliant am dano oddivchod, y gwan a saif, a'r cryf a syrth.*

*Eryr.* Ond beth meddi di a wna dyn sy'n barod i ymollwng dan ei feddwl, ac i orwedd dan ei faich yn ddigalon?

Colomen. *Nhwy ddywedant, nad trom ond y ddaiar, ac er trymmed yw hi, (er ei hoed) mae Duw*
Esay 40. 28. *yn cynnal i fynu y ddaiar ai holl gyrrau ar ei air ei hunan, ac heb chwysu na dyffygio. Edrych dithau arno. Hwn a ddichon gynnal dy galon dithau er trymmed yw. Hwn sydd yn gosod ei fraich dan ei*
Esay 40. 11. *ŵyn. Edrych a gwêl fel y mae efe yn dwyn oddiarnat yr hên nerth, ac yn rhoi i ddynan truan nerth newydd, ac yn i lenwi ag îrder newydd (fel y mae'r gwreiddyn tra barhatho, bôb blwyddyn yn danfon i'r canghennau ddail a ffrwyth newydd.) Canys yn y gwreiddyn y mae'r bywyd. Y Tâd Abraham a obeithiodd yn erbyn*
Rhuf. 4. 18. *rheswm dan obaith, felly y gwnaeth Barac a Gideon a*
Heb. 11. *Habbacuc, ac Esay, a llawer eraill yn ddiweddar, ac yn yr oes hon. fe fyddai rŷ hir i ti glywed y cwbl, Ond gwŷch gan bawb sôn am y peth y mae efe yn byw*
Dih. 16. 3. *ynddo, ac arno. Oni elli di ddwyn i fynu dy ffyrdd a'th*
Ps. 55. 22. *feddyliau, Treigla dy holl hunan ar yr Arglwydd, sef*
1 Pet. 5. 7. *arno neu tuag atto o'r hyn lleiaf, ac efe a'th gynnal di dan y maen melin. Ac os myn y Tâd rhaid i ti berchi ei fâb ef yn y cwppan chwerw er mwyn llâdd y pechodau, Rhaid yw bôd yn fodlon i orwedd yn farw yn ei fèdd ef cystal ac i eistedd yn ei gadair, Mae cûr y meddwl yn bysygwriaeth, y mae Duw yn i roddi i rai y mae efe yn i garu, i dynnu i lawr ei balchder. Hiliogaeth Duw yw ysbryd dŷn, ac mae Tâd yr ysbrydoedd yn i cosbi; cwympa dan ei draed ef, ac di gei*
Heb. 12. *gyssur.*

*Eryr.* Mi welaf fôd y Golomen yn hedeg heb

flino mewn daioni, er bôd eraill fel yr hwiaid yn fuan yn cwympo i'r pyllau. Gwyn ei bŷd y rhai ſydd heb ddyffygio wrth hedeg vwchlaw'r bŷd ymma.

Colomen. *Onid wyti (O Eryr) yn vn o'r rheini?*

*Eryr.* Nag ydwyf etto yſywaith. Nid oes flinder wrth ofer-ſiarad, ond buan yr wyfi yn blino wrth ſôn am bethau nefol. Ac er hynny tra fwyfi yn dy gwmnhi di mi debygwn fôd rhyw fâth ar ddifyrrwch ysbrydol yn fy nwyn i ymlaen.

Colomen. *Am hynny Glŷn ynghymdeithas y rhai nefol: Hawdd yw adnabod rhagrithiwr wrth ei gymdeithion. Safnau diafol yw cymdeithion drŵg, yn* Dih. 22. 24, 25.
*llyngcu meddyliau'r gwirion. Gelod penagored yw'r* Dih. 1. 14, 15.
*gwŷr cyfrwyſddrwg, yn ſugno'r meddwl yn ddiſtaw i* Dih. 4. 14.
*vffern allan o'i gôf ei hun, ac allan o gariad Duw. Ond am gwmnhi da di a glywaiſt o'r blaen faint a ddywedodd y gigfran yn i erbyn. Mae yn ſicr Efrau ymyſg y gwenith, ac mae etto wlŷdd ymyſg y llyſiau, a Judas ymmyſg yr Apostolion, a nadroedd dwfr ymyſg y pyſcod, Ond er hynny Gwae a wrthodo dda am fôd drŵg wrth ei yſtlys, a gwae a gamgymmero y naill am y llall.*

*Eryr.* Ond ni welafi etto vn Eglwys bûr i mi i vno gyda hi: Nid oes vn yn gwneuthur daioni, nag oes vn. (ac er hynny mae vn a hwnnw meddi yw Chriſt.) Ond dywaid y gwîr ſydd dan y llenn, Onid yw'r Eglwyſydd newyddion ymma cynddrwg a'r eglwyſydd plwyfol gynt?

Colomen. *Mi ddywedais o'r blaen fôd llawer yn medru lleiſio fel colomennod, ac fel cigfrain hefyd. Mae yn yr eglwyſydd lawer o adar eraill, mae'r wyddwalch, a'r forwennol, a'r barcud, a'r gog, a'r gwalch, a'r dylluan, a'r gogfran, a'r biogen, a'r gornchwigl, a'r*

Lefit. 11. *yſtlym, a'r crŷr, a'r nôs frân, a'r fulfrân, (a'r cyffelyb*
*bobloedd) a'r rhai hyn wrth y gyfraith adar aflan*
*ydynt oll. Mae hefyd yſbryd y golomen yn ei myſg yn*
Act. 7. 51. *yr eglwyſydd, ond mae yſbryd y bŷd yn taflu cerrig*
*atti.*

*Eryr.* Ond beth a ddywedi am yr yſcuthanod a'r cyffelyb rai ſydd yn debig i chwi eich hunain?

Colomen. *Nid yw Moeſen yn i galw nhwy yn*
*aflan, er bôd gwahaniaeth. Nid wyf finnau yn i barnu,*
*Ond yn dwyn ar gôf, nad ſidan yw'r carth meinaf,*
Barn. 12. 6. *nid aur pôb diſclair, Nid Gilead yw Ephraim, Nid*
*Aſhdod yw Sion, ac nid gwiw nofio a boddi wrth y*
Act. 26. 28. *lan, Nid gwell rhedeg, a blino cyn diwedd. Nid nes*
Mat. 24. 13. *dŷn er iddo gychwyn o'r Aipht a chael i lâdd yn y*
*diffaethwch drwy anghrediniaeth. Roedd gan Iach-*
Joan 7. 3. *awdur y bŷd rai ceraint yn ôl y cnawd ai gwatwarent*
*ef, Mi ddywedais, fôd Duw wedi rhodio drwy dair*
1 Bren. 6. *Teml yn barod, ſef y Deml ynghaerſalem o waith Salo-*
*mon, (a honno oedd dywyll i'r yſbryd a diſclair i'r*
Joan 2. 21. *cnawd) yr ail oedd Teml corph y mâb a ddiniſtriwyd,*
*ac a gyfodwyd yn ogoneddus yſbrydol; y drydydd oedd*
Act. 2. *yr eglwys wych ymrheſenoldeb Duw gyda'r Apoſtolion;*
*a'r eglwys neſaf yw Caerſalem newydd, yr hon a*
Dat. 21. 10, *gynnwys ynddi yr hên deſtament a'r newydd, ac eiff tu*
12, 14. *hwnt i'r ddau.*

*Eryr.* Ond (yn bennaf peth) dangos i mi beth yw'r bedwaredd Deml, Canys mi welaf bawb agos wedi blino ar y temlau a'r gwaſanaeth ſydd etto.

Colomen. *Y Deml olaf yw Duw mewn dynion yn*
Dat. 21. 22. *ymddangos, a dynion yn ymddangos yn ei enw yntau,*
Tit. 2. 13. *Pan fo dynion yn addoli Duw ynddo ei hunan, ac nid*
*mewn cyfarwyddyd dynion, a Duw ei Hunan yn oll yn*
1 Cor. 15. 24. *oll ynddynt, ac iddynt. Canys hyd yn hyn y greadwr-*
*iaeth a gyſcododd y Creawdwr. Ond pan ymddangoſo*

*y Duw mawr fe ddiflanna y creaduriaid. Mae fo drwy bôb peth erioed, ond nid oes mo yſbrydoedd dynion ar y ddayar yn i ganfod ef etto yn oll yn oll, Ond yn chwennych y wiſg yn hytrach na'r hwn ſydd yn aros* Rhuf. 1. 24.
*ynddi. Cyn gwneuthur y bŷd nid oedd ond Duw yn ymddangos iddo ei hunan, ac wedi difa'r bŷd ymma ni* 2 Theſſ. 1. 10.
*ryfeddir nêb ond Duw. Rhai a wêl ei ddigofaint, ac eraill ei gariad ef byth. Y dyn na welodd Dduw mewn meddwl yſbrydol ni addolodd hwnnw mo Dduw ei hunan; Ond yſbryd y bŷd mawr yn ei le ef y mae y* Joan 4. 22, 23.
*rhan fwyaf yn i addoli. Mae'r amſer yn agos na bydd gan ddynion na goleuni, na hyfrydwch, na thywyſog, na bugail, na phorfa, na thai, na thiroedd, na meddiannau, na gorphwysfa, na chyfoeth, na gwybodaeth, na bywyd, na dim ond Duw ei hunan, ac efe ſydd ddigon, fel y dywaid y ddihareb. Heb Dduw heb ddim Duw a digon: A'r rhai ſydd yn byw heb Dduw, ni bydd ganddynt ddim pan loſcer y bŷd ymma ond ei pechodau, a'i gwewyr tragywyddol yn ei cydwybodau ei hunain. Am hynny edryched dŷn ar ba beth y mae fo yn goſod ei galon. llawer o demlau yw'r achos o lawer o ymryſonau, llawer o opiniwnau a adeiladaſont lawer o Demlau, Ond yn y diwedd ni bydd ond vn deml i'r holl rai Duwiol, ac ni bydd yr vn i'r rhai annuwiol. Teml Duw yw corph ei fâb: Teml y mâb yw ei* Col. 2. 9.
*yſbryd anfeſurol, (canys yn ei yſbryd ei hun y mae fo yn byw ac nid allan.) Teml yr yſbryd glân yw* 1 Cor. 6.
*plant y deyrnas, ai teml nhwythau yw Duw, yr hwn yw y cyntaf a'r diwethaf, ſef yr holl yn oll. Y ſawl a fynno fodloni Duw, arhoſed yn ei fâb, Y ſawl a fynno ddilyn y mâb, rhodied yn ei yſbryd. Blîn gan ddyn* Gal. 5. 16.
*gael i ddiddymmu ai ddiddyfnu iw ddiddanu, Ond y ſawl ſydd ganddo glûſt i wrando, Gwrandawed.*

*Eryr.* Di ſoniaiſt am glûſt i wrando vnwaith o'r blaen. Onid oes gan bawb glûſt i wrando?

## *Arŵydd* i *annerch* y *cymru.*

Colomen. *Mae llawer o leiſiau ynghalon dŷn. Mae*
Zach. 2. 13. *ſŵn y bŷd a'i newyddion, a'i drafferthion, a'i bleſerau,*
*a'i ddychryniadau. Mae hefyd o'r tu fewn i ſtafell y*
*galon ſŵn meddyliau, ac anhymerau, a llanw a thrai*
*cnawd a gwaed. Ac fel hyn y mae'r enaid truan (fel*
*lletty'r meddwon) yn llawn dwnndwrr oddifewn, y*
*naill chwant yn ymgoethi a'r llall, Neu fel ffair neu*
*farchnad fawr llei mae trŵst a ſiarad a bloddest yn*
*llenwi heolydd y dref oddifewn. Dymma'r achos na*
*ŵyr dyn hanner ei feddyliau ei hun, ac nad yw fo yn*
*clywed yn iawn beth y mae ei galon ef ei hun yn i*
*ddywedyd.*

*Eryr.* Ond pa fôdd y mae i feddwl dyn gael
llonydd?

Colomen. *Wrth fynd i mewn i'r ſtafell ddirgel.*
Eſay 26. *a'r ſtafell honno yw Duw ei hunan o'r tu fewn. Ond*
*tra fych di yn gadel i'r meddwl redeg allan drwy'r*
*llygaid a'r ſynhwyrau, neu yn edrych oddifewn ar*
*luniau a delwau y peth a welaist neu a gofiaist.*
Gen. 19. *Mae'r meddwl fel Lot yn gadel ei dŷ i ymreſymmu*
*ar Sodomiaid, nes i ysbryd Duw dy gipio di i mewn*
*i ymddiddan a Duw yn ſtafell y galon. A thra fo'r*
*meddwl fel hyn o'r tu allan mae diafol o'r tu fewn yn*
*rhwyſtro y meddyliau i ddychwelyd i mewn i Dduw:*
Ezec. 6. 9. *ac felly mae'r enaid truan yn rhodio oddicartref, yn*
*gweled, ac yn chwennych y naill beth a'r llall oddi allan,*
*heb weled pa fath Dduw ſydd oddifewn. Ac yr*
*awron (O Eryr) Gâd i mi ofyn i ti. A wyt ti yn*
*gofyn, ac yn dywedyd pôb peth (dybygi di) o eigion dy*
*galon?*

*Eryr.* Mae'n erbyn fy ewyllys i etto ddangos fy
holl feddwl i nêb.

Colomen. *Ond Goſod at dy galon, nad oes dim*
Luc. 12. 2. *dirgel, ar na fydd amlwg, Canys mae pôb peth o flaen*
Job 34. 21, 22. *wyneb mawr golau Duw ai Angelion, a cher bron*

*milioedd meddyliau'r gydwybod. A'r hyn a sisier yn y glûst a bregethir ar bennau'r tai ynghanol y marchnadoedd. Yr hyn a feddylio dŷn wrth orwedd ar ei welŷ a gyhoeddir yn y ffurfafen. Er cynted y dyweder gair mae fo wedi i brintio yn yr awyr, ac mae'r* Esay 29. 15.
*angelion yn i ysdyn ef i'r bŷd arall (yr hwn yw'r naturiaeth nesaf yn dy gymydogaeth.) fe ddaw i oleuni disclair yr holl ddirgel ddychmygion, a'r llen* Preg. 12. 14.
*gynghorion, a phôb bryntni cornelydd, a difyriad cnawdol, a llofrudd a lledrad a llechiad ffalster, a thywyllwch, a phôb gair segur (fel y clywaist di) i'r farn. Ond ni all dŷn roi cyfrif am vn peth o fil, er hynny rhaid yw rhoi cyfrif. Deall di hefyd fôd pôb peth ynddo ei hun yn eglur yn barod, nid oes ond cnawd, ac amser a mesur daiarol, yn rhwystro i'r naill wybod meddyliau'r llall, a phan dorrer y rhain, fe gaiff pawb weled y symudiadau sydd oddifewn. Ac yno fe gaiff pawb glôd neu gywilydd o enau Duw.* 2 Cor. 5. 10.

*Eryr.* Ond er hynny Mae llawer peth a ŵyr dŷn na ddyle fo moi ddywedyd, a llawer gwîr drŵg i ddywedyd.

Colomen. *Gwîr yw. Am hynny na ddywaid air wrth nêb oni bydd iw lês. Pam y troit dy dafod yn* Eph. 4. 29.
*ofer mewn lleferydd yr hwn a roddwyd i ti, ac nid i* Col. 4. 6.
*anifail? Ond er cyfrwysed a fo dŷn, cofied a chanfydded fôd y bŷd yn gweled peth, a'r angelion lawer, a'r gydwybod fwy, a Duw yn gweled y cwbl ar vnwaith.*

*Eryr.* Ond pa fôdd y gall vn ganfod y cwbl ar vnwaith?

Colomen. *Di weli fôd yr haul yn edrych ar yr holl wlâd ac ar bôb peth ynddi ar vnwaith, mwy o lawer* Psal. 19. 6.
*y cenfydd yr hwn a wnaeth yr haul heb yr haul. Oni chlyw yr hwn a wnaeth y glûst (heb glûst?) Ac oni*

Psal. 94. 9. *wêl yr hwn a luniodd y llygad heb ganwyll y llygad cnawdol? Ped fai dŷn yn canfod fôd y Barnwr mawr yn gweled ei holl feddyliau ai drofeŷdd ai lwybrau oddifewn ac oddifaes, ni pheche efe byth. Ond mae Luciffer yn cadw mwgwd y cnawd ar lygaid meddyliau Dyn, na chaiff ef ganfod mo hono ei hun nes i bôd hi yn rhŷhwyr.*

*Eryr.* Ai rhŷhwyr vn amser i ddyn wellhau?

Colomen. *Mae'n rhywyr i lawer y foru. Am*
Zep. 3. 2, 3. *fôd Heddiw yn rhŷ gynnar ganddynt. Ar Sawl sy'n troi, sy'n dychwelyd weithiau heb ŵybod iddo ei hun.*
Esay 65. 1. *Cafwyd fi (medd y Goruchaf) gan y rhai nim ceisiasont.*

*Eryr.* Beth os caledir calon dyn heddyw, onid yw yn rhŷhwyr iddo geisio troi y foru?

Colomen. *Y Sawl a galedir vnwaith drwyddo, ni*
Heb. 3. *chais ef byth yn iawn ddychwelyd, nes i fôd ef yn y pwll o'r hwn ni ddaw nêb allan byth.*

*Eryr.* Ond pa fôdd y caiff dŷn adnabod dydd ei iechydwriaeth.

Colomen. *Tra fo'r adar yn canu, Tra fo'r felin yn troi, Tra fo'r gwynt yn chwythu. Tra fo'r hayarn yn*
2 Cor. 6. 2. *dwymyn, Tra fo'r awr hon yn parhau. Tra fo'r meddwl yn ymgeisio, Tra fo'r gydwybod yn rhybuddio. Cyn diffyg yr anadl, Cyn cau porth y ddinas, Cyn hedeg or enaid, Cyn torri o'r edef, Cyn cwympo'r pren.*
Preg. 12. *Cyn caledu'r ewyllys. Cyn serio'r gydwybod, Cyn diffodd y ganwyll. Cyn passio y farn, Cyn i heddyw ddarfod. Cyn i'r munud ymma fyned heibio. Dychwelwch O blant Dynion. Pa hŷd yr oedwch gymmeryd bywyd?*

*Eryr.* Mae llawer yn Sôn am gael i dal ai cym-

meryd ar awr dda. Onid oes awr dda i bôb vn oddiwrth y Planedau?

Colomen. *Mae'r Planedau yn rheoli y meddwl anifeiliaidd cnawdol nes iddo fynd allan or corph oddi tan yr haul. Ond mae'r dyn difrif ysbrydol vwchlaw'r holl blanedau yn ei feddwl yn barod, er bôd ei gorph ef etto fel anifail. Ir dyn cyndyn nid oes vn awr dda, nag ir dyn nefol vn awr ddrwg.* Job 38. 33.

*Eryr.* Ond mae ein Henafiaid ni wedi dangos i ni yn y gwrthwyneb, ac mai da yw ymgroesi.

Colomen. *Nid gwiw croesi'r talcen, pan fo'r ysbryd aflan yn y galon. Mae arwydd y groes yn ynghalon y dyn ffyddlon, yn croesi ei chwantau ac yn llâdd ei natur lygredig, ac yn newid ei feddwl dyna'r Groes sy'n achub dyn rhag pôb drwg. Ond Deall nad iw'r dyn sy'n ofni Duw yn ofni'r planedau (mwy nag y mae vsdus ar y faingc yn ofni y rhai sydd dano) canys mae'r dyn duwiol yn rheoli pôb peth yn yr ysbryd gyda Duw ei hun. Ond mae'r dyn arall yn ofni ei gyscod yn fwy na Duw, am nad yw fo yn gweled drwy ffydd mor Goruchaf.* Gal. 6. 14. Hos. 11. 12 & 12. 3. Dan. 3. 16.

*Eryr.* Ond Beth a ddywedi di am y Dewiniaid a'r dewiniesau? Oni wyddant hwy lawer peth dirgel?

Colomen. *Os ymroi a wna rhai i ddiafol, fe ddengys iddynt yr hyn a ŵyr (gan ddyscu ei blant mewn malais a drŵg) Ond ni ŵyr ef ei hun mor holl gospedigaeth sydd i ddyfod arno, Am hynny mae fo yn crynnu. O'r tu arall, y rhai sydd yn ymroi i Dduw a gânt i dyscu ganddo, ac ni all yr vn drŵg gyffwrdd a hwynt, am ei bôd mewn bŷd vchel (mewn naturiaeth arall) yn rheoli gyda'r Oen, ac yn barod i farnu dynion ac Angelion. O Gwyn ei bŷd sydd wedi cael yr adgyfodiad cyntaf, canys ni all pyrth vffern ymhel ar rheini.* Deut. 18. 10, 11, 13, 15. Jac. 2. 19. 1 Joan 5. 18. Dat. 2. 11.

*Eryr.* Gwyn ei bŷd yn ſiccr. Ond mae arnai ofn fy môd i etto dan draed naturiaeth cnawd a gwaed.

Colomen. *Dymma'r amſer i ti i ymgodi i'r vchel-*
2 Cor. 6. 2. *derau, ac i ddiangc rhag y gelyn wrth redeg dan*
*groes Chriſt. Dymma'r dydd i dorri drwy'r cwbl;*
*Dymma'r awr i fôd yn ddedwydd. Ac ô na bai pawb*
*yn gweled ei tymmor, ac yn paratoi erbyn y nôs a'r*
Jer. 8. 7. *gayaf ſydd yn dyfod; Mae'r wennol ar cyffylog yn*
Eſay 1. 3. *adnabod ei hamſer, a'r ŷch yn adnabod ei feddiannudd,*
*ond mae dyn yn ffôlach na'r aſſynnod gwylltion.*

*Eryr.* Rhaid i ti ddangos yn helaethach pwy ſydd ddedwydd, a pha rai ſydd anedwydd. Canys mae llawer mâth ar bobloedd a galwedigaethau. Beth hefyd a ddywedi di am y Pyſygwyr, ac am y Gwŷr o gyfraith? Di ſoniaiſt am lawer math o rai eraill o'r blaen.

Colomen. *Mae'r pyſygwyr yn llâdd llawer corph*
*dyn drwy ei hanwybodaeth, neu o chwant arian (fel*
*y mae llawer pregethwr yn llâdd eneidieu:) Ond*
*mae'r Pyſygwŷr yn helpu rhai drwy rôdd Duw. Os*
*clâf wytti, Dos yn daer at Dduw; hefyd cais gan y*
*rhai ſydd yn y ffydd ar ffafr nefol weddio droſot ti.*
Iac. 5. *Ac os cynghora Duw di, Dôs wedi hynny at y Pyſygwr.*
*Ond na ddôs atto fo yn gyntaf rhag cael dy droi ym-*
*maith yn ddiobaith. Ac am y Cyfreithwyr, Cofia*
*mai fel ac y mae pyſygwr ffôl yn llenwi'r ſonwent yn*
*llawon gyrph meirwon, a'r pregethwr aneallus yn*
*llenwi'r Eglwys ac opiniwnau gweigion, felly y mae'r*
*cyfreithwyr annuwiol yn llenwi'r gymanfa ac ymryſonau*
*trawſion. Ac fel mai gorau cyfraith cytundeb, felly*
*gorau ffordd yw dioddef cam, a bôd yn iſel ac yn*
Mat. 5. 39, 40. *addfwyn. fe ddioddefodd Duw fwy o gam ar dy*
*law di nag yr wyti iw ddwyn oddiar law dy*
*gymydog.*

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

*Eryr.* Ond os goddeddaf fi bôb peth, Mae dynion mor anrheſymol, Nhwy dynnant fy llygaid i o'm pen o'r diwedd.

Colomen. *Diſgwil am gyfiawnder nid oddiwrth ddynion ond oddiwrth Dduw, ac di ai cei yn ddiammau. Mae'r amſer yn agos iawn yn yr hon y caiff* Pſ. 98. 9.
*pawb ei eiddo. Nid yw'r cam y mae eraill yn i wneuthur a'th di ond fel pigiad chwannen wrth y cam ar gorthrymder yr wyti yn i oſod ar wddf dy enaid dy hun. Cofia hynny cyn mynd i'r gyfraith er dim. O mor chweinllyd anioddefgar yw llawer? Mor barod i'r gyfraith? mor amharod i'r efengyl? yr hon a ddyſg ddyn i roddi ei gochl i'r Sawl a ddycco ei fantell cyn cynhennu: Canys gwell yw dioddef y cam mwyaf, na bôd yn y gynnen leiaf. Ond bôd fel oen mûd dan law y cneifwyr, a mudan gwirion byddar* Eſay 53. 7.
*ym myſg y cyhuddwŷr.*

*Ond gwae chwi'r cyfreithwyr, mae cyfraith a'ch yſſa: Gwae'r cynhennus mewn gwlâd, Pentewynion* Iac. 3. 16.
*vffern ydynt. Gwae chwi Byſygwyr llofruddiog, mae llawer o'ch wedi mynd i'r lan arall yn eich erbyn.* Iob 20. 15.
*Gwae chwi wŷr trawſion, yn llyngcu cyfoeth, Rhaid i chwi chwdu'r cwbl gyda'ch gwaed eich hunain.*
*Gwae chwi yr vchelwŷr drwg ei ſiamplau, yn lluſco* Pſal. 10. 9, 10.
*y tlodion ar eich ôl i ddeſtryw. Pa fodd y rhowchwi* Job 24. 9.
*gyfrif am eich tenantiaid truain? Beth a ddaw o honochwi pan dorrer a phan loſcer pôb peth vchel?*
*Gwae bob pren mawr a phob pren bychan ar nad yw'n* Eſai. 2. 12.
*dwyn ffrwyth da. Mae'r tân wedi ennyn ynghymru,* Math. 3. 10.
*Mae drws dy fforeſt di (ô wlâd y Bruttaniaid pre-* Zach. 11. 1.
*ſennol) yn agored i'r eirias dân. Ac hefyd mae'r fwyall ar dy wreiddyn di. Oni ddygi yr awron ffrwyth da, fe a'th dorrir rhag bôd yn bobl. A Gwae chwi'r oferwyr,* Preg. 11. 8, 9.
*ſy'ngwario ei hamſer, ai hiechyd, ai harian, ai meddyliau* Job 11. 11.
*tragwyddol mewn oferedd. Gwae di lafurwr anwyb-*

Job 24. 5. odus. Dy holl waith yw cloddio'r ddayar ai thrîn, a
throi'r anifeiliaid yn y mynydd, ac nhwy a gymmerant
i troi gennit ti, Am hynny, tyſtion ŷnt yn dy erbyn.
Dih. 6. 13, 15. Gwae di Ddarllenwr cyfrwyſddrwg, yr hwn wyt yn
chwilio llyfrau i ganfod lluniau neu feiau. Fe genfydd
Math. 23. y Gwirionedd dy feiau di ac a'th farna. Gwae di Rag-
rithiwr yr hwn wyt yn ofni golwg dyn. Nid wyti yn
ofni pechu yn y dirgel, Di gei dy farnu yn yr amlwg.
Gwae di Gardottyn heinif, ſegurllyd, na fynni weithio
er llês i nêb. Llês ni cheiſi, llês a golli. Gwae di gyd-
Dih. 19. 15. wybod gyſclyd yr hon (fel ci mûd) wyt yn bradychu
Dih. 6. 10. dy berchennog, mae amſer hîr i ti i vdo. Gwae chwi
ſy'n ymgyrchu ir dyrfa (yn hoyw eich ysbrydoedd) yn
Jag. 5. 5. bwytta ſiwgwr chwant y cnawd yngyrfa diafol, ac yn
carowſio eich eneidiau. Ar fyrder ni bydd defnyn o
Jer. 51. 39. ddwfr i ti iw gael i oeri blaen dy dafod. Gwae chwi
foneddigion drwg ſy'n llyfu chwŷs y tlodion, yn peri
Amos 4. 1. ich tenantiaid ochneidio, ac yn torri ei heſcyrn. Mae
Mic. 3. 3. amſer eich gwaſgfa chwi yn pryſſuro heb oedi. Gwae
chwi offeiriaid mudion yn caru llwynogod, yn cyfarth
defaid, cŵn deillion chwerwon, beilchion, diog, gwang-
Eſay 56. 11. cus, chwrnllyd, cyſglyd, llydlyd, drewllyd. Fe ach
Jer. 23. troir chwi oll allan or eglwys. A gwae chwi holl
Math. 5. hên Gymru ſydd etto heb i hadnewyddu. Ond Gwyn
Zach. 10. 1. eich byd chwi ſy'n hiraethus am Dduw, chwi gewch
Pſal. 1. 3. Jer. 29. 13. eich llenwi ac efo ynddo iddo. Gwyn eich byd chwi
rai diwyd ffyddlon parhaus, chwi a gewch fendith ar
eich gwaith. Gwyn ei byd y Gweddiwyr diragrith,
nhwy a gant i gwrando bôb amſer. Gwyn ei byd ai
gwadant ei hunain, ni wâd Duw mo honynt. Gwyn
Mar. 4. ei bŷd a gywir hauant wenith Duw, hwy gânt fwyn-
hau cnŵd yſbrydol. Gwyn ei byd y rhai ysbrydol,
Pſal. 25. 14. canys gyda nhwy y mae cyfrinach Duw. Gwyn ei byd
y gwiliadwrus, ni chaiff diafol afel arnynt. Gwyn ei
Pſal. 27. 14. byd y diſgwilwyr diſtaw, fe ymwêl yr Arglwydd Ieſu
Galar. 3. 26, 31. a hwynt. Gwyn ei byd y rhai a ddioddefant dros yr

*Oen, gyda'r Oen y teyrnasant. Gwyn ei byd y rhai a* 2 Tim. 2. 12.
*ddihunwyd ac a ddihun-anwyd, Byw a wnant yn Nuw*
*ei hunan. Gwyn ei byd a barhânt hyd y diwedd mewn*
*daioni, Anrhaethadwy yw ei cyflog hwynt. Gwyn ei* 1 Joan 3. 24.
*byd y llêsg gostyngedig torredig ei calonnau, canys* Dat. 2. 10.
*ynddynt hwy yr erys Duw. Gwyn ei byd y diniwed,* Esai. 57. 17.
*ni all neb i niweidio. Gwyn ei byd blant bychain* Phil. 2. 15.
*Duw, mawr yw ei ofal am danynt. Gwyn fyd weision* 1 Joan 2. 12, 13.
*grymmus y Tâd, eisteddant i wledda, ar Oen ai gwasanaetha. Gwyn ei byd y rhai bodlon dioddefgar, nid oes dim a all i cythruddo. Gwyn ei byd a arhosant yn isel nhwy a godir yn vchel. Gwyn ei byd a nosiant yn erbyn ffrŵd naturiaeth, nhwy ddônt i'r môr llei mae'r ysbrydoedd sanctaidd. Gwyn ei byd a wnelont bôb*
*daioni ar a wypont, nhwy gânt wybod a fynnont, a* Joan 7. 17.
*nerth newydd fel Eryrod. Gwyn ei byd a rodiant*
*gyda Duw (fel* Enoch) *Duw ai geilw ac ai derbyn o* Heb. 11. 5.
*fysg dynion. Gwyn ei fyd y meddwl pûr llonydd, fe*
*edwyn hwnnw Baradwys a phren y bywyd. Gwyn ei* Math. 5. 8.
*fyd a ymprydio oddiwrth gnawdoliaeth, fe gaiff fwytta Manna Duw. Gwyn ei fyd a wrthodo holl bleserau'r*
*cnawd, efe a ŷf o afon Duw. Ac (mewn vn gair) Gwyn* Dat. 21. 7.
*ei fyd yr ailenedig. Hwnnw a anwyd i etifeddu pôb peth. Duw sydd yn Dâd iddo, ac yntau yn blentyn anwyl i Dduw. Yr oen fydd ei oleuni, ac yntau fydd*
*oleuni yn yr Arglwydd. Ni all dim i ddrygu, ond* Dat. 7. 17.
*pôb peth a gŷdweithia er lles iddo. Pan na allo ddal* Eph. 5. Rhuf. 8. 28.
*ei afael ar Dduw, fe ddeil Duw ei afael ar ei hâd ynddo ef. Fe gaiff orphwys byth ynghalon Duw (yr hon yw ei fâb) pan so llawer eraill byth yn ffrio ar y llechau duon tanllyd, yn farw heb fyw, yn fyw heb farw yn dragwyddol. Ond ni all yr ail angau niwed i'r ailenedig, ac nid oes dafod angel a all gyfrif yr holl drysorau sydd ynghadw yn Nuw cyn dechreuad y bŷd*
*i'r enaid hwnnw. Ond efe ai cenfydd ac ai caiff, ai* 1 Cor. 2. 9.
*waith ef fydd i cyfrif ai mwynhau yn dragwyddol.*

*Wele'r awron, Dymma'r felldith a'r fendith. Wele dymma fynydd Ebal a mynydd Garizim. Dymma angau ac fel dymma fywyd. Dewis di (o ddyn) fywyd ac nid angau.*

*Eryr.* Dywaid i mi. Pa fodd y cymmerai afael ar y bywyd?

Colomen. *Mae'r addewid yn perthyn i ti wrth dy henw os cedwi afael ynddi. Dy enw di (wrth naturiaeth) yw, Drygddyn, Anuwiol, y pechadur*
1 Tim. 1. 13. *ffiaidd, creulon, Carcharwr, Dall Byddar, Ir rhain wrth ei henwau yn yr yscrythur y mae gair yr addewid.*
Rhuf. 4. 5. *Je er bod yr enaid yn wann heb allel cymryd gafael ar*
Dat. 3. 17, 18. *y cyfammod, fe gymmer cyfammod Duw afael ar yr*
Mat. 12. 21. *enaid. Canys yn enw'r mab y Caiff y cenhedloedd ymddiried. Ac os dywedodd ef y Cai di lynu yn y mab. Beth er dywedyd or gelyn na chai di? Nid gair y gelyn a Saif.*

*Eryr.* Attolwg Dangos i mi, Beth yw'r cyfammod newydd?

Colomen. *Cytundeb rhwng Duw ai fâb dros ddyn, a rhwng Duw a dyn drwy waed yr Oen. Cariad yw*
1 Joan 4. 10. *Duw ac Ewyllys da at ddyn. Ac er darford i Ddyn i*
Rhuf. 5. 8. *adel ef, a dewis y cythrel yn dywysog iddo yn ysbryd y bŷd mawr ymma, etto fe a glywodd Duw arno gymryd i fâb (ai galon anwyl) oi fonwes, ac fe ai*
Joan 12. 24. *rhoddodd i farw (fel gwenhithen yn y ddayar) i borthi*
Rhuf. 8. 32. *llawer. Rhodd fawr anrhaethol yw Christ, a rhodd fawr yw llaw ffydd iw dderbyn, Ni all neb i phrynnu*
Esay 55. 1. *ond fe all y tlottaf i derbyn. Llawer a ddywedir ynghylch y cyfammod newydd, ac am hynny ni ddywedafi ond hyn yr awron. Mai drwy rinwedd hwn*
Can. 2. 16. *y mae'r pechadur yn eiddo Christ, a Christ yn ei eiddo yntau: mae Duw yn ymroi drwy Ghrist i ddyn, a dyn yn rhaid iddo ymroi drwy Ghrist i Dduw. Ac felly*

*mae pôb peth ar ſydd gan Dduw (oll yn oll) yn eiddo dyn, ac eiddo dyn pechadurus, ſef ei holl ewyllys ai feddyliau yn eiddo ysbryd Duw. Eiddo fi (medd y Tâd wrth Ghriſt) yw'r eiddot ti. Ac medd yntau wrth y pechadur, Eiddo fi yw holl eiddo'r Tad, ac eiddo ti yw fy eiddo fi, am heiddo fi wyti o ddyn. Myfi a'th brynnais. Rhaid i mi dy gael a'th gymryd. A rhaid i tithau gael ffydd gennifi i'm cael ac im cymryd innau. Dyma ſwm y cyfammod newydd.* Joan 17. 6, 10.

*Eryr.* Ond beth yw'r ffydd ymma y ſonir am dani ?

Colomen. *Ysbrydoliaeth ryfeddol, nid yn unig i gredu mai'r Jeſu yw Chriſt, Ond hefyd mai'r Chriſt ymma yw anwylyd a Brenin a Bywyd dy enaid ti : a darfod i'r Jeſu farw droſſoti i fyw ynoti, ac ith ddwyn yn ddioed at Dduw i'r gwreiddyn yn y drindod nefol, or hwn yr ehedodd dyn allan drwy gwymp Adda. Pan fo'r enaid yn canfod hyn iddo ei hun, ac yn cynnwys hyn ynddo ei hun, Dyna ddyn yn credu ychydig. Dyna ganwyll yn dechrau goleuo. Ni ddiffoddir mont.* Eph. 2. 8. Joan 20. 28. 1 Pet. 3. 18.

*Eryr.* Ond pam yr wyti mor fynych yn dywedyd mai Chriſt yw calon Duw'r Tâd ?

Colomen. *Am mai ef yw bywyd, a dirgelwch, a doethineb, ac anwylyd a chyntaf a diwaethaf, a phennaf ei Dâd (fel y mae calon mewn dyn.) Ac nid oes yn ei galon ef ond ewyllys da tuag at bawb, heb ewyllyſio fôd neb yn golledig. Er hynny pan wnelo dyn ddrwg yn erbyn Duw mae fo yn barod i feddwl yn ddrwg ac yn galed am Dduw, ac nid am dano ei hun, fel ped fai'r Goruchaf ar y bai ac nid dyn.* Joan 1. 18. 1 Cor. 1. 24.

*Eryr.* Er i ti ddywedyd mai da yw Duw, nid wyfi yn credu nad oes digter ynddo tuag attaf fi ?

Colomen. *At dy gnawd y mae digter, (a gwir yw*
Pſal. 99. 8. *hyn) Rhaid i ti adel iddo ddifa dy gnawd, rhag ith*
*gnawd ti ddifa dy ysbryd, Ond at dy ysbryd nid oes*
*ond cariad. A oes dim tywyllwch yn yr haul? neu*
*eiſiau ar berffeithrwydd? A wnaeth Duw niwed i*
Job 36. 23. *ti erioed? Ond oddiwrtho ef y cefaiſti bôb daioni?*
*Ond efe a'th achubodd di oddiwrth lawer perigl?*
Exod. 34. 6, 7. *Ond hîr y cŷd-ddygodd ef a'th di, er i ti boeri dy bechod*
*beynydd yn ei wyneb ef? Ond efe a roddes y bŷd ai*
*bobl ai fab ai fibl o'th flaen di, a llawer rhybudd*
*cariadus i ti? A wyti (wedi'r cwbl) yn tybied mai*
*meiſtr caled yw? Nid yw fo yn ceiſio genit ti ddim*
*ond y peth ſydd dda ar dy lês dy hunan. Dywaid*
Barn. 13. 23. *dithau fel y dywedodd gwraig Manoa. Pe buaſe*
*Duw ar fedr ein lladd ni, ni buaſe fo yn gwneuthur*
*cymaint droſom ni. Nid amſer yw hi yr awron i*
*ddigalonni. Wele, mae'r dydd yn codi yn ddiſclair, ar*
*Seinctiau yn gweiddi Hallelujah, ar pechaduriaid yn*
*deffroi, ar anifeiliaid drwg yn rhedeg iw llocheſau,*
*ar blodau yn tarddu, ar haf mawr yn agos. Cyfod*
*tithau i fynu yn galonnog, Roedd gan Dduw feddwl*
*da attat ti pan ordeinie ef i ti gael byw yn y fath*
*amſer a hwn. Ni wyddoſt ti nad oes gan Dduw*
*ddefnydd mawr mewn cariad iw wneuthur ath di yn*
*dy genhedlaeth. Gwîr yw y mynnai Diafol i ti*
*feddwl yn ddrŵg am Dduw (i fôd ef yn dy gaſhau*
*di,) fel y mae fo ei hunan. Ond Cofia i Dduw*
*gymryd gafael nid ar natur angelion ond ar natur*
Heb. 2. 16. *dynion, yn Hâd Abraham ac nid yn hâd Luciffer.*
*Dywaid ti yn dy galon. Drwy nerth Chriſt tra*
*fyddwyf byw, mi feddylia'n dda am Dduw. Er iddo*
Job 13. 15. *fy llâdd i, mi a lynaf wrth ei draed ef. Ac os daw*
*meddwl i mewn (fel pellen danllyd) oddiwrth ddiafol*
*Tafl hi yn fuan allan eilwaith at ei thâd, ac yno nid*
*dy eiddo ti ond eiddo'r gelyn yw'r fâth feddyliau*
*diffaith ar rheini, nid yw Satan ond fel Ceiliagwydd.*

*Gwrthwyneba fo yn dy galon, ac fe a ddiangc oddiwrthyt. Swm dy holl ddlêd ti yw meddwl yn dda am Dduw, ac yn ddrŵg am dy feddwl dy hunan, canys daioni yw ef, a nŷth drygioni wyt tithau. Gwna hyn nes i ti garu Duw yn anŵyl ddigon, ath gaſhau dy hunan yn anghymodlon fel y dylit.* Jac. 4. 7.

*Eryr.* Ond yr wyfi yn clywed beynydd ryw ſŵn ynof, Mai cyfiawn yw Duw, mai cyfyng yw'r porth nefol, mai colledig yw'r rhan fwyaf, mai aml yw y rhagrithwyr, Mai anaml yw addolwyr y Tad, mai taer yw'r gelyn, Mai diarfog yw dŷn, Mai mynych y cwympais i fy hunan, Mai digymmar yw fy mhechod, ac mai cant i vn y cai fŷth fôd yn gadwedig.

Colomen. *Dymma'r atteb. Wele mae'r drŵs i'r bywyd yn agored etto. Na fydd ddiofal. Di elli* Efay 65. 1, 2.
*etto fyned i mewn i'r plâs gogoneddus tragywyddol. Mae gwâedd oddiwrth Dduw drwy'r holl wlâd yn gwahadd pawb i mewn er trymmed yw ei pechodau ac* Mat. 11. 28
*er amled fu ei cwympiau. A phan ddelych yn dy ewyllys i mewn at Dduw, fe a rydd i ti arfau i ymlâdd ar ſarph, ac a'th wna di yn daer i dynnu i* Eph. 6
*lawr wrŷchoedd gardd y cythrael ynoti ac yn y bŷd. Ac fe a ddyſg i ti addoli'r Tâd ei hunan yn ei yſbryd* Joan 4. 24.
*ai wirionedd ei hunan, drwy garthu allan y rhagrith a'r ffalſfeddwl, Ac yna di gei ŵybod dy fôd ti mewn cyflwr cadwedig, wedi myned drwy'r porth i mewn i gyfiawnder Duw'r hwn ſydd eiddo pôb vn ar ſy'n* Rhuf. 3.
*nefol gredu efengil Duw. Canys nid o ddyn ond o Dduw y mae iechydwriaeth.*

*Eryr.* Mae hyn yn gyſſurus iawn, ond er hynny mae rhyw beth o'r tu fewn yn fy llâdd i. Beth a wna vn colledig? A oes dim help iddo?

Colomen. *Rhaid yw dy lâdd di cyn dy iachau, a'th* Hof. 6. 1.

*golli cyn dy gael. Ac fel y daeth Immanuel o vwchder nef i waelod vffern, felly i ſwydd ef yw codi llawer o waelod Gwae i vwchder Gwynfyd. Mi adwaenwn vn y daeth Diafol atto, gan ddywedyd. Colledig wyt. yntau a attebodd. Gwir yw hynny. Ond (ebr ef) Gwir yw hyn hefyd. ddyfod Chriſt i gadw'r colledig. Dal dy afael ar yr edef honno. fe goſtiodd i Ghriſt ei fywyd i nŷddu hi i gadw dy fywyd ti. Carwr y*
Mar. 2. 17. *pechaduriaid pennaf yw'r Arglwydd Goruchaf.*

*Ac os coch fel ſcarlat yw dy bechodau, efe ai gwna*
Eſ. 1. 18. *yn wynnach nar eira. Mae ei yſbryd ef megis ſebon*
Mal. 3. *y golchyddion yn carthu allan y llwgr dyfnaf. Ac fel y mae'r mâb yn rhâd, felly mae'r yſbryd hwnnw yn*
Pſ. 51. 12. *rhâd hefyd. Gofyn ac di ai cei. Hwn a eſyd yr olaf*
Luc. 11. 13. *yn gyntaf a'r bryntaf yn lanaf. Hwn a gymer wiail newyddion i'th geryddu di (yn dy gydwybod) allan o honot dy hunan. Ni fyn ef i ti fôd yn vn or baſtard-*
Heb. 12. *iaid, ond yn vn o wir hiliogaeth Duw; ac er mwyn hynny mae fe yn dy geryddu. Ac er cynted vnwaith y gwelych di waelod vffern dy galon dy hun, ac vwchder cariad Duw, a rhyfeddodau Paradwys, a chanfod Beth wyti, Beth a fuoſt ti, a Beth a fyddi di byth, ie meddaf pan ymglywech vnwaith ac eli ac olew ſerch mwynaidd y Duw tragywyddol, yn iachau briwiau'r*
Pſ. 147. 3. *galon ar gydwybod, yna di weiddi allan. Hallelujah: Moliant Duw a leinw'r hollfyd; pwy ſydd debyg iddo? Iddo fo bo'r moliant. Duw a doddodd fynghalon galed i, ac am dyſcodd i yn ſiriol i ganu iddo gydai holl ſeinctiau mewn yſbryd a nerth.* Duw am carodd,
Pſal. 40. 2, 3. Duw a'm cofiodd, Ceiſiodd, cafodd, cadwodd, cododd. Haul fy mywyd drwy farwolaeth, ffynnon fy yſbryd: Swm fy hiraeth, Gwreiddyn bŷd, a phen angelion. Tâd fy Arglwydd Carwr dynion, Ac o hono, drwyddo, iddo, mae pôb peth: Pwy all i chwilio? *Ond pan fych di llawenaf fel hyn ym*
Pſal. 2. 11. *mharadwys Duw, yno Gochel fwyaf rhag i'r Sarph*

*genfigennus ddyfod attat a dywedyd wrthyt. Di elli* 1 Pet. 5. 8.
*yr awron fôd yn ddiofal. Mae pôb peth yn dda. Gollwng i mewn dy chwantau cyfreithlon naturiol ynot i ymgymmyſgu ar deiſyfiadau nefol, ac wrth hynny (medd y ſarph) di gei'r ddau ynghyd.*

*Ond dymma'r gwir, Wrth hynny di golli'r yſbryd* Pſal. 30. 6, 7
*pûr ar golomen, ac yn i le fe ddaw'r gigfran i mewn,*
*a'r llu o feddyliau duon amheus, anfodlon, temheſtlog,* Hoſ. 2.
*ac yno Rwyti yn cwympo oddiwrth dy gariad ath* Jac. 4. 4.
*briod cyntaf ac megis yn colli dy fywyd ath oleuni anwyl ac yn putteinio yn dy feddwl gydag yſbryd mawr y bŷd hwn, yr hwn hefyd ſydd yn chwennych dy enaid tithau iw feddiant. Ni bu ddyn anllad erioed yn chwennych morwyn brydferth, cymaint ac y mae*
*yſbryd y bŷd hwn yn chwantu dy enaid di, Canys fe* Jac. 4. 4.
*ŵyr bywyd naturiaeth i Dduw wneuthur dy yſbryd di ar ei lun e hun, i fod yn forwyn iddo ei hun. ac na ddylit ti ymlygru gydag vn creadur. Ac am hynny*
*os cefaist ti vnwaith flas ar air Duw, Gochel i golli, a* Heb. 6.
*mynd yn buttain yn dy feddwl i chwantau diafol, ar cnawd brwnt, ar bŷd byr ymma.*

*Eryr.* Ond beth os cwympa dyn oddiwrth y gofal ar hiraeth ar cariad cyntaf? A oes dim gobaith o hwnnw?

Colom. *Coded hwnnw yn fuan. Cofied mai gwêll*
*yw bôd ymmreichiau mâb Duw nag ymdrybaeddu yn y* Hos. 2. 7.
*cnawd. Gochel galedu dy gydŵybod wrth i mynych* Ezec. 16.
*dwymno ai hoeri. Mae dy reſwm di (ô Ddyn galwedig) fel neuadd wedi i hyſcubo ai threfnu ai gol-*
*euo, Gwilia rhag i ſaith yſbryd naturiaeth lygredig* Luc. 11. 24.
*ddyfod i mewn eilwaith, rhag ir diwedd fôd yn waeth*
*na'r dechrau; Drŵg ac erchyll yw dechreuad pechadur* 2 Pet. 2. 20.
*wrth i eni ir bŷd, ond mae diwedd rhai yn waeth wrth i geni or bŷd. ô Cymmer ofal rhag i'th ganwyll ddiffodd ar y ddaiar, rhag na bo goleuni ynot i ddangos*

Psal. 13. 3. 1 Cor. 16. 13. Dat. 2. 25. *i ti i ba le yr ei di wrth farw. Ond bydd ŵrol; Cynydda mewn gwybodaeth a gostyngeiddrwydd a hyfdra gyda Duw. Dal y daioni a gefaist. Gâd ir hedyn mwstard hedeg a thyfu ynot. Cadw allan y drŵg, a Gwaedda am help, ar Achubwr a nesha attat. Cofia weision Duw gynt, er amled oedd ei gwendid yr oedd ei meistr yn rhoi henwau parchedig arnynt. Sef, Noah berffaith, Abraham ffyddlon, Lot gyfiawn, Job ddioddefgar, Davydd llun calon Duw, Jonah y prophwyd, a Moses addfwyn (yr hwn pan ddigiodd seithwaith fe a bechodd vnwaith). Am hynny, ymdaro di yn lew ar gelyn yn nerth yr Oen. Cymmer gleddyf llym angau Christ i ddarnio'r Sarph, ac i lâdd yr hên ddyn ynot. Os cwympaist, Cyfod, Ac os codaist Gochel gwympo. Nid rhaid i ti ymgadw rhag dim ond rhag y Pechod yr hwn yw gelyn Duw, a gefail diafol drwy'r hon y mae fo yn cymryd gafael ar y meddwl.*

*Eryr.* Adolwg Dangos i mi yn eglurach, pa beth yw pechod.

1 Joan 3. 4. Colomen. *Pechod yw troseddiad y gyfraith, Amhuredd y creadur, croesineb naturiaeth yn erbyn Duw. Gwrthwynebrwydd iw ewyllys sanctaidd ef. Pechod*
Esay 55. 2. *yw pan fo'r meddwl yn chwilio am fodlonrwydd lle nid yw iw gael. Rhaid yw deall mai drwy bechod Adda y torrwyd naturiaeth yn ddarnau, ac mae Duw drwy'r darnau hyn (sef drwy bôb peth) yn Bôd. Ar pechod*
Lu. 15. 16. *yw ceisio dedwyddwch yn y darnau hyn ond nid yn Nuw. Mae'r dŷn glwth yn chwilio am y daioni mewn*
Phil. 3. 19. *bwyd, ar meddw mewn diod, ar balch mewn dillad neu ddoniau'r meddwl. Hefyd mae'r gwryw ar fenyw yn tybied fôd y perffeithrwydd yn y naill y llal, ac yn mynd drwy fryntni (o flaen wyneb golau Duw) yw geisio, ond yn lle i gael yn cwympo ill dau i ffau y cythreuliaid. Canys nid mewn vn creadur, nac yn yr holl greadwriaeth y mae'r trysor ar blodeuyn Daioni.*

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

*Mae'r wybren ar ddaiar, ar môr yn llefaru, Nid yw ynom ni. Mae'r defnyddiau ar dyfnderau, ie ac amser hefyd yn dywedyd. Nid yw ynom ninnau. Di elli gael y rhain heb gael Daioni, er i fôd ef yn ymguddio drwy'r cwbl ym mhreswyliwr tragywyddoldeb. Mae chwantau'r meddwl fel saethau, Pôb vn ar sy'n mynd heibio i Dduw pechod yw: ô mor aneirif iw'r rheini? Ac ni all dyn ond pechu tra fo ef yn aros ynghanghennau naturiaeth, Hynny yw yn llygadrythu ar y naill beth ar ôl y llall, heb ddychwelyd ir vndeb, yr hwn yw Duw ei hun. A chymaint o ddyn ac sydd yn ysbryd Duw, cymaint a hynny sydd heb pechu. Ac yn fynnych mae enaid dyn yn pechu pan fo ei ysbryd ef yn ymgadw yn bûr.* Job 28. Psal. 51. 6.

*Eryr.* Roeddwn i gynne yn barod i ffeintio, ond yr awron mae ynof beth nerth, (a chefn a chalon) i ymofyn ymhellach cyn ymadel. Adolwg dangos Beth yw y rhagoriaeth rhwng yr enaid a'r ysbryd yn yr vn dŷn?

Colomen. *Ysbryd dyn yw'r tryssor mawr, ar enaid sydd megis llong iw ddwyn o'r naill ir llall. Ysbryd dŷn yw'r castell, ar enaid sydd fel tref oi amgylch. Yr ysbryd yw cynhwyllin y meddyliau, ar enaid yw plyscyn y rheswm oddi allan: yr ysbryd (medd yr yscrythur) yw'r mêr, a meddyliau'r enaid yw'r cymalau. Ysbryd dyn yw gwreiddyn y pren a rhesymau'r enaid yw'r canghennau. Mae enaid ym mhôb peth byw, a math ar ddeall gan anifail, Ond nid oes ysbryd anfarwol mewn dim ond mewn dynion ac angelion. Yr enaid y mae dyn yn ei lun ei hun yn i genhedlu, ond Duw yw Tâd (ac nid Taid) yr ysbryd. yr enaid rhesymol yw hwylbren dyn ond yr ysbryd yw llyw y llong. Weithiau mae ysbryd dyn yn rhodio (fel Dina) allan yn rhodfeydd yr enaid, ac yno mae gwynt ysbryd y bŷd hwn yn i gipio, Ond mae ysbryd dyn naturiol yn* Heb. 4. 12. 1 Thess. 5. 23.

Luc. 15. 17. *waſtad allan o hono ei hun fel y mâb afradlon nes*
*dychwelyd, yn cael i ddwyn ynghertwyn y cythrael, ac*
Eph. 2. 2, 3. *yn dilyn ei chwibianiad ef yn y cnawd. Mae'r yſbryd*
*fel tŷ Lot ar enaid yn cnawd fel heol Sodom. Ac*
*fel y mae rhagoriaeth rhwng anadl dyn ai feddwl,*
*felly y mae rhwng yr enaid ar yſbryd. Yr yſbryd*
*yw neuâdd yr enaid, a'r enaid yw porth yr yſbryd.*
*Dymma'r yſbryd (yn angau'r corph) ſydd yn eſcyn i*
Preg. 3. 21. *fynu at gadair preſwyliwr tragwyddoldeb, pan fo enaid*
*anifail yn deſcyn i lawr, canys gwaed yw.*

*Deall hyn hefyd, wneuthur o Dduw ddyn ym*
Pſal. 139. *merion pôb creadur (megis cynhwyllin y bŷd mawr.)*
*fe anadlodd Duw oi enau ei hun ei anadl ynddo iddo,*
*a hwnnw a bery byth. Ei yſbryd naturiol ſydd drwy*
*gŷd-gynhulliad y ffurfafen, ai gorph or pedwar defnydd.*
*Mae dŷn Duw yn gyfrannog ar ſer mewn tegwch, ar*
*planhigion mewn tyfiant, ac ar anifail mewn ſynhwyrau*
*cnawdol (y rhai yw'r enaid naturiol:) yn gyfrannog*
*hefyd ar Angelion mewn deall tragywyddol, ac a*
*Chriſt yn y natur nefol. Na chymer di moth dwyllo*
*gan dwyllwŷr yr oes hon, ac na fydd ddierth i ti dy*
*hun.*

*Di weli ynot dy hun ddau fâth ar feddyliau. Rhai dyfnion cuddiedig pwrpaſol dewiſedig anwyl (fel aur yn y meddwl.) Mae rhai eraill yn gwêu i mewn ac allan drwy'r meddwl, fel dynion mewn llettŷ, ond nid ydynt yn aros ynddo. Di weli hefyd fôd y naill feddwl ynot yn gwrthod y llall; ath fôd ti yn meddwl llawer peth yn erbyn dy ewyllys. Gwybydd gan hynny, Agor dy lygaid a Gwêl, mai gwreiddyn yr ewyllys yw dy yſbryd, ac mai'r llall yw cyfraith dy aelodau. Mae'r enaid yn y bŷd ymma yn ſefyll yn y corph, ar yſbryd yn llechu yn yr enaid. Pawb ſy'n gweled corph dyn, a llawer ſy'n canfod yſcogiadau yr enaid, Ond ychydig yn dirnad yr yſbryd dirgelaf, ſef gwaelod y galon. Ni wel nêb hwnnw ond yſbryd Duw, yr hwn ſydd yn chwilio*

*pawb. Ymhellach; fel mai'r corph yw cyſcod yr enaid, ar enaid yr yſbryd, felly di elli weled fel y mae dy yſbryd di yn bwrw'r holl ymporion (yr holl feddyliau naturiol) fel gwagedd a gorthrymder yſbryd i breſeb yr enaid, ar enaid yn bwrw yr ymborth corphorol i hopran y corph. Mae tair néf yn gweithio ar dair rhan dyn, yr iſaf ar ein cyrph (fel y gwelwn beynydd) y ganol ar ein hen-* Job 38. 33.
*eidieu, ar vchaf ar ein hyſbrydoedd. Yn yr yſbryd enaid a chorph yr ymddangoſodd Duw ac y pechodd dyn, ac y dioddefodd Chriſt. Mae rhinweddau dyn naturiol yn ei enaid, ai bechodau yn ei yſbryd, Mae rhinweddau dyn yſbrydol yn ei yſbryd, ai bechodau yn vnig yn ei enaid. Y Sawl ni adwaeno ei enaid ai yſbryd ni ddeall nai feddyliau'r dydd, nai freuddwydion y nôs. Pam y mae rhyfeloedd mewn ſeinctiau oddifewn? am fôd y drêf ar caſtell ymma yn ſaethu at ei gilydd. Pam y mae ymryſonau ymyſg ffyddloniaid? am fôd enaid y naill yn ymoſod yn erbyn yſbryd y llall, canys yr vn yw ei hyſbryd hwynt oll yn Nuw. ond ni chytuna ei heneidiau naturiol ai gilydd. Ac hefyd llawer dŷn ſydd yn newynu ei yſbryd wrth beſci ei enaid a rheſwm dynol. Mae tair rhan dyn yn ymddangos fel plant a gweiſion ac anifeiliaid Iob, neu yn debig i dri mâb Noah ai gwragedd. Neu fel tri phlentyn yn y ffwrn a mâb Duw yn bedwerydd. Neu fel cyntedd y deml, ar lle Sanctaidd, ar lle Sancteiddiolaf. Cofia dithau mai'r tri hyn yw dy dyddyn ath etifeddiaeth di; Ac mae'r yſcrythr lân yn ſôn yn helaeth ac yn fynych am enaid ac yſbryd a chorph, er nad oes fawr etto yn deall hyn. Ar rhai ſydd yn canfod ychydig lewyrch ni chaniadhaed iddynt moi draethu mewn iaith ddynol, Canys dyfnder anfeidrol yw, Prin y ganwyd yr amſer yn yr hon y datcuddir hyn. Ond diſgwil di yn oſtyngedig am Dduw, ac di gei weled rhyfeddodau tragywyddol ei gariad ef, a bydd ddiolchgar am ychydig oleuni.*

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

*Eryr.* Ond mae arnai ofn ysbryd Anghriſt, rhag i mi dderbyn gâu athrawiaeth ac angel y tywyllwch yn rhith angel y goleuni; mae llawer dyſceidiaeth ddwfn ddierth ddyrus yr awron nad wyfi yn i deall.

Colomen. *Hawdd i blentyn y dydd adnabod Anghriſt (Blaidd y nôs) fel y dywedais i o'r blaen,*
Mat. 7. 16. *wrth ei lais ai liw ai ddillad a thuedd ei fywyd.*
2 Cor. 11. *Mae fo yn newid gwiſg yn fynych ac yn dyfod yn*
Col. 2. *rhith goſtyngeiddrwydd a dyſceidiaeth a goleuni newydd, yn cymryd arno brudd-der neu lawenydd, a zêl i loſgi'r cnawd ac i fyw yn ysbrydol, ac er hynny Hunan yw Swm ei holl grefydd ef, Ei ewyllys ei Hunan a wna, ai feddwl ei Hunan a fyn, ai ſynwyr ei Hunan ai harwain. Mae'n hawdd dy adnabod di (ô Sarph dorchog dwyllodrus) er dy fôd ti yn nyddu dy edef yn llawer meinach nag o'r*
2 Cor. 10. 12. *blaen. Rwyti yn ymffroſtio mewn rhinwedd a chrefydd ac opiniwnau o'r gwirionedd; rwyti yn ſon*
Dat. 13. *am yſcrythur ac awdurdod Duw, ond yr wyti yn byw mewn anghariad a chenfigen, mewn hyfdra cnawdol*
Math. 7. 3. *(yn barnu llawer cyn clywed barn Duw am danat dy*
Jer. 7. 4. *hunan) yn rhyfela, yn lladd, yn lloſgi, yn lledratta dan rith Duwioldeb, yn difetha'r defaid fel llwynoges, ac yn diangc i'th ffau, yn llechu yn dy ſynwyr dy hun, ac yn gwnio dail i guddio dy noethni. Wele llais y Goruchaf*
Pſal. 29. 9. *a'th ddychryna, a diſcleirdeb ei ddyfodiad a'th ddifetha.*
Preg. 7. 26. *Ar ſawl a addolo Dduw ei hun a ddiangc rhagot ti.*

*Eryr.* Ond beth a wna vn ſydd yn tybied yn ei galon nad yw ei holl grefydd ef hyd yn hyn ond oferedd cnawdol, a phennod rhagrithiwr.

Colomen. *Dechrau o newydd, a chymmer dy gyfrif*
Phil. 3. 13. *fel plentyn bach. Anghofia yr hyn ſydd or tu'n ôl er na wyddoſt nad oes gras Duw yn yr hyn a wnaethoſt. Oblegid yr un deyrnas ſydd yn gyntaf yn yr eginin ac*

*yno yn y dwysen, ac yn olaf yn ŷd llawn yn y dwysen.* Mar. 4. 28.
*Na farned neb ddydd pethau bychain rhag i fawr farn* Zach. 4. 10.
*Duw gwympo arno. Di fuost mewn cystudd meddwl yn ysbryd caethiwed mynydd Sinai, ac ar y bryn myglyd erchyll hwnnw yr wyti etto mewn rhan, Ond mae'r troed arall ar fynydd Sion. Cofia fôd cariad* 1 Joa. 4. 18.
*Duw yn bwrw allan ofn fel y taflodd* Sara Hagar *allan. Mae cariad Duw yn toddi calonnau rhai yn llawer cynt nai ddigofaint. Gochel iau y caethiwed. Ai vn o'r Hagarenniaid a fyddi di yn dy ddiwedd? Fe ddyle fod ynot feddwl sobr siriol diolchgar hyfryd gweddaidd diniwed yn wastad. Nid wyneb-pryd sarrig, sûr, cymylog. Ond wyneb-pryd angel doeth diwyd distaw di-gymysg. Ac oni buost felly, Edrych a gwel. Mae'r pren mawr yn blodeuo ynot ti ac eraill. Bydd felly o hyn allan.*

*Eryr.* Er hyn i gyd, mi dybygwn nad wyti weithiau yn atteb ond yn dywyll ac yn brin, a bôd llawer o'r peth a ddywedaist ti iw roi heibio cyn nemmor o amser.

Colomen. *Cofia hyn* (O Eryr) *fod yr holl ymddiddan ymma a fu rhyngom ni fel llyfr corn, neu A. B. C. i blentyn; Ond mae amser a lle i bôb peth, Ac mae yn rhaid rhoi llin ar lin a gorchymyn ar orchymyn i'r* Es. 28. 13.
*anneallus, a dysgu i'r Baban Grist Groes (yr hon ni ddeallodd nemmor mewn nerth etto) Er hynny di weli pasath waith a wna'r Goruchaf wrth ysgogiad deilien. Fe alle drwy hyn y gweithia fo lawer ynghalonnau rhai. Ond mae llawer dirgelwch iw ddangos ar fyrder nad wyfi yr awron yn fawr Sôn am dano. Ac meddaf nid yw hyn i gyd ond golygiad mewn drych ar frŷs, neu rossyn yn gwywo wrth i arogli. Nid yw llyfrau a llythrennau ond fel gwellt, Mae'r bywyd yn yr ysbryd nid yn y llythuren. A'r sawl sydd ysbrydol a wŷr oddiwrth ba ysbryd y daeth*

*y pethau hyn, Ac nid gwatwarwr yw. Ond gochel di pwy bynnag wyt (er doethed meddant neu er duwioled) esceulufo dan dy berigl y peth a yſgrifennir ymma, neu ddarllain yn ddifraw, ai fwrw i gornel i rydu yn dy erbyn, heb i ddeall hyd y gwaelod, Canys mewn rhyw fannau mae dyfnion bethau Duw yn ymddangos, ac mewn eraill mae llaeth, ac megis chwaryddiaeth hefyd i'r rhai bychain. Ac weithiau rwi'n adrodd yr vn peth yn fynych droſto.*

*Er.* Ond mae llawer o'r dyſcedigion nad oes ganddynt fawr bris (Dybygwn i) am y pethau hyn.

Colomen. *Taw ſôn o'r diwedd. Nid oes ŵr o ddyſg yn y byd, nag oes un a fedr ddarllain holl ddalennau ei*
Eſay 44. 25. Jer. 8. 8. *galon ai feddyliau ei hun. Nid yw'r Doctor ond anifail cyfrwys, nid yw'r yſcolhaig da (fel y gelwi di fo) ond aderyn coeg, Oni bydd rhôdd or nefoedd ganddo. Ac os bydd, Mae fo yn iſel ei feddwl, ac yn lleſhau pawb mewn*
Tit. 2. *cariad, ac yn byw yn gyfion yn ſobr ac yn dduwiol. Mae gwir ddyſg yn dyſcu dyn i fôd yn y bŷd ymma, yn ddiniwed fel plentyn, yn fuddiol fel dafad, yn ddiofal am y bŷd (fel vn yn huno ymmonwes y creawdr,) yn effro yn erbyn pechod, yn ddiwyd yn ei orchwyl, yn ddigenfigen oddifewn, yn llawenhau yn naioni eraill, yn llonydd dan waethaf dynion, yn ddioddefgar dan ddigofaint Duw, yn fodlon beth bynnag a ddigwyddo, yn nefol fel Chriſt ei hunan, yn hyfryd mewn triſtwch, yn galonnog mewn cyfyngder, yn hyf fel y llew, yn wirion fel colomen, yn gyfrwys er mwyn yr efengil, yn ffiaidd ganddo ei hun, yn blino ar flodau natur, ac yn brefu am Baradwys. Ac lle nad yw'r pethau hyn, nid oes yno ddim gwir ddyſceidiaeth.*

*Eryr.* Ond beth oni ddyſcais i yr vn o'r rhain etto?

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

Colomen. *Mi ddywedais o'r blaen, fôd Duw yn danfon ei holl blant ei hun allan oi tai ei hunain i yscol ei fâb. Ar sawl a ymroddo i'r mâb yn ei holl ewyllys a gaiff i wneuthur yn ddyscedig am deyrnas nef, a chlywed llais yn siarad oddifewn, Dymma'r ffordd Rhodia ynddi. Cyfod, medd* Jeremi, *i ti* Es. 30. 21.
*arwyddion ffordd. Gosod it garneddau vchel i'th gyfarwyddo yn yr anialwch. Vn garnedd yw Gwybodaeth, ac lle ni bo'r garnedd honno mae'r dynion yn cyfeiliorni, Canys heb wybodaeth ni all y galon fôd yn jawn. Fe all fôd gwybodaeth heb ras (fel tânwŷdd heb dân) ond nid oes dân heb dânwydd. Carnedd arall yw Cariad at bawb. Llei bo hwnnw mae Duw yno, ac llei bo mae fo yn awyddus i wellhau pawb, ac yn ofalus rhag niweidio neb. Carnedd arall yw Gostyngeiddrwydd ac isder meddwl llonydd, dioddefgar, distaw; ar cyfriw a gânt i dysgu gan Dduw ei hun. Cyfiawnder yw carnedd arall, a heddwch oddiwrth gyfiawnder, ac oddiwrth heddwch llawenydd mewn ysbryd glân. Ar sawl a wasanaetho Ghrist yn y pethau hyn, a fodlona* Rhuf. 14. 17, 18.
*Dduw ac fydd cymmeradwy ym mysg ei blant. Dymma rai o'r Carneddi yn y mynydd i'th arwain i Ganaan. Edrych ar y pilerau hyn ynot a Dôs ymlaen, a chofia, Nad digon i ddyn fyned i ffordd dda, oni ŵyr ef mai honno yw'r ffordd orau. Bydd ddistaw oddifewn, di gei ddeall pôb peth oddiallan. Na symmud chwaith nes codi o'r cwmmwl. Hawdd yw diwno'r ffordd* Num. 10.
*fawr wrth geisio i mendio. Aros ymmhebyll Duw nes adeiladu plâs Caersalem newydd. Tanbaid yw zêl heb wybodaeth, ond cariad addfwyn golau sydd hyfryd.*

*Eryr.* Dywaid etto. Beth a dybygi di am holl opiniwnau a chrefyddau y Twrciaid, ar Papistiaid, a'r Protestaniaid, ar Lutheraniaid, ar Calvinistiaid,

ar aneirif eraill o Secti yn yr oes ymma? Mi addewais hefyd i'r Gigfran ofyn i ti cyn diwedd ynghylch y llyfr gwasanaeth.

Colomen. *Na sonia am lawer o grefyddau. Hên a newydd, a phôb vn yn barnu ei gilydd. Nid oes vn*
Gal. 6. 15. *grefydd a dâl ddim ond y creadur newydd. Ac nid*
Joan 3. 3. *oes ond vn drws i mewn yno, a hwnnw yw'r ailenedigaeth yn enw Christ. Fe fuase dda i'r dyn nis caffo hi fod wedi i eni yn gi neu yn gâth, neu yn rhyw beth heb ysbryd anfarwol ynddo.*

*Swm Duwioldeb iw, Câr Dduw a'th holl galon, a'th gymydog fel ti dy hun, Y dyn nad iw yn dilyn hyn, ni waeth o ba opiniwn y bo. Ar sawl a dybio iddo fedru hyn yn rhŷgl nid edwyn hwnnw mo wreiddyn y chwerwedd sydd yngardd ei galon ei hun. Ond i dwyllo ei hunan y mae. Mae'r opiniwnwyr yn ymrafaelio ai gilydd fel cŵn a môch, er nad fel cŵn a môch iw y rhan orau ynddynt, a thithe (O Ddyn cyfrwysddrwg segurllyd) vwchben vffern yn chwerthin am ei pennau, wrth i gweled yn taro yn erbyn ei gilydd yn yr entri dywyll, am i bôd heb na gweled na deall iaith ei gilydd. Ond o hyn allan. Gadewch ymmaith yr holl ymryson tanbaid, anghariadus, rhyfelog, na wnaeth dda i neb erioed. A thewch a Sôn rhag ir cythreuliaid chwerthin, oni fedrwchwi ymresymu mewn cariad ag addfwynder, a meddwl i ddyscu llawer mewn ychydig eiriau bôb vn gan ei gilydd, ar cwbl gan Dduw. Ac am y llyfr Gwasanaeth, ni thâl ef fawr Sôn am dano. Mae hi yn llawn bryd iw gladdu, rhag i neb gael drwg oddiwrtho, yr hên bethau a ânt heibio. Wele, fe wneir pôb peth o newydd.*

*Eryr.* Oni allafi gael gwybod. I ba le mae'r holl eneidiau yn myned pan ymadawont ar bywyd yma? Pan elont hwy vnwaith ymaith nid ydym ni yn clywed dim oddiwrthynt hw ond hynny. A

aethant hwy ymhell neu yn agos neu ymha le y maent hwy ?

Colom. *O* Eryr *angraff. I ba le mae'r ganwyll yn myned pan ddiffoddo hi ond iw hwybren danllyd naturiol ei hun ? Neu i ba le mae'r tân ar gwrês or hayarn poeth yn mynd allan wrth ei roi mewn dwfr ? Nid drwy'r genau y mae ysbryd dyn yn mynd allan or tŷ pridd, ag nid drwy'r genau y daeth yr enaid i mewn i'r corph ar y cyntaf, Canys peth pûr bywiog cyflym iw ysbryd meddwl dyn yn treuddio drwy bôb corph heb ſymmud na chynhyrfu dim. O chwi rai deillion Agorwch eich llygaid a gwelwch, fod ysbryd pôb vn (wrth dorri o'r corph) yn aros yn y naturiaeth yn yr* Gen. 25. 8. *hon y bu fo byw. Os llygredig oedd y meddyliau llygredigaeth tragwyddol iw ei lettŷ. Mae naturiaeth cariad neu ddigter tragwyddol yn cynnwys ei holl blant ynddi, ac yn cipio gafael (fel fflam ar wêr) ar bôb ysbryd yn ôl ei anian. Ond ni wêl dyn moi gartref tra fo ei gnawd am dano; Mae dynion (meddaf) fel adar yn canu ar y pren heb feddwl am y gwreiddyn ſydd ynddynt. Mae'r eneidiau ſanctaidd a hunaſont yn Nuw yn llonydd yn y golau diſtaw ymhôb man o flaen ei wyneb ef o'r tu allan i drwſt ysbryd y byd, yn diſgwil am gynhyrfiad y corph drwy gyffrôad gwreiddyn naturiaeth. Ond mae'r ysbrydoedd colledig wedi torri edef y bywyd yn nhywyllwch meddwl digllonedd Duw yn rhûo ac yn ochain, Ond nid iw'r byd yn i clywed. Pam hynny ? Am nad oes ganddynt hwy yn vffern mor llais tafod i lefaru, na chan y rhan fwyaf o honom ni gluſtiau ysbrydol i wrando ſef calonnau iw hyſtyrio er i bôd nhwy yn yr vn natur a ni. Ond mae'r ffyddloniaid ymma yn gwybod iaith y Seinctiau yn y byd arall, ac yn canu yr vn Hallelujah i Dduw gyda hwynt, nid yn gweddio arnynt am ſyned at Ghriſt droſtynt, canys mae fo ei hun yn nês attynt na ſeinctiau neu*

*angelion. Ond am y defaid ar geifr yn y goleuni ar*
Luk. 16. 26. *tywyllwch, Cofia fod Gagendor fawr rhyngddynt (fel rhwng* Lazarus *a'r glŵth goludog) a honno iw y rhagoriaeth yn y naturiaeth dragwyddol. Fel rhwng melys a chwerw, neu rhwng da a drwg, y rhai er i bod yn yr vn lle, maent wedi i gwahanu yn ddigymod. A phan gwympo ysbryd dyn o'r corph i'r tywyllwch hwnnw, nid oes ganddo lygaid byth i weled y goleuni, na meddyliau byth am ddaioni. Ac o'r tu arall y rhai ſydd wedi diangc i'r Goleuni Hwnnw nid oes fyth ganddynt feddwl am y tywyllwch. Am hynny Edryched pôb dyn, ym mha vn o'r ddau y mae ei feddwl ef yn byw tra fo ef yn y corph, canys ni ŵyr y colledig moi hanes ei hun.*

*Eryr.* O Golomen mi fyddaf mor hŷf yr awron cyn diwedd a gofyn i ti dy hanes dy hun. Sef Hanes y Golomen.

Colomen. *Mi ddywedais i ti ar y cyntaf ond ni ddeellaiſt. Rhaid yw torri pliſcyn y ddammeg cyn cael y cynhwyllin, Er bôd yr yſcrythurau ſanctaidd hefyd yn llawn Damhegion. Ar y cyntaf, mi fûm yn* Enoch *yn ymryſſon ar hên fyd, ond nid oedd neb am derbyniodd ond* Noah *anwyl ai deulu. Wedi hynny mi ddaethym at* Abraham *ac yn y fan fe dafiodd ymaith ei Reſwm ei hun ac am dilynodd i drwy ffydd. Mi fûm yn ffeneſtri yr holl Batrieirch a'r Prophwydi hefyd. Ag ar ôl y Prophwyd Malachi ni chefais i fawr le i ddeſcyn nes dyfod* Joan. *Ond mi orphwyſais ar Jeſu Chriſt ai Apoſtolion, ac mi a ehedais drwy'r eglwyſydd hynny. Ond cyn ymadel o honynt hwy ar byd, fe ddaeth Brân y nôs (ſef ysbryd Anghriſt) ac a gafodd gennad im herlid i. Ac yno mi a ddiengais i fonwes y Merthyron, ac yn y Tân yr oeddwn i yn i cyſſuro hwynt. Ond yn ddiweddar mi ddiſcynnais yn ffeneſtriyr eglwyſydd newyddion, ac weithiau ar rai oi pregethwyr, er bod llawer o fudreddi*

*yn ei nythoedd. Ac yr awron, Mae'n weddus bod yn bryſſur, Canys fe ofynnir, Pwy iw y rhain ſydd fel cym-* Eſay 60. 8.
*ylau ac fel colomennod yn ehedeg iw ffeneſtri ?*

*Er.* Ond pa fath rai y mynit ti i'th ddynion di fôd ?

Colomen. *Nid fel y genhedlaeth ſydd yn melldithio'r Tâd, ac heb fendithio ei mam, neu yn lân yn ei golwg ei* Dih. 30. 11. 12.
*hun, ac yn amherffaith yngholwg Duw. Nid fel y gen-* &c.
*hedlaeth ſydd vchel ei llygaid a'i dannedd yn gleddyfau, ai cilddannedd yn gyllill, i ddifa'r tlodion oddiar y ddayar. Ond mi ſynnaf im dyſcyblion i fod fel y mor-*
*grûg yn darparu ei llyniaeth cyn bod yn rhywyr, ac* Dih. 30. 24. 25.
*fel cwnningod yn adeiladu ar y graig, ac fel locuſtiaid* &c.
*yn cytuno i ymdrech ynghyd, ac fel y pryf coppyn gwael yn dal ei gafel ar air y bywyd, fel y gallont felly aros ymhlâs y brenin nefol. Ar rhai hyn a wneir mor ddiddig na all dim i cyffroi, mor iſel na all dim i balchio, mor hyfryd na all dim i triſthau, mor ſobr ni all dim i ffôli, mor ddiflin na all dim i cloffi, mor bûr na all dim i halogi, mor rhagorol na all neb fynd tu hwnt iddynt, mor ddwys na all dim gloddio danynt, mor ſylfaenedig na ellir i ſiglo, mor blantaidd na ellir i cyfrwyſo, mor agored na ellir i cau, mor weddaidd na chaiff neb gamair ganddynt, mor iſel na ddichon vn gwynt moi hyſcwyd, mor vchel na all vn meddwl naturiol moi cyrhaedd, mor gyfrwys ar ſeirph, ac mor wirion ar colomennod. Ac ymhellach, mae rhai o honynt a allant ddywedyd (drwy râs) i bôd nhwy yn marw i'r byd yma, ac er hynny yn byw byth, yn llai na dim ynddynt ei hunain ac yn fwy nar byd yn ei gwreiddyn, Ar y dibin beynydd, ac er hynny yn ſefyll, heb wybod dim ynddynt ei hunain ac yn deall pôb peth yn nuw, yn llawn triſtwch, ond yn mwynhau canwyll llawenydd digymmar, yn ymdaflu mewn tonnau, ond yn ſicr wrth yr angor, yn gwrando ar bawb heb gredu vn dyn, ond*

*yn chwilio pôb peth, yn edrych ar y canghennau, ond yn byw yn y gwreiddyn, yn rhodio yn heol y byd yn yr enaid, ond yn ymgadw ymhlâs Duw yn yr yſbryd, yn llafurio yn waſtadol, ac er hynny yn gorphwys, yn ddiſtaw ar y ddayar, ac er hynny yn dyſtion i'r gwîr, yn llawn o feddyliau ac megis heb feddwl am ddim, yn cael câs gan bob cnawd a chariad gan bob ysbryd da, yn ymdrech ar holl gythreuliaid ac yn ymgaredigo ac angelion Duw, yn clywed mwy o lais y byd nag a garant, a llai o leferydd y Tâd nag a fynnent, yn chwilio gwaelod crefydd ac yn ymddangos ar yr wyneb yn ddiragrith mewn daioni, yn ymbriodi a Doethineb Duw ond etto heb i mwynhau yn hollhawl. Ac er amled ei pechodau, yn dyner ei cydwybodau, yn waeth nar gwaethaf yn ei golwg ei hunain, ac yn gyſtal ar gorau ymmantell yr Oen, ac yn debig i'r gwynt anolrheinadwy, ydynt yr hyn ydynt drwy ffafr y Goruchaf. O bydd un o honynt.*

*Eryr*. Mae'r rhain wedi myned ymhell. Ond dangos i mi Pa beth y mae'r gwan yn ei myſg yn ei ddywedyd.

Colomen. *Mae gweiniaid yn ſicr ymmyſg ffyddloniaid fel y mae wŷn ymyſg defaid, a thoſturus iw gwrando ar freſiad y gwan yn llefaru ac yn traethu. Wrth naturiaeth marw oeddwn, a phan welais i hynny mi a geiſiais fyw, ond nis gallwn nes i bob peth ynof ac om hamgylch farw i mi, Ac yno y collodd y creadur ei afael arnaf, ar munud hwnnw y cefais afael ar y creawdr, neu yn hytrach efe a ymaflodd ynof fi. Or blaen mi a glywais bregethau ond nid oeddwn i yn gwrando, mi ddywedais weddiau ond nid oeddwn i yn gweddio. Mi genais Pſalmau ond mûd oedd fynghalon. Mi Sacramentais ond ni welais gorph yr Arglwydd. Mi ymddiddenais ac a ddywedais lawer peth nid om calon mewn gwirionedd, nes i'r rhoſſyn darddu ynof.*

## *Arwydd* i *annerch* y *cymru.*

*Ac wedi'r holl gynnwrf rhaid oedd diwedd or diwedd cyn dechrau, a marw cyn i'r wenhithen dyfu drwy fy naiar i. Fe fywhaodd y pechod ac am lladdodd i, Roedd Duw wedi digio ac yn gwgu ynghadair fynghydwybod, a diafol yn gwenu ac yn chwerthin am fymhen i, ac yn gweiddi or tu fewn. Ho Ho myfi piau'r aderyn. Mae fo'n siwr yn y fagl. Mae ei feddwl ef mewn tair o gadwyni heŷrn, yn ffast yn ei ewyllys ei hunan, ac yn ysbryd y bŷd mawr, ac yn nigofaint y brenin mawr gydam fi. Mi ofnais hefyd na ellid byth dorri mor tair cadwyn hynny i'm gollwng i yn rhydd. Heb law hyn hefyd fe ddaeth Bytheiaid Satan ar fy ôl i dan olrhain: Gwatwarwyr y wlâd am gwawdiasont. A phan welodd yr Heliwr nad oedd gennif fatter beth a ddywede'r bŷd ai fytheiaid, fe gynhyrfodd blant y deyrnas, a rhai (megis) o blant y Brenin im ceryddu im digalonni, im rhwystro, ac im hoeri. Pan ballodd hyn hefyd, fe ddeffrôdd y gelyn holl wreiddiau vffern o'r tu fewn i mi fy hunan, i fôd yn ddigllon, yn aflan, yn greulon, yn benwyllt, ac yn llawn o wreichion drwg, yn fydol, yn sarrig, yn suddo, yn oferfeddwl, ac yno'r oedd yn flin gennif fyw ac yn ofnus gennif farw, am nad oedd bechod yn y dyn gwaethaf ac a welwn, nad oedd ef yn ceisio codi i ben i fynu yn fynghalon i. Roedd y nef wedi ymadel, ac vffern yn neshau, Angelion Duw yn ymddieithro, a delwau anifeiliaidd yn ymddangos. Roeddwn i yn gweled fy mod i wedi cwympo ymysg lladron ysbrydol anhrugarog rhwng* Caersalem *a* Iericho, *ac yn ceisio gweiddi am help ond yn methu gweddio, Nes i'r* Samaritan *bendigedig, sef yr Achubwr nefol, ddyfod attaf am codi i fynu. A hyn oll yr wyf yn i ddywedyd er dy fwyn di, fel os doi dithau byth i'r gwasgfeydd ymma am y pechod, na ymollwng mewn anobaith a thristwch bydol, ac nag ymgura fel dafad yn y mieri, ond disgwil yn llonydd wrth fin y ffordd. Fe ddaw'r prynwr heibio, ac a'th ollwng di yn rhydd.*

*Ac onide, os derfydd am danat, Darfydded am danat yn ei freichiau ef wrth ddiſgwil wrth ei air ai addewid ef. Ond os dilyni hyn byw fyddi, yn yſbryd y nerth, ar cariad, ar pwyll. Roedd yn fynghalon i yſgrifennu attat i'th rybuddio mewn cariad perffaith, Ond fe ddaeth y Sarph attafi, ac a geiſiodd attal y pin ymma. Hi a boerodd ei chelwydd tuag attaf wrth ſiſial fel hyn. Hunan ſy'n dy oſod ar waith. Rwyti yn ſcrifennu yn rhŷ dywyll, ni fedr nêb mo'th ddeall nes i'th niwl di godi, ac nid wyt ti yn dy ddeall dy hunan; Gâd yn llonydd, Mae digon o ŵybodaeth gan ddynion, bei gwnaent ar ei hôl. Mae gormod o lyfrau yn barod yn y bŷd. Dy holl wobr fydd cael dy adel fel tylluan yn y diffaethwch, fel pelican, ie fel hurtyn neu vn o'r philoſophyddion gweigion yn ymofyn am oleuni naturiaeth i adnabod y Duwdod ynghreaduriaeth y bŷd. A welaist ti yr Arglwydd erioed? neu a glywaist ti Dduw ei hunan? Dôs i ryw dwll ac ymguddia. Mae dydd Duw wedi goleuo. Gorau i ti dewi, a gadel ymmaith ſcrifennu. Gâd bawb yn llonydd a'th gydwybod dy hun yn eſmwyth. Bydd lawen. Bwytta dy fwyd a chalon iach. Rhodia a chymmer dy bleſer fel y gweli di bawb agos yn gwneuthur, ac yna fe eſtynnir dy ddyddiau di ar y ddaiar. Wele llyma fel y chwedleuodd y ddraig gyfrwys am fi, llyma fel y ceiſiodd hi fynhwyllo i. Llyma fel y gwnaeth hi ei gwaethaf i rwystro'r meddwl, i ſelio fyngenau ac i attal fy llaw. A phe i cawſe y Sarph i meddwl ni chawſwn i nag yſgrifennu hyn na thithau nai ddarllain nai wrando. Ond fe ddaeth y Golomen ac am helpodd, ac am cynnorthwyodd gan ddywedyd. Dôs ymlaen. Rhaid i bôb gwâs arſer ei dalent (er a ddywetto dynion) ac onide Gwae'r gwâs. Nid Hunan ſydd ymma yn dy gymmell, ond gwîr ſerch at Dduw, a chariad ffyddlon (yn neſaf) at y cymru. Nid wyti nag eraill nês er gwario o honot dy amſer byr mewn anghrediniaeth a diffrwythdra. Ac fe*

*gaiff rhai ganfod dealldwriaeth allan o'r niwl ar tywyllwch. Ie er nad yw dy gnawd di yn deall beth y mae'r* Esay 29. 18.
*yſbryd glân ynot yn i yſgrifennu, Mae rhan yſbrydol ai cenfydd. Nid oes chwaith fawr lyfrau cymreig ynghymru er pan loſcwyd papurau y Bruttaniaid gynt. Ac (medd Duw) fy mhobl i ynghymru a ddifethir o eiſiau gwybodaeth, Ac am danat ti dy hun, nid gwaeth pa* Hos. 4. 6.
*amharch a gaffech yn y cnawd. Di haeddaist i Dduw dy wrthod, ath adel mewn anialwch tragywyddol, Ond ni âd Duw byth mo honot. Ac er nâd Duw yw naturiaeth, ac er na ellir i adnabod drwy Philoſophyddiaeth, etto ni wnaeth ef mor bŷd ymma yn ofer ond fe ai goſododd fel drŷch i weled ei gyſcod ef ynddo. Dydi hefyd (ebr y Golomen) a welaist Dduw ei hunan, drwy ffydd, ac a glywaist ei lais ef ei hunan drwy'r yſbryd ſydd yn llefaru wrth ddynion. Ac er bôd rhan o'th amgylch môr anheilwng ar gwaethaf, Mae er hynny y dyn oddifewn heb pechu, a chantho law ymmhôb daioni, yn ceiſio llês i bawb. Ac wrthyt ti (ô Hâd anllygredig a llîn yn mygu) yr wyf yn dywedyd eilwaith, Cyſod, a Dôs ymlaen yn oſtyngedig, yn ofalus, yn ddioed, ac yn ddiolchgar. fel hyn y darfu i'r golomen atteb holl reſymau'r ſarph, a dattroi y rhâff a nyddaſe hi yn y meddwl. Wele (ô Eryr) Dymma ran o lais vn o'r rhai lleſcaf om dilynwyr i. Dymma ychydig o lawer.*

*Eryr.* Beth hefyd?

Colomen. *Mae vn ymhellach yn llefaru fel hyn. Byr yw fy helynt i o'r dechrau i'r diwedd. fy enioes ſydd fel afon chwyrn yn rhedeg i'r môr. fe am ganwyd ymmyſg creigiau, fe am magwyd mewn opiniwnau, fe am maglwyd dros amſerau, fe am rhyddhawyd mewn amſer cymmeradwy, fe am carwyd cyn dechrau amſer, a minnau byth a gâf garu yr hwn am carodd, ai lawn hoffi pan fo amſer wedi terfynu. Canys yr wyf dan gariad Duw er fy môd dan gerydd pawb, Gwael yn*

*y tîr, llwyd gan môr, llawn o brofedigaethau, ond llawen mewn gobaith gogoniant nefol. Yn y cyfamser yn rhodio mewn maes ysbrydol, ymysg defaid, ac yn rhybuddio'r geifr na thorrant ei gyddfau. A gymmero rybudd cymmered. Jynhasg i yw bôd yn ddiniwed ymmysg dynion. Ac oni allai lês i bawb, gochelyd gwneuthur afles i nêb : A cheisio byw allan o Hunan, yn yr ysbryd glân, ar Ghrist, i Dduw, yn ôl yr ysgrythurau, etto dan ordinhadau, vwchlaw'r bŷd, islaw'r groes, yn erbyn pechod, ac ar dŷ sancteiddrwydd, ymmonwes craig yr oesoedd, yn blino ar gwrs naturiaeth, yn brefu am y ffynnon nefol, ac yn gweddio ar i Dduw roddi heddwch nefol, a llawnder gwirionedd i'r Cymru tirion, iw porthi a gwybodaeth ac a deall ysbrydol, ac iw llenwi a holl lawnder Duw, ac ar i minnau gael cyfran o'r rhandir nefol ymmysg y rhai cywir mewn Duwioldeb, ac ar i'r amser fryssio pan na bo rhyfel yn vnlle ond ymmhyrth Satan ai angelion (a hynny a welaf.) Jabez a weddiodd, a Duw ai gwrandawodd. fe ofynnodd bedwar peth ac ai cafodd. Disgwil yr wyf finnau ar y Duw dinewidiad yr hwn a ddichon wneuthur mwy nag a allwn i ofyn nai feddwl. Iddo ef y bo'r glôd ar mawredd ar doethineb ar diolch ar deyrnas ar cariad ar cwbl yn dragywyddol.*

Jer. 3. 15. Eph. 3. 19. 1 Chron. 4. 10. Eph. 3. 20.

*Eryr.* Mae'r amser yn dylifo fel pellen ymmaith, Rhodded y Golomen vn gair o gyngor etto ir Eryr cyn ymadel.

Colomen. *Deall a dilyn yr hyn a glywaist yn barod. Canlyn y llusern a roddwyd i ti. Gochel wŷau'r neidr ar gigfran yn dy resymau dy Hunan. Na reoled ysbryd y creadur ynot, Canys y Sawl a ymlenwo ar creadur sydd wâg fynychaf o'r Creawdr. Na chais fôd yn llawn meddyliau. Gwell yw vn meddwl difrif nefol mewn diwrnod, na phum cant o rai disclair naturiol. Mynn ddifa dy Arglwydd Bechod oddifewn, ar*

Esay 59. 5.

*lleill a ymroant. Ac wrth hyn y cai di adnabod y pechod hwnnw. fe reolodd yn dy henafiaid. Mae dy feddyliau dithau nôs a borau yn hedeg atto (fel brain vwchben burgyn.) Pechod yw am yr hwn y mae dy gydŵybod yn dy gyhuddo, a'th elynion yn dy gywilyddio, a'th wir-gyfeillion yn dy rybuddio. Gochel hwnnw (yn anad vn) beth bynnag yw. Cofia ymmhôb cwmnhi dy fôd ti ar dy daith tuar bŷd bythol, ac ystyria gwymp yr Adda cyntaf a chodiad yr Ail. Cwympaist yn ddiammau gyda'r cyntaf: Cyfod heb ammau gyda'r ail hefyd. Na dderbyn vn athrawiaeth cyn i chanfod. Na wrthod vn gair cyn i holi, ac na chwda oddiwrthyt mor gwirionedd a dderbyniaist vnwaith. Na choelia mo ſŵn y wlâd, ond gwrando beth a ddywaid Duw wrth dy enaid anfarwol di: Onid oes ynot waelod pôb gŵybodaeth a rhinwedd, ni elli di wneuthur y pethau hyn. Ond os oes, Bydd yſbrydol ddiſigl yn dy feddyliau, nid fel tonn y môr, neu ewyn y dŵfr, neu bren* Jac. 1.
*diwraidd, mewn tymhestl, neu long heb angor, ne ûs anwadal, Bydd anaml mewn geiriau, ac aml mewn gweithredoedd nefol gorcheſtol. Ac wrth ddywedyd, Cofia, Mai mewn llawer o eiriau nid oes ball ar* Dih. 10. 19, 21.
*bechod, ac er hynny na fydd fudan (canys gwefuſau'r cyfiawn a borthant lawer.) Wrth geiſio derbyn mwy o'r yſbryd da, gochel rhag ir vn drŵg ruthro i mewn yn ei fantell ef: Mae rhai lloerig a rhai diefłig, ar* Math. 17. 15.
*gelyn yn marchogaeth ar ſûg ac ar humors ei cyrph nhwy. Mudion a byddariaid yn malu ewyn, yn llygadtynnu ac yn ſynnu'r gwirion. Mae eraill fel y Bedyddiwr, yn dyfod heb na bwytta nag yfed ac meddant* Mat. 11. 18.
*wele gythrael ganddo. Ond rhaid i ti brofi yr yſbrydoedd. Ac llei bo (meddaf) oleuni a phurdeb a chariad a goſtyngeiddrwydd yno y mae Duw ei Hunan yn aros. Gochel y ffyrdd Pabaidd hefyd, nid am nad* 1 Tim. 4. 1, 2.
*oes ddyſceidiaeth yn ei myſg, ond am mai creulon fuont wrth bawb eraill, am hynny tywelltir phiolau*

Dat. 16. 6. *dialedd ar y genhedlaeth honno. Na ddotia wrth feddwl am lawer o opiniwnau tra fych di dy hun yn gwneuthur llawer peth yn erbyn dy gydŵybod. Gwna (o Eryr) dy orau i rwyſtro pôb Drŵg, ac i rwyddo pôb Da yn y wlâd oddifewn ac oddiallan. Na chwſg ond hynny yn nhommen y cnawd (o ſwyddog.) Pryn dy amſer. Na âd ir ſyrthni, ar ymborthi diofn, ar balchder, ar oferedd lyngcu dy einioes di ath deulu. Canys y peth a baſſio vnwaith ni elli moi alw yn ôl. Gorchymyn heddwch a threfn dda (od oes awdurdod genit yn y wlâd) ô vſdus. Na âd i'th gymydogion fyw fel anifeiliaid direſwm. Coſba bawb ar a weithredo ddrŵg yn erbyn ei gydŵybod fel y dywedaiſt di dy hun o'r blaen. Nid digon dywedyd heb wneuthur. Ac os cais nêb gelu ei oleuni, ymreſymma ag ef yn ofn Duw. Dymma'r ddamnedigaeth fôd dynion yn caru'r tywyll-wch yn fwy nar goleuni ynddynt, ac yn mynd felly yn yrroedd ir lladdfa. Caffed pôb drwgweithred genit y goſp a haedde. Na ddyger bywyd dyn am anifail. Bydd dadmaeth i ddaioni ymmyſg Pawb, ac nid fel*
Gen. 10. 9. *Nimrod yn llâdd ac yn llyngcu y cwbl ei hunan. Na chais chwaith yſtwytho cydŵybod nêb i'th opiniwn di drwy rym, ond drwy reſwm, a chadw heddwch i bôb vn i ddywedyd ei feddwl, os heddychlon yw. Mae opiniwnau'r cyndyn mor aml ai dyddiau, ac mor an-wadal ai llygaid. Mae llawer o groes ffyrdd yn llawn lladron hyd yn hyn ymhedair congl y ddaiar. Os troi di oddiar y ffordd di a gwympi iw dwylaw nhwy. Am hynny Gochel meddaf, fel dymma'r dyddiau di-waethaf dyrryſaf perycclaf. Dy waith di yw dy wadu dy hun, Derchafu mâb Duw, Caru pôb dŷn, Caſhau pôb pechod, ymnythu yn Nuw yn vnig. Diſgwyl yn arafaidd am ei bleſer ef, ymeſtyn ymlaen at y perlau tragy-wyddol, Cadw gynhwyllin dealldwriaeth y ſeinctiau o'r blaen. Gochel fflûwch o ŵybodaeth yn y pen heb nerth yn y galon a phurdeb yn y bywyd. Ac edrych am*

*ddydd y farn bôb munud. a chais heddwch, a châr wirionedd, a gwîr Dduw'r danghneddyf ar goleuni a fydd gydath di ac ynot ti. Ond onis gwnei yn ôl fynghyngor i ond gwrthod o honot wrando ar fy llais. Wele ſcerbwd drewllyd a fyddi di yn y wlâd, a charcharwr aneſmwyth yn y pwll diwaelod heb gael byth newid dy bîg. Ond (ô Eryr adenog) mi debygwn dy fôd ti yn addfed i ddaioni, Am hynny fy nymuniad yw ar i tithau hefyd ehedeg dros dair ſir ar ddêg Cymru, a dywedyd wrthynt ymmhôb tref a phentref, ymmhôb llan a threflan, ymmhôb cymydogaeth a theulu, wrth bôb vn o ganghennau Adda, Hên ac ifangc. Edifarhewch. Mae teyrnas y Brenin mawr yn agos. Na chwedleuwch oferedd y naill ai gymydog mwy. Ymrowch i ddiſgwil am ymddangoſiad y Duw mawr ar holl galon mewn bwriad nerthol i ddychwelyd atto yn ei allu ei hun. Cedwch y gwîr Sabbaoth oddifewn ac oddiallan. A Duw'r Drugaredd a ddiſgleirio arnochwi or vchelder.*

*Eryr.* O Golomen. Mi wrandewais arnat yn ddiſtaw fel y dyle'r mwyaf ar y lleiaf, Ac mae fy meddwl i yn ddiolchgar am y cwbl, Ac am dy holl gynghorion caredig. Mi a roddaf i tithau air cyn ymadel. Cadw ar yr aden yn waſtad, Canys mi wn fôd llawer aderyn dû mewn cenfigen yn chwennych cael gafel arnat. Pe bai yn rhaid mi ddywedwn. Gochel ddiſcyn i lawr i garu'r ddayaren, Gochel hedeg allan o olwg yr Arch. Ond mae vn yn dy ddyſcu di, nid rhaid i mi mo'th gynghori di ymhellach.

Colomen. *Nid ydis etto ond trydar, fe gair llais arall ar ôl y chwe diwrnod. Na edryched neb am ſynwyr yn ôl dyſceidiaeth y byd oddiwrth Golomen wirion. Nid wyfi yn meddwl drwg i nêb, Am hynny na ymddigied nêb (nag ymflined nêb i bigo tyllau yn y llyfran hwn.) Swm yr hyn a ddywedais*

*yw Dirgelwch yr Ailenedigaeth yn y dwfr ar tân ysbrydol. Dymma ddigon (meddaf) i'r doeth, a Dymma ormod i'r cyfrwys.*

*Eryr.* Mae gennif lawer o Gweſtiwnau caledion eraill iw gofyn, Ond ni ai gadawn nhwy dan Glô nes cael yr Agoriad ar odfa neſaf (os rhoddir hi i ni.) Melys fydd gan rai ddarllain ein hymddiddanion ni, ond chwerw fydd iddynt i carcharu ai Gwawdio. Ac mi wn mai gwîr a ddywedodd *Salomon.* Y gwatwarwr a gais ſynwyr ac nis caiff,
Dih. 14. 6. ond hawdd yw i'r deallus ddeall. Y pechadur a
Jud. 10. ddibriſia yr hyn ni ddeall, ac a wnaiff yn erbyn yr hyn a wŷr. Nid yw nês er cael hyn iw dŷ oni bydd oddifewn. Ond mae'r geiriau a ddywedaiſt ti wrthyf fi fel mêl yn fyngenau i, beth bynnag a ddêl yn neſaf. Ni a adawn hynny i ddyfod, ac yn y cyfamſer ni a gŷdehedwn ynghylch yr Arch yr hon a achubodd weddillion dynion. Gorau i'r plentyn fôd gydai rieni ac i ddyn fod gyda Duw, Diſgwiliwn wrtho. Gwnaed a fynno. Ond Gwrando Accw. Mi glywaf adar eraill yn ymreſymu. Ai gorau i ni fyned i wrando arnynt?

Colomen. *Gwrandawed pawb ar y llais cywir, Ond na reded ar ôl cyſcodau. A Gwna dithau* O Eryr *yr hyn ſydd ynot fel y dylit i wneuthur.* Amen. *Ac felly ffarwel.*

---

TERFYN.

---



o 6223

VA